

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 30/09/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)  
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)  
[Business Statement and Announcement](#)

[Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)  
[Motion to Elect Members to Committees](#)

[Datganiad: Y Gyllideb Ddrafft 2015-16](#)  
[Statement: The Draft Budget 2015-16](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol](#)  
[Statement: Learning in Digital Wales Programme Update](#)

[Datganiad: Swyddogion Cymorth Cymunedol—Flwyddyn yn Ddiweddarach](#)  
[Statement: Community Support Officers—One Year On](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd mewn perthynas â Darpariaethau sy'n Ymwneud â'r Drosedd o Gam-drin neu Esgeulustod Bwriadol gan Weithwyr Gofal](#)  
[Supplementary Legislative Consent Memorandum \(Memorandum No 2\) on the Criminal Justice and Courts Bill in respect of Provisions relating to Offence of Ill-treatment or Wilful Neglect by Care Workers](#)

[Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus](#)  
[Public Service Broadcasting](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Dementia

13:30 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad Biography](#)

*1. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â dementia? OAQ(4)1861(FM)*

## Questions to the First Minister

### Dementia

*1. Will the First Minister provide an update on what the Welsh Government is doing to tackle dementia? OAQ(4)1861(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. 'Together for Mental Health' sets out the steps being taken to further improve dementia services. Our focus is on improving rates of timely diagnosis, raising awareness, and increasing access to information and support.

Gwnaf. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau dementia ymhellach. Rydym yn canolbwyntio ar wella cyfraddau diagnosis amserol, codi ymwybyddiaeth, a chynyddu mynediad at wybodaeth a chefnogaeth.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

- 13:30 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, over 45,000 people in Wales have dementia and, this lunchtime, the Alzheimer's Society launched its report, 'Dementia 2014: Opportunity for Change', in Wales. The summary highlights the lack of a long-term national commitment on dementia and the society calls for a specific dementia strategy, with clear lines of accountability. What guarantees can you provide to those patients and their families who live with dementia that the Welsh Government is willing to listen and act upon the recommendations that have been launched in the report today?
- Brif Weinidog, mae gan dros 45,000 o bobl yng Nghymru ddementia ac, amser cinio heddiw, lansiodd Cymdeithas Alzheimer's ei adroddiad, 'Dementia 2014: Opportunity for Change', yng Nghymru. Mae'r crynodeb yn tynnu sylw at y diffyg ymrwymiad cenedlaethol hirdymor o ran dementia ac mae'r gymdeithas yn galw am strategaeth ddementia benodol, gyda llinellau atebolrwydd eglur. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r cleifion hynny a'u teuluoedd sy'n byw gyda dementia bod Llywodraeth Cymru yn barod i wrando a gweithredu ar yr argymhellion a lansiwyd yn yr adroddiad heddiw?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, 'Together for Mental Health' provides that framework and I know that there are many who are aware of that framework. The Member will be aware, of course, of the dementia-friendly communities and the Dementia Friends campaign, which we have supported as a Government. In January, for example, the Minister launched the Alzheimer's Society Dementia Friends initiative, which was funded by Welsh Government. I can also point, of course, to the 'Living well with dementia after diagnosis' information pack, which is, again, funded by Welsh Government and developed and distributed by the Alzheimer's Society. It provides invaluable advice to those who are affected by dementia and Alzheimer's, and those, of course, who care for them.
- Wel, mae 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn darparu'r fframwaith hwnnw ac rwy'n gwybod bod yna lawer sy'n ymwybodol o'r fframwaith hwnnw. Bydd yr Aelod yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r cymunedau ystyriol o ddementia a'r ymgyrch Cyfeillion Dementia, yr ydym ni wedi ei chefnogi fel Llywodraeth. Ym mis Ionawr, er enghraifft, lansiodd y Gweinidog fenter Cyfeillion Dementia Cymdeithas Alzheimer's, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Gallaf hefyd dynnu sylw, wrth gwrs, at y pecyn gwybodaeth 'Byw'n dda gyda dementia ar ôl diagnosis', a ariennir, unwaith eto, gan Lywodraeth Cymru ac a ddatblygwyd ac sy'n cael ei ddosbarthu gan Gymdeithas Alzheimer's. Mae'n darparu cyngor gwerthfawr i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ddementia a chlefyd Alzheimer, a'r rhai hynny, wrth gwrs, sy'n gofalu amdanynt.
- 13:32 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, mae dros 2,000 o bobl â dementia cynnar arnynt—dementia cyn eu bod nhw'n 60 oed. Mae gwasanaethau yn bennaf ar hyn o bryd yn cael eu cyfeirio at yr henoed â dementia. Sut y gallwch chi fel Llywodraeth arwain y gwasanaeth sydd ar gael i'r bobl hyn—y grŵp hwn sydd o dan 60 oed, 2,000 ohonynt—sydd ag anghenion gwahanol iawn, yn enwedig os oes anghenion preswyl gyda nhw yn ogystal?
- First Minister, more than 2,000 people have early-onset dementia—dementia before they are 60 years of age. Current services are mainly directed at elderly people with dementia. As a Government, how can you lead a service that is available to this group of people, who are under 60 years of age, 2,000 of them, who have needs that are very different, especially if they also have residential needs?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae hynny'n iawn, wrth gwrs, ac mae'n bwysig dros ben, ac mae'r strategaeth yn cydnabod, bod gofal ar gael iddyn nhw. Mae dementia yn hollol wahanol mewn rhywun sydd o dan 60 oed: mae'n gyflymach yn y ffordd mae'n symud ymlaen. Rydym yn erfyn i'r byrddau iechyd sicrhau, pan eu bod yn ystyried gofal i bobl â dementia, ystyried sefyllfa y rheiny sydd o dan 60 oed.
- That is quite correct, of course, and it is very important, and the strategy identifies the fact, that there should be care available to them. Dementia is entirely different in someone who is under 60 years of age: it progresses more swiftly. We expect the health boards, when they do consider services for people with dementia, to consider the needs of those under 60 years of age.
- Plentyndod** **Childhood**
- 13:33 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â masnacheiddio a rhywioli plentyndod?*  
OAQ(4)1862(FM)
- 2. What is the Welsh Government doing to combat the commercialisation and sexualisation of childhood?*  
OAQ(4)1862(FM)

13:33	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We are committed to protecting the rights of children across all portfolios and Ministers are under a duty to ensure they have due regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child in developing policies and legislation that protect and safeguard children.</p>	<p>Rydym wedi ymrwymo i amddiffyn hawliau plant ar draws pob portffolio ac mae'n ddyletswydd ar Weinidogion i sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth sy'n amddiffyn a diogelu plant.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:33	<p><b>Jenny Rathbone</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The evidence presented by Cardiff University in Tŷ Hywel last week indicates that, when boys and girls speak out, 10 to 12-year-olds are under huge pressure to turn a boy-girl friendship into a boyfriend-girlfriend relationship. This continues more seriously as they get older in secondary school. There is an opportunity to address these inappropriate relationships that are too early on, before children are able to deal with sexual relationships, in the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, but, at the moment, the aspect relating to the curriculum in schools has been left out of the Bill. I wondered, therefore, what the Government is going to do to address this issue, because it is not just this research—all over the place, teachers are talking about it.</p>	<p>Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Brifysgol Caerdydd yn Nhŷ Hywel yr wythnos diwethaf yn dangos, pan fydd bechgyn a merched yn foddlon siarad, bod plant 10 i 12 oed dan bwysau enfawr i droi cyfeillgarwch rhwng bachgen a merch yn berthynas rhwng cariadon. Mae hyn yn parhau'n fwy difrifol wrth iddynt fynd yn hŷn yn yr ysgol uwchradd. Mae cyfle ar gael i fynd i'r afael â'r perthnasoedd anaddas hyn sy'n rhy gynnar, cyn y gall plant ymdopi â pherthnasoedd rhywiol, ym Mil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), ond, ar hyn o bryd, mae'r agwedd yn ymwneud â'r cwricwlwm mewn ysgolion wedi ei hepgor o'r Bil. Roeddwn i'n meddwl, felly, beth mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn, gan nad y gwaith ymchwil hwn sy'n tynnu sylw at y mater—mae athrawon ym mhobman yn ei drafod.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I understand fully the point that the Member makes, but the Bill is not the place for dealing with this issue. This needs to be dealt with as part of the curriculum and as part of the wider curriculum review and policy initiatives that are being delivered by the Department for Education and Skills at the moment. It is not a question of disagreeing with the Member's points; she is correct in the points that she makes. However, this is a matter, we believe, that is best dealt with via the curriculum and its review, rather than via the legislation that she refers to.</p>	<p>Rwy'n deall yn llwyr y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud, ond nid y Bil yw'r lle i ymdrin â'r mater hwn. Mae angen ymdrin â hyn yn rhan o'r cwricwlwm ac yn rhan o'r adolygiad cwricwlwm a'r mentrau polisi ehangach sy'n cael eu cyflwyno gan yr Adran Addysg a Sgiliau ar hyn o bryd. Nid mater o anghytuno â phwyntiau'r Aelod yw hyn; mae hi'n iawn o ran y pwyntiau y mae'n eu gwneud. Fodd bynnag, mae hwn yn fater, yn ein barn ni, y gellir mynd i'r afael ag ef orau drwy'r cwricwlwm a'i adolygiad, yn hytrach na thrwy'r deddfwriaeth y mae hi'n cyfeirio ati.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Mohammad Asghar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, do you agree with me that companies that are found to have breached official guidelines regarding the commercialisation and sexualisation of childhood should be banned from bidding for Welsh Government contracts in future?</p>	<p>Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi y dylai cwmnïau y canfuwyd eu bod wedi mynd yn groes i ganllawiau swyddogol o ran masnacheiddio a rhywioli plentyndod gael eu gwahardd rhag gwneud cais am gontractau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Well, I am not aware of any companies that have fallen into that category. However, if the Member has any evidence of that, we will, of course, be pleased to consider it.</p>	<p>Wel, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gwmnïau sydd yn y categori hwnnw. Fodd bynnag, os oes gan yr Aelod unrhyw dystiolaeth o hynny, byddwn, wrth gwrs, yn falch o'i hystyried.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau</b></p>		<p><b>Questions Without Notice from the Party Leaders</b></p>	
13:35	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First this afternoon, we have the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.</p>	<p>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, sydd gyntaf y prynhawn yma.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:35 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*  
 First Minister, one in 200 pregnancies ends in stillbirth—a figure that has not changed for some 20 years. Indeed, the most recent figures available show that the rate in Wales is increasing. What progress has your Government made in implementing the recommendations of the Health and Social Care Committee's inquiry into this heart-breaking tragedy?  
 Brif Weinidog, mae un o bob 200 beichiogrwydd yn arwain at farw-enedigaeth—ffigur nad yw wedi newid am oddeutu 20 mlynedd. Yn wir, mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod y gyfradd yng Nghymru yn cynyddu. Pa gynnydd mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o ran gweithredu argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r drasiedi dorcalonnus hon?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Well, of course, the Minister will be able to respond more fully with regard to that. However, the incidence of stillbirth in Wales has not changed greatly in recent years; whether it is the case that there is a level beyond which it cannot go down is a matter, of course, for the medics to determine. However, certainly we have one of the lowest rates in terms of stillbirths in the world.  
 Wel, wrth gwrs, bydd y Gweinidog yn gallu ymateb yn llawnach ynglŷn â hynny. Fodd bynnag, nid yw nifer yr achosion o farw-enedigaeth yng Nghymru wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf; mae pa un a yw'n wir bod lefel lle na ellir mynd yn is na hynny yn fater, wrth gwrs, i'r meddygon benderfynu arno. Fodd bynnag, yn sicr mae gennym un o'r cyfraddau isaf o ran marw-enedigaethau yn y byd.
- 13:36 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 First Minister, I would state quite clearly that it is possible to drive down the number of stillbirths in Wales—we just need concerted action to do so. The Government did establish the Welsh Initiative for Stillbirth Reduction, which was charged with implementing the committee's recommendations. That initiative came to an end earlier this year. Are you now confident that, without that initiative, measures around reduced foetal movement and growth assessment programmes are being routinely implemented across all obstetric units in Wales?  
 Brif Weinidog, rwyf am ddatgan yn gwbl eglur ei bod yn bosibl gostwng nifer y marw-enedigaethau yng Nghymru—ond bod angen gweithredu ar y cyd i wneud hynny. Fe wnaeth y Llywodraeth sefydlu Menter Cymru ar gyfer Lleihau Marw-enedigaeth, a oedd yn gyfrifol am weithredu argymhellion y pwyllgor. Daeth y fenter honno i ben yn gynharach eleni. A ydych chi'n ffyddiog bellach, heb y fenter honno, bod mesurau yn ymwneud â llai o symudiad y ffetws a rhaglenni asesu twf yn cael eu rhoi ar waith fel mater o drefn ar draws yr holl unedau obstetreg yng Nghymru?
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Yes. We would expect that work to continue. The maternity network, of course, is in place and we would expect to see the good work that has been put in place thus far continue in the future.  
 Ydw. Byddem yn disgwyl i'r gwaith hwnnw barhau. Mae'r rhwydwaith mamolaeth, wrth gwrs, ar waith a byddem yn disgwyl gweld y gwaith da sydd wedi ei wneud hyd yn hyn yn parhau yn y dyfodol.
- 13:37 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 One method that seems to have a significant impact on the levels of stillbirth is to make Doppler scans a routine part of foetal anomaly scans. St George's Hospital in London has made it standard practice to offer all first-time mothers the scan—it costs the NHS just £15 per scan—and has seen its stillbirth rate drop by 50% in three years. Would you commit to looking at introducing similar scanning regimes here for all first-time mothers in Wales?  
 Un dull y mae'n ymddangos sy'n cael effaith sylweddol ar lefelau marw-enedigaeth yw gwneud sganiau Doppler yn rhan arferol o sganiau anomaledd y ffetws. Mae Ysbyty St George yn Llundain wedi gwneud cynnig y sgan i bob mam tro cyntaf yn arfer safonol—dim ond £15 y sgan mae'n ei gostio i'r GIG—ac mae'r gyfradd marw-enedigaethau wedi gostwng 50% mewn tair blynedd. A wnewch chi ymrwymo i ystyried cyflwyno trefnau sganio tebyg yma ar gyfer yr holl famau tro cyntaf yng Nghymru?
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Based on the figures that the leader of the Liberal Democrats has provided, I think that this is something that needs to be looked at. Certainly, I will ask the Minister to examine the findings of that pilot project to see whether it can be applied in Wales.  
 Yn seiliedig ar y ffigurau y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi eu darparu, rwy'n meddwl bod hyn yn rhywbeth y mae angen ei ystyried. Yn sicr, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog archwilio canfyddiadau'r prosiect arbrofol hwnnw i weld a ellir ei ddefnyddio yng Nghymru.

- 13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I call on the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies. Galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.
- 13:38 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*  
Thank you, Presiding Officer. First Minister, the recent cuts in the skills budget of £7 million, along with other measures, have realised a cut of £10.7 million to the apprenticeship programme. These notices were given to the providers with only four days' notice of the contract starting on 1 August. Why was this undertaken in such a shambolic way, which has jeopardised 9,000 apprenticeship places here in Wales?  
Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae'r toriadau diweddar o £7 miliwn i'r gyllideb sgiliau, ynghyd â mesurau eraill, wedi golygu toriad o £10.7 miliwn i'r rhaglen brentisiaeth. Hysbyswyd y darparwyr am y rhain gyda dim ond pedwar diwrnod o rybudd o ddechrau'r contract ar 1 Awst. Pam y cafodd hyn ei wneud mewn ffordd a oedd yn gymaint o draed moch, sydd wedi peryglu 9,000 o leoedd prentisiaeth yma yng Nghymru?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Well, we have, of course, more than 12,000 young people who have been helped through Jobs Growth Wales. He needs to await the draft budget announcement in terms of what the future funding for apprenticeships is. However, certainly, we believe that we have a very good record in Wales—particularly given the fact that we have had to deal with cuts of at least £1.5 billion from his party.  
Wel, mae gennym, wrth gwrs, fwy na 12,000 o bobl ifanc sydd wedi cael eu helpu drwy Twf Swyddi Cymru. Mae angen iddo aros am gyhoeddiad y gyllideb ddrafft o ran beth fydd y cyllid ar gyfer prentisiaethau yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn sicr, rydym ni'n credu bod gennym hanes da iawn yng Nghymru—yn enwedig o ystyried y ffaith ein bod wedi gorfod ymdopi â thoriadau o £1.5 biliwn o leiaf gan ei blaid ef.
- 13:38 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
As per usual, First Minister, you have sidestepped the direct question that I put to you. I note in the budget announcement today that there is talk of additional money for apprenticeships, for up to 5,000 places. These are in-year cuts that your Government has made to the current programme, totalling £10.7 million, which has threatened 9,000 apprenticeship places. Surely, that reeks of shambles at the heart of the Government in dealing with the finances. The providers were expecting the figures to be delivered by March, so that they could plan for the new contracts in August. All I am asking is merely why, with only four days' notice, such devastation was wrought on the apprenticeship programme here in Wales? It is a fact. It is there: those are the contracts that the providers are dealing with. Why such a shambles?  
Yn ôl yr arfer, Brif Weinidog, rydych chi wedi ochrgamu'r cwestiwn uniongyrchol a ofynnais i chi. Sylwaf yng nghyhoeddiad y gyllideb heddiw bod sôn am arian ychwanegol ar gyfer prentisiaethau, ar gyfer hyd at 5,000 o leoedd. Mae'r rhain yn doriadau yn ystod y flwyddyn y mae eich Llywodraeth wedi eu gwneud i'r rhaglen bresennol, sy'n gyfanswm o £10.7 miliwn, sydd wedi bygwth 9,000 o leoedd prentisiaeth. 'Does bosib bod hynny'n awgrymu traed moch yng nghalon y Llywodraeth wrth ymdrin â'r cyllid. Roedd y darparwyr yn disgwyl i'r ffigurau gael eu cyflwyno erbyn mis Mawrth, er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer y contractau newydd ym mis Awst. Y cwbl rwy'n ei ofyn yw pam, gyda dim ond pedwar diwrnod o rybudd, y dinistriwyd y rhaglen brentisiaeth yma yng Nghymru yn y fath fodd? Mae'n ffaith. Mae yno: dyna'r contractau y mae'r darparwyr yn ymdrin â nhw. Pam cymaint o draed moch?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Well, I have to say that he seems to ignore the fact that we were called on to make in-year cuts as well by the UK Government and, therefore, we cannot magic up money—I know that he thinks that there is a magic money tree somewhere—which means that difficult decisions have to be taken. The reality is that our record when it comes to apprenticeships and providing young people with opportunities is much, much better than anything his party has ever come up with at any level of government anywhere.  
Wel, mae'n rhaid i mi ddweud ei bod yn ymddangos ei fod yn anwybyddu'r ffaith y galwyd arnom i wneud toriadau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth y DU hefyd, ac felly, ni allwn ddod o hyd i arian trwy hud a lledrith—gwn ei fod yn credu bod coeden arian hud yn rhywle—sy'n golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Y gwir amdani yw bod ein hanes o ran prentisiaethau a chynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn llawer, llawer gwell nag unrhyw beth mae ei blaid ef erioed wedi ei gynnig ar unrhyw lefel o lywodraeth yn unrhyw le.

13:40

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, 1.8 million apprenticeships have been generated by the UK Government since 2010. What your Government has done is to make in-year cuts. I am unaware of any substantial in-year cuts given to your Government by the UK and, in fact, you have had Barnett consequentials. What the providers and the young people seeking those apprenticeships want are some straight answers. Why the chaos? Four days' notice—. I do take the point that apprenticeships have been successful here in Wales; 66%—[Interruption.] I am happy to acknowledge that 66% of people who enter the apprenticeship programme find full-time employment at the end of that programme, and 80% of people who go on the programme finish their courses. There is a success story there. However, sadly, your Government has taken £10.7 million out of that budget, mid-year, with four days' notice to the providers. What does that say about the priorities for your Government? It says that the priorities are all wrong.

Brif Weinidog, crëwyd 1.8 miliwn o brentisiaethau gan Lywodraeth y DU ers 2010. Yr hyn mae eich Llywodraeth chi wedi ei wneud yw gwneud toriadau yn ystod y flwyddyn. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw doriadau yn ystod y flwyddyn sylweddol a drosglwyddwyd i'ch Llywodraeth gan y DU ac, yn wir, rydych chi wedi cael symiau canlyniadol Barnett. Yr hyn y mae'r darparwyr a'r bobl ifanc sy'n chwilio am y prentisiaethau hynny ei eisiau yw atebion gonest. Pam yr anhrefn? Pedwar diwrnod o rybudd—. Rwy'n derbyn y pwynt bod prentisiaethau wedi bod yn llwyddiannus yma yng Nghymru; 66%— [Torri ar draws.] Rwy'n hapus i gydnabod bod 66% o bobl sy'n ymuno â'r rhaglen brentisiaeth yn dod o hyd i waith llawn amser ar ddiwedd y rhaglen honno, a bod 80% o'r bobl sy'n mynd ar y rhaglen yn gorffen eu cyrsiau. Mae honno'n stori o lwyddiant. Fodd bynnag, yn anffodus, mae eich Llywodraeth wedi cymryd £10.7 miliwn allan o'r gyllideb honno, yng nghanol y flwyddyn, gyda phedwar diwrnod o rybudd i'r darparwyr. Beth mae hynny'n ei ddweud am y blaenoriaethau i'ch Llywodraeth? Mae'n dweud bod y blaenoriaethau i gyd yn anghywir.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He is generous in his praise; I accept that. However, he cannot say on the one hand that we have done well and on the other that we are doing badly. The reality is that Jobs Growth Wales is a very good scheme—he acknowledges that and I will not comment further on that. However, there have been difficult decisions that we have had to make as part of the budget process.

Mae'n hael yn ei glod; rwy'n derbyn hynny. Fodd bynnag, ni all ddweud ar y naill law ein bod ni wedi gwneud yn dda ac ar y llaw arall ein bod ni'n gwneud yn wael. Y gwir amdani yw bod Twf Swyddi Cymru yn gynllun da iawn—mae ef yn cydnabod hynny ac nid wyf am wneud sylw pellach ar hynny. Fodd bynnag, bu penderfyniadau anodd y bu'n rhaid i ni eu gwneud yn rhan o broses y gyllideb.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

He mentions Barnett. Will he join me, then, and, indeed, other parties in the Chamber, in pursuing the need to deal with the issue of underfunding in Wales? He keeps on saying—. Well, he called it 'bellyaching' at one point. The reality is—and I make this point very clearly—that we are underfunded to the tune of £300 million a year, give or take a little one way or the other. There are some who say—and his party has said it—that we are holding out the begging bowl. I say to him that there are people who will listen to what he is saying, people whose parents and grandparents worked in coal, steel, slate, and tinplate and who contributed greatly to the prosperity of the UK. Is it really asking too much that they should have a fair share of the pot now? I would hope that he would join me, and, indeed, in fairness, other leaders in the Chamber, in standing up for Wales.

Mae'n sôn am Barnett. A wnaiff ef ymuno â mi, felly, ac, yn wir, pleidiau eraill yn y Siambr, i roi sylw i'r angen o ymdrin â'r mater o danariannu yng Nghymru? Mae'n dweud bob amser—. Wel, 'cwyno cyson' y gwnaeth ef ei alw ar un adeg. Y gwir amdani yw—ac rwy'n gwneud y pwynt hwn yn eglur iawn—ein bod yn cael ein tanariannu o £300 miliwn y flwyddyn, fwy neu lai. Mae rhai sy'n dweud—ac mae ei blaid ef wedi ei ddweud—ein bod yn cynnig y bowlen gardota. Rwy'n dweud wrtho fod yna bobl a fydd yn gwrandao ar yr hyn y mae'n ei ddweud, pobl yr oedd eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau yn gweithio yn y diwydiannau glo, dur, llechi, a thunplat ac a wnaeth gyfraniad mawr at ffyniant y DU. A yw wir yn gofyn gormod y dylent gael cyfran deg o'r pot nawr? Byddwn yn gobeithio y byddai'n ymuno â mi, ac, yn wir, a bod yn deg, arweinwyr eraill yn y Siambr, i sefyll dros Gymru.

13:42

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, I call on Leanne Wood, leader of Plaid Cymru.

Yn olaf, galwaf ar Leanne Wood, arweinydd Plaid Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, over the summer the Chancellor of the Exchequer announced generous tax breaks for companies that are interested in using fracking as a means of extracting shale gas. Now, there are varying estimates in terms of how much shale gas could be extracted in Wales, but the UK Government seems intent on pressing ahead with the granting of licences for drilling. Does the Welsh Government share the UK Government's enthusiasm for fracking?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, dros yr haf, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys fanteision treth hael i gwmnïau sydd â diddordeb mewn defnyddio ffracio fel ffordd o echdynnu nwy siâl. Nawr, ceir amcangyfrifon amrywiol o ran faint o nwy siâl y gellid ei echdynnu yng Nghymru, ond mae'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn benderfynol o fwrw ymlaen â rhoi trwyddedau ar gyfer drilio. A yw Llywodraeth Cymru yn rhannu brwdfrydedd Llywodraeth y DU am ffracio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
No, we always see the need for a precautionary approach. Of course, the planning issues surrounding fracking are not devolved and that precautionary approach has not changed.
- Nac ydym, rydym ni bob amser yn gweld yr angen am ddull rhagofalus. Wrth gwrs, nid yw'r materion cynllunio yn ymwneud â ffracio wedi eu datganoli ac nid yw'r dull rhagofalus hwnnw wedi newid.
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 13:43 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Among the many concerns raised by members of the public is the Department of Energy and Climate Change's decision to press ahead with simplifying underground access for oil and gas developers, giving permission to companies to drill under private land and private property. Ninety-nine per cent of respondents to a DECC consultation objected to that. Should fracking be permitted under private property without the consent of the owner?
- Ymhlith y pryderon lawer a godwyd gan y cyhoedd yw penderfyniad yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd i fwrw ymlaen â symleiddio mynediad tanddaearol i ddatblygwyr olew a nwy, gan roi caniatâd i gwmnïau ddrilio dan dir preifat ac eiddo preifat. Roedd naw deg naw y cant o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y DECC yn gwrthwynebu hynny. A ddylid caniatáu ffracio dan eiddo preifat heb ganiatâd y perchennog?
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I think there are real issues with that. I think it is very difficult to justify that to the public. If she is going to invite me, in her third question, to consider whether the licensing regime should be devolved, that is something that I have some sympathy with.
- Rwy'n meddwl bod problemau gwirioneddol gyda hynny. Rwy'n credu ei bod yn anodd iawn cyfiawnhau hynny i'r cyhoedd. Os yw hi'n mynd i'm gwahodd, yn ei thrydydd cwestiwn, i ystyried a ddylid datganoli'r drefn drwyddedu, mae hynny'n rhywbeth y mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad ag ef.
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 13:43 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Okay, that is good. Fracking remains controversial, as you are aware, and Plaid Cymru has suggested a moratorium on fracking operations until and unless safety and environmental concerns can be satisfied. Now, the issue highlights the wider problem that the country has little competence over its own natural resources, and I thank you for your previous answer on that point. We do, however, currently have powers and competence over planning. Would Welsh Ministers support Welsh local authorities that wish to implement a de facto moratorium using existing planning legislation?
- lawn, mae hynny'n dda. Mae ffracio yn dal i fod yn ddadleuol, fel y gwyddoch, ac mae Plaid Cymru wedi awgrymu moratoriwm ar weithrediadau ffracio tan y gellir tawelu pryderon diogelwch ac amgylcheddol, ac os gellir gwneud hynny. Nawr, mae'r mater yn amlygu'r broblem ehangach mai ychydig iawn o gymhwysedd sydd gan y wlad dros ei hadnoddau naturiol ei hun, ac rwy'n diolch i chi am eich ateb blaenorol ar y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, mae gennym bwerau a chymhwysedd dros gynllunio ar hyn o bryd. A fyddai Gweinidogion Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n dymuno gweithredu moratoriwm de facto gan ddefnyddio deddfwriaeth gynllunio bresennol?
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 13:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I think a moratorium is difficult. I think it is challengeable. Also, there is the fact that, if you impose a moratorium on fracking, there are other technologies that would be drawn into it as well. There are some who would argue, as I have heard, for a moratorium on onshore wind, and others who would argue for a complete moratorium in terms of opencast mining, and they all have their arguments; I understand that. What is important—and I do not think that we are very far apart in this regard—is that caution should be exercised when it comes to considering granting planning permission for fracking, and full consideration should be given to the environmental impact, as well as the social impact. That much is true. Therefore, I reiterate the point that I have heard what the UK Government has said, but that our approach in planning terms remains the same.
- Rwy'n credu bod moratoriwm yn anodd. Rwy'n credu bod modd ei herio. Hefyd, mae'r ffaith, os byddwch yn cyflwyno moratoriwm ar ffracio, bod technolegau eraill a fyddai'n cael eu tynnu i mewn iddo hefyd. Mae rhai a fyddai'n dadlau, fel yr wyf wedi clywed, am foratoriwm ar wynt ar y tir, ac eraill a fyddai'n dadlau dros foratoriwm llawn o ran cloddio glo brig, ac mae gan bob un ohonynt ei ddadl; rwy'n deall hynny. Yr hyn sy'n bwysig—ac nid wyf yn credu ein bod yn anghytuno rhyw lawer yn hyn o beth—yw y dylid bod yn ofalus wrth ystyried rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer ffracio, a dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr amgylchedd, yn ogystal â'r effaith gymdeithasol. Mae cymaint â hynny'n wir. Felly, rwy'n ailadrodd y pwynt fy mod wedi clywed yr hyn y mae Llywodraeth y DU wedi ei ddweud, ond bod ein hymagwedd o ran cynllunio yn parhau i fod yr un fath.
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:45	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	We now move to questions on the paper again. Question 3 is from Lindsay Whittle.	Ymudwn nawr at gwestiynau ar y papur unwaith eto. Daw Cwestiwn 3 gan Lindsay Whittle.
	<b>Y Llwybr Du ar gyfer yr M4</b>	<b>The Black Route for the M4</b>
13:45	<b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<i>3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith llwybr du arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd ar fusnesau a swyddi sydd eisoes yn bodoli yn y ddinas? OAQ(4)1854(FM)</i>	<i>3. Will the First Minister make a statement on the impact to existing businesses and jobs in Newport of the Welsh Government's proposed black route for the M4 around the city? OAQ(4)1854(FM)</i>
13:45	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Subject, of course, to the necessary examinations that have to take place, such as the environmental impacts and any potential public inquiry, our view is that the black route would significantly improve access to Wales, particularly Newport. New junctions are included in the Glan Llyn development area, which direct to central Newport itself. It would greatly increase connectivity for existing businesses and the potential of employment sites across Newport. Of course, there are various stages of examination that the black route would have to go through.	Yn amodol, wrth gwrs, ar yr archwiliadau angenrheidiol y mae'n rhaid eu cynnal, fel yr effeithiau amgylcheddol ac unrhyw ymchwiliad cyhoeddus posibl, ein barn ni yw y byddai'r llwybr du yn gwella mynediad i Gymru yn sylweddol, ac i Gasnewydd yn arbennig. Mae cyffyrdd newydd wedi eu cynnwys yn ardal ddatblygu Glan Llyn, sy'n cyfeirio at ganol Casnewydd ei hun. Byddai'n cynyddu cysylltedd ar gyfer busnesau presennol yn fawr a photensial safleoedd cyflogaeth ar draws Casnewydd. Wrth gwrs, ceir gwahanol gamau archwilio y byddai'n rhaid i'r llwybr du fynd drwyddynt.
13:46	<b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	First Minister, Associated British Ports has already warned that the proposed black route will severely damage the economy of Newport, leading to trade moving to Bristol and Liverpool. Another major Newport employer, Island Steel, has called for an alternative route, involving developing the southern distributor route, to please be examined. Will you now agree that a full public consultation and examination of the suggested blue route needs to take place, and that the current plans for the black route should be put on hold while this is done?	Brif Weinidog, mae Cymdeithas Porthladdoedd Prydain eisoes wedi rhybuddio y bydd y llwybr du arfaethedig yn niweidio economi Casnewydd yn ddifrifol, gan arwain at fasnach yn symud i Fryste a Lerpwl. Mae cyflogwr mawr arall yng Nghasnewydd, Island Steel, wedi galw am lwybr arall, yn cynnwys datblygu'r llwybr dosbarthu deheuol, i gael ei ystyried. A wnewch chi gytuno nawr bod angen cynnal ymgynghoriad ac archwiliad cyhoeddus llawn ar y llwybr glas arfaethedig, ac y dylid gohirio'r cynlluniau presennol ar gyfer y llwybr du tra bod hyn yn cael ei wneud?
13:46	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> With regard to the black route, as I said, there are stages that it must go through. With the blue route, I have to say to Members that it is not what it appears to be. It would cost about £800 million, not £300 million. It would be delivered in the same timescale. I have travelled along the proposed blue route. At the moment, it has traffic lights on it, effectively, and it would need a substantial amount of work. It also goes past a brand-new housing estate. One of the issues that would need to be looked at is whether residential houses would have to be removed and whether businesses would also have to be removed. Therefore, the blue route is a not a pain-free option, if I can put it that way. It never was. Nor could it be delivered in a timescale that would be faster than the black route. That said, I will repeat what I said earlier, which is that there will need to be an environmental study; that much we understand. There may well be a public inquiry. It is important that these stages take place in order for there to be full transparency with regard to the black route.	O ran y llwybr du, fel y dywedais, ceir camau y mae'n rhaid iddo fynd drwyddynt. O ran y llwybr glas, mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelodau nad yw'r llwybr hwn yr hyn y mae'n ymddangos ei fod. Byddai'n costio tua £800 miliwn, nid £300 miliwn. Byddai'n cael ei gyflawni yn unol â'r un amserlen. Rwyf wedi teithio ar hyd y llwybr glas arfaethedig. Ar hyn o bryd, ceir goleuadau traffig arno, mewn gwirionedd, a byddai angen gwneud llawer iawn o waith arno. Mae hefyd yn mynd heibio stad o dai newydd sbon. Un o'r materion y byddai angen ei ystyried yw a fyddai'n rhaid cael gwared ar dai preswyl a pha un a fyddai'n rhaid cael gwared ar fusnesau hefyd. Felly, nid yw'r llwybr glas yn ddewis di-boen, os caf ei roi felly. Nid oedd yn hynny erioed. Ac ni ellid ei gyflawni mewn cyfnod a fyddai'n gyflymach na'r llwybr du. Wedi dweud hynny, ailadroddaf yr hyn a ddywedais yn gynharach, sef y bydd angen cynnal astudiaeth amgylcheddol; rydym yn deall cymaint â hynny. Efallai'n wir y bydd ymchwiliad cyhoeddus. Mae'n bwysig bod y camau hyn yn cael eu cyflawni fel bod tryloywder llawn o ran y llwybr du.



13:47 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Will the First Minister agree that the M4 around Newport and local businesses and jobs would benefit greatly from a more integrated transport system, and that the Welsh Government's priority should be public transport, including a south Wales metro system?

A wnaiff y Prif Weinidog gytuno y byddai'r M4 o gwmpas Casnewydd a busnesau a swyddi lleol yn elwa'n fawr o system drafnidiaeth fwy integredig, ac mai cludiant cyhoeddus ddylai fod blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys system metro yn ne Cymru?

13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the metro system is moving forward anyway. That is something that we will develop. We cannot escape the fact that the traffic situation at the Brynglas tunnels will get worse. It is not going to improve. It is simply not the case that traffic will suddenly disappear from that tunnel. I do not think that it is one or the other, if I am being honest with the Member. It is perfectly possible to develop the metro proposals, as well as examining difficulties on the road network, as we did with the Llandysul bypass, as we did with the Porthmadog bypass, and as was done with straightening parts of the A470. A full examination will take place of the black route, as I have already mentioned. However, that does not mean that it is a question of the development of the M4 having to take place instead of moving forward with the metro. The two will happen at the same time.

Wel, mae'r system metro yn symud ymlaen beth bynnag. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ddatblygu. Ni allwn ddianc rhag y ffaith y bydd y sefyllfa draffig yn nhweli Brynglas yn gwaethygu. Nid yw'n mynd i wella. Nid yw'n wir y bydd y traffig yn diflannu o'r twnnel hwnnw'n sydyn. Nid wyf yn credu ei fod yn fater o'r naill neu'r llall, os wyf yn bod yn onest â'r Aelod. Mae'n gwbl bosibl datblygu'r cynigion metro, yn ogystal ag archwilio anawsterau ar y rhwydwaith ffyrdd, fel y gwnaethom gyda ffordd osgoi Llandysul, fel y gwnaethom gyda ffordd osgoi Porthmadog, ac fel y gwnaethpwyd o ran sythu rhannau o'r A470. Bydd archwiliad llawn o'r llwybr du yn cael ei gynnal, fel yr wyf eisoes wedi ei grybwyll. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu ei fod yn fater o ddatblygiad yr M4 yn gorfod digwydd yn hytrach na symud ymlaen gyda'r metro. Bydd y ddau beth yn digwydd ar yr un pryd.

13:48 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I know that the announcement on the budget is subject to various votes in this institution before it is confirmed, but part of the agreement seems to relate to another environmental assessment around the black route, as I understand it, for the M4 relief road. Will this work be undertaken if the budget deal is ratified, or must the environmental assessment wait until 2016 as well, where I think you draw a line on the construction phase?

Brif Weinidog, gwn fod y cyhoeddiad ar y gyllideb yn amodol ar bleidleisiau amrywiol yn y sefydliad hwn cyn iddo gael ei gadarnhau, ond mae'n ymddangos bod rhan o'r cytundeb yn ymwneud ag asesiad amgylcheddol arall o ran y llwybr du, fel rwy'n deall, ar gyfer ffordd liniaru'r M4. A fydd y gwaith hwn yn cael ei wneud os bydd cytundeb y gyllideb yn cael ei gadarnhau, neu a fydd yn rhaid i'r asesiad amgylcheddol aros tan 2016 hefyd, lle rwy'n meddwl eich bod yn dod â'r cam adeiladu i ben?

13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am not going to comment on the budget ahead of what the Minister for finance may or may not say. However, it is important to reiterate the point that the preferred route that has been announced by the Minister is, as we know, subject to various stages of consultation in order for it to be as transparent as possible.

Nid wyf yn mynd i wneud sylw ar y gyllideb cyn yr hyn y bydd neu na fydd y Gweinidog cyllid yn ei ddweud. Fodd bynnag, mae'n bwysig ailadrodd y pwynt bod y llwybr a ffeirir a gyhoeddwyd gan y Gweinidog, fel y gwyddom, yn amodol ar wahanol gamau o ymgynghori er mwyn iddo fod mor dryloyw â phosibl.

## Safonau'r Gymraeg

13:49 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu safonau'r Gymraeg? OAQ(4)1859(FM)

4. Will the First Minister make a statement on the implementation of Welsh language standards? OAQ(4)1859(FM)

- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Fe wnes i ddatganiad ysgrifenedig am amserlen safonau'r Gymraeg ym mis Gorffennaf. Rydym yn parhau i ddrafftio'r rheoliadau yn unol â'r amserlen honno. Mater i Gomisiynydd y Gymraeg yw gweithredu'r safonau terfynol.  
I issued a written statement on the timetable for the Welsh language standards in July. We continue to draft the regulations according to that timetable. It is a matter for the Welsh Language Commissioner to implement the final standards.
- 13:50 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
A gaf ofyn i chi, felly, Brif Weinidog, a yw'n dal i fod yn fwriad gennych gwblhau'r tair rhan cyn etholiadau'r Cynulliad? A ydych yn ailystyried? Roedd y safonau drafft ym mis Ionawr yn sôn am sefyllfa lle nad oedd cwmnïau sy'n derbyn gwasanaethau sydd wedi'u contractio allan yn destun safonau Cymraeg. Erbyn hyn, mae traean o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu contractio allan, felly mae bwlch enfawr yn y safonau. A gaf ofyn i chi ailystyried ar sail hynny?  
May I ask you, therefore, First Minister, whether it is still your intention to complete the three rounds before the Assembly elections? Are you reconsidering? The draft standards in January mentioned a situation whereby companies that were receiving services that were contracted out would not be subject to the Welsh standards. Now, a third of public services in Wales are contracted out, and there is therefore a huge gap in standards. May I ask you to reconsider on that basis?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Rhaid dweud, wrth gwrs, y bydd ymgynghori yn digwydd yn unol â'r rheoliadau ei hunain, a bydd y rheoliadau eu hunain gerbron y Cynulliad ym mis Mawrth. Felly, bydd cyfle i ystyried ym mha ffordd y gall y safonau gael eu cryfhau, o ystyried y sefyllfa y mae'r Aelod wedi sôn amdani.  
It have to say, of course, that consultation will take place in accordance with the regulations themselves, and the regulations themselves will be brought before the Assembly in March. Therefore, there will be an opportunity to consider in what way the standards can be strengthened, given the situation that the Member has raised.
- 13:51 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o sylwadau Ffederasiwn y Busnesau Bach ynglŷn ag a ddylai Comisiynydd y Gymraeg geisio defnyddio safon cymesuredd i sicrhau bod gorfodaeth yn berthnasol ac yn cyd-fynd ag anghenion busnesau bach yng Nghymru. A allwch ddweud wrthym a yw eich Llywodraeth yn cefnogi sylwadau Ffederasiwn y Busnesau Bach? Os felly, a fyddwch yn eu hyrwyddo yn eich ymateb i'r ymgynghoriad yr oeddech yn sôn amdano yn gynharach?  
First Minister, you will be aware of the comments made by the Federation of Small Businesses that the Welsh Language Commissioner should use the standards in a commensurate way to ensure that the standards accord with the needs of small businesses in Wales. Can you tell us whether your Government supports the FSB's comments? If so, will you be promoting them in your response to the consultation that you mentioned a few moments ago?
- 13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Wrth gwrs, rydym yn mo'yn sicrhau ein bod yn gwrandao ar farn pob un a phob corff sy'n gysylltiedig â hwn, ac rydym yn mo'yn sicrhau bod y safonau'n rhai sy'n cael cefnogaeth gref ac eang drwy Gymru yn gyfan gwbl. Felly, rwy'n edrych ymlaen at weld sylwadau'r FSB.  
Of course, we want to ensure that we listen to the views of each and every organisation associated with this, and we want to ensure that the standards are ones that receive strong support and broad support throughout Wales. Therefore, I look forward to seeing the comments of the FSB.
- 13:51 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
A ydych yn credu, Brif Weinidog, pan fydd y safonau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad, bedair blynedd i mewn i dymor y Llywodraeth hon, fod hynny'n dangos 'commitment' a gallu cynllunio bwriadus, effeithiol o safbwynt y Gymraeg?  
Do you believe, First Minister, that when these standards are brought to the Assembly, four years in to the term of this Government, that demonstrates commitment and an ability to plan efficiently and effectively in relation to the Welsh language?

13:52	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Beth sy'n bwysig yw ein bod yn sicrhau bod y rheolau hyn yn rhai sy'n cael eu cefnogi a hefyd yn rheolau sy'n ymarferol. Mae hynny'n meddwl, wrth gwrs, fod rhaid cael y Comisiynydd yn rhan o'r broses, a hefyd ymgynghori mewn ffordd iawn—ac, wrth gwrs, bod y rheolau'n dod yn ôl gerbron y Cynulliad. Er mwyn cael pethau'n iawn, mae pethau'n gallu hala tamaid bach mwy o amser.</p>	<p>What is important is that we ensure that these rules are ones that are supported and also that they are practical. That means, of course, that the Commissioner has to be a part of the process, and also to consult in the correct manner—and, of course, the regulations will be brought back to the Assembly. In order to get it right, things can sometimes take a little bit of time.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Diweithdra Ymysg Pobl Ifanc</b>		<b>Youth Unemployment</b>	
13:52	<p><b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru? OAQ(4)1857(FM)</i></p>	<p><i>5. Will the First Minister make a statement on youth unemployment in Wales? OAQ(4)1857(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. Our priority, of course, is to ensure that young people have an opportunity to develop fully in life. To achieve this, we have provided key employability programmes. We have mentioned Jobs Growth Wales already, of course, and we have introduced the youth engagement and progression framework.</p>	<p>Gwnaf. Ein blaenoriaeth, wrth gwrs, yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i ddatblygu'n llawn mewn bywyd. Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni wedi darparu rhaglenni cyflogadwyedd allweddol. Rydym ni wedi sôn am Twf Swyddi Cymru yn barod, wrth gwrs, ac rydym ni wedi cyflwyno'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:53	<p><b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer. Does the First Minister agree with me that the drop in youth unemployment in Wales is yet another example of the Welsh Government leading the way in the UK, with programmes like Jobs Growth Wales, and that the UK and Scottish Governments could do well to follow them?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi bod y gostyngiad mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn enghraifft arall o Lywodraeth Cymru yn arwain y ffordd yn y DU, gyda rhaglenni fel Twf Swyddi Cymru, ac y byddai'n talu'r ffordd i Lywodraethau'r DU a'r Alban eu dilyn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:53	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The Member will not be surprised if I say 'yes' as my answer. Again, I come back to the point that I made earlier on about the success of Jobs Growth Wales, namely the fact that we have seen a substantial drop in unemployment among young people in Wales, particularly those around 16 or 17 years old, where there is a substantial difference, to the better, between Wales and the rest of the UK. That shows that Jobs Growth Wales—not on its own, but working with the other schemes that we have put in place—is having a significant, positive effect on the prospects of young people.</p>	<p>Ni fydd yr Aelod yn synnu o fy nghlywed yn dweud 'ydw' fel fy ateb. Unwaith eto, rwy'n dod yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach am lwyddiant Twf Swyddi Cymru, sef y ffaith ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig y rhai sydd tua 16 neu 17 mlwydd oed, lle ceir gwahaniaeth sylweddol, er gwell, rhwng Cymru a gweddill y DU. Mae hynny'n dangos bod Twf Swyddi Cymru—nid ar ei ben ei hun, ond yn gweithio gyda'r cynlluniau eraill yr ydym ni wedi eu rhoi ar waith—yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ragolygon pobl ifanc.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:53	<p><b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Though we welcome the improvements in youth unemployment—it being reduced, First Minister—you will know that approximately 20% of young people have been out of work for more than a year, and that 10% of 16-year-olds are not in education, employment or training. Though we welcome the improvement, what will you now do to ensure that this is a really effective programme, which is so vital to the needs of Wales?</p>	<p>Er ein bod yn croesawu'r gwelliannau mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc—y ffaith ei fod wedi gostwng, Brif Weinidog—byddwch yn gwybod bod tua 20% o bobl ifanc wedi bod yn ddi-waith am fwy na blwyddyn, a bod 10% o bobl ifanc 16 mlwydd oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Er ein bod yn croesawu'r gwelliant, beth fyddwch chi'n ei wneud nawr i sicrhau bod hon yn rhaglen wirioneddol effeithiol, sydd mor hanfodol i anghenion Cymru?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
The youth engagement and progression framework, which was published in October last year, introduced the youth guarantee for Wales. We also have been funding higher-level apprenticeships, together with Jobs Growth Wales, and, of course, we see success, one example of which is the fact that the figure for NEETs dropped by two percentage points between 2011 and 2012, and we want to see that figure drop further in the future.  
Cyflwynodd y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid, a gyhoeddwyd ym mis Hydref y llynedd, y warant ieuencid i Gymru. Rydym hefyd wedi bod yn ariannu prentisiaethau lefel uwch, ynghyd â Twf Swyddi Cymru, ac, wrth gwrs, rydym ni'n gweld llwyddiant, ac un enghraifft o hynny yw'r ffaith fod y ffigur ar gyfer NEETau wedi gostwng dau bwynt canran rhwng 2011 a 2012, ac rydym ni eisiau gweld y ffigur hwnnw'n gostwng ymhellach yn y dyfodol.
- 13:54 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Brif Weinidog, o ystyried bod mwy nag un o bob pum person ifanc yng Nghymru yn ddi-waith, mae'n siŵr eich bod chi wedi gweld bod rhaglen eich Llywodraeth wedi cael ei gwerthuso'n annibynnol gan Ipsos MORI, gan ddangos eich bod yn gwario 73% o'r gyllideb ar swyddi sy'n bodoli yn barod. Pam ydych chi, fel Llywodraeth, yn torri'r rhaglenni prentisiaethau fel hyn pan ydym angen i fwy o bethau fel hyn ddiwyddo o fewn Llywodraeth Cymru?  
First Minister, given that more than one in five young people in Wales are unemployed, I am sure that you will have seen that your Government's programme has been independently evaluated by Ipsos MORI, showing that you spend 73% of the budget on jobs that exist already. Why are you, as a Government, actually cutting apprenticeship programmes such as these when we need to get more of these programmes in place and provided by the Welsh Government?
- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Fel y dywedais, mae'n rhaid sefyll i weld beth sydd yn y gyllideb. Fodd bynnag, ynglŷn â Jobs Growth Wales fel cynllun, rydym yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael swyddi nad oes ganddynt y sgiliau i'w cael. Dyna sy'n bwysig ei gofio hefyd. Efallai y byddant wedi cael swydd, ond nid y swydd sydd ganddynt o ganlyniad i'r cynllun. Felly, rhaid ystyried gwerth y sgiliau y maent wedi eu cael o achos y cynllun.  
As I said, we must wait and see what is in the budget. However, on Jobs Growth Wales as a scheme, we are giving the young people the opportunity to get jobs that they do not have the skills to get. That is important to bear in mind. They may have got a job, but not the job that they have had as a result of the scheme. Therefore, consideration should be given to the value of the skills that they have gained as a result of the scheme.
- 13:55 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
First Minister, my main criticism of Jobs Growth Wales has been that it does not assist young people in long-term unemployment. In fact, the scheme is not accessible to many of those young people due to double-funding issues with UK Government schemes. Similarly, the Lift programme announced this year is not available in many parts of Wales, including Wales's worst NEET hot spot: Bridgend. What progress has the Welsh Government made in discussions with the UK Government over these double-funding issues, and will you agree to review the provision of support to those young people in places like Wrexham, Bridgend and the Vale of Glamorgan, where long-term youth unemployment is a real problem, but neither Lift nor Jobs Growth Wales can assist?  
Brif Weinidog, fy mhrif feiriadaeth o Twf Swyddi Cymru fu nad yw'n cynorthwyo pobl ifanc mewn diweithdra hirdymor. A dweud y gwir, nid yw'r cynllun ar gael i lawer o'r bobl ifanc hynny oherwydd materion ariannu dwbl gyda chynlluniau Llywodraeth y DU. Yn yr un modd, nid yw'r rhaglen Lift a gyhoeddwyd eleni ar gael mewn sawl rhan o Gymru, gan gynnwys man gwaethaf Cymru ar gyfer NEET: Pen-y-bont ar Ogwr. Pa gynnydd mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y materion ariannu dwbl hyn, ac a wnewch chi gytuno i adolygu'r ddarpariaeth o gymorth i'r bobl ifanc hynny mewn lleoedd fel Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg, lle mae diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc yn broblem wirioneddol, ond ni all Lift na Twf Swyddi Cymru fod o gymorth?
- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I do not accept that Jobs Growth Wales does not help them. It is aimed at them, in the first place. I remind the Member that one of the first actions of her party in London was to cut the Future Jobs fund, which was exceptionally important to so many young people. Jobs Growth Wales was created, in part, as a response to the cut that was made. I have to say that I do not see that there is, in Whitehall, an equivalent scheme that is anything like as successful in offering opportunities to young people. It is a scheme that we are very proud of and that the people of Wales are very proud of.  
Nid wyf yn derbyn nad yw Twf Swyddi Cymru yn eu helpu. Ar eu cyfer nhw y mae'n bodoli, yn y lle cyntaf. Atgoffaf yr Aelod mai un o gamau cyntaf ei phlaid yn Llundain oedd torri'r gronfa Swyddi'r Dyfodol, a oedd yn eithriadol o bwysig i gymaint o bobl ifanc. Crëwyd Twf Swyddi Cymru, yn rhannol, mewn ymateb i'r toriad a wnaethpwyd. Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn gweld bod cynllun cyfatebol yn Whitehall, sy'n agos at fod mor llwyddiannus o ran cynnig cyfleoedd i bobl ifanc. Mae'n gynllun yr ydym ni'n falch iawn ohono, ac mae pobl Cymru'n falch iawn ohono.

13:56 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, Jobs Growth Wales has been particularly successful within the Caerphilly borough, creating over 1,000 jobs, with 90% of them filled, and it is the most successful area in the whole of Wales. Will you join me, First Minister, in congratulating the Labour-controlled Caerphilly County Borough Council, which has run in collaboration with that scheme the Passport Programme, which is a European-funded scheme that has delivered an additional 176 work placements?

Brif Weinidog, mae Twf Swyddi Cymru wedi bod yn arbennig o lwyddiannus ym mwrdeistref Caerffili, gan greu dros 1,000 o swyddi, gyda 90% ohonynt wedi eu llenwi, a dyma'r ardal fwyaf llwyddiannus yng Nghymru gyfan. A wnewch chi ymuno â mi, Brif Weinidog, i longyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a reolir gan Lafur, sydd wedi rhedeg ar y cyd â'r cynllun hwnnw y Rhaglen Pasbort, sy'n gynllun a ariennir gan Ewrop sydd wedi darparu 176 o leoliadau gwaith ychwanegol?

13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, absolutely. I would certainly offer my congratulations to Caerphilly council. It is one example of local government working together with us in order to provide opportunities for young people.

Gwnaf, yn sicr. Rwyf yn bendant yn cynnig fy llongyfarchiadau i Gyngor Caerffili. Mae'n un enghraifft o lywodraeth leol yn gweithio gyda ni er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc.

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Question sick—six, Nick Dram—Nick Ramsey. Sorry, six, Nick Ramsay.

Cwestiwn sâl—chwech, Nick Dram—Nick Ramsey. Mae'n ddrwg gennyf, chwech, Nick Ramsay.

## Triniaeth Cancer

## Cancer Treatment

13:57 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd triniaeth cancer yng Nghymru? OAQ(4)1853(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the availability of cancer treatment in Wales? OAQ(4)1853(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are proud to have a system in which patients get access to proven and effective treatments, and of the fact that cancer waiting times for treatment are better in Wales than in England.

Rydym yn falch o fod â system lle mae cleifion yn cael mynediad at driniaethau profedig ac effeithiol, ac o'r ffaith bod amseroedd aros am driniaeth cancer yn well yng Nghymru nag yn Lloegr.

13:57 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I am glad that it is not just me who stumbles over my words, Presiding Officer.

FM, patients in England are seven times more likely to gain access to cancer drugs than patients in Wales. The UK Government spends £200 million per year on a cancer drugs fund, but here, as you know, we do not have one. There is currently a petition winging its way to the Welsh Government with tens of thousands of signatures on it calling for a cancer treatment fund in Wales. When will your Government reconsider its current position and give cancer sufferers in Wales the treatment that they need and deserve?

Rwy'n falch mai nad dim ond fi sy'n baglu dros fy ngeiriau, Lywydd.

Brif Weinidog, mae cleifion yn Lloegr saith gwaith yn fwy tebygol o gael mynediad at gyffuriau cancer na chleifion yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU yn gwario £200 miliwn y flwyddyn ar gronfa cyffuriau cancer, ond yma, fel y gwyddoch, nid oes gennym hynny. Mae deiseb ar ei ffordd i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd gyda degau o filoedd o lofnodion arni yn galw am gronfa triniaeth cancer yng Nghymru. Pryd wnaiff eich Llywodraeth ailystyried ei safbwynt presennol a rhoi'r driniaeth i'r rhai sy'n dioddef o ganser yng Nghymru y maen nhw ei hangen ac yn ei haeddu?

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are cancer drugs available in Wales that are not available in England. Shall we see a petition, then, organised by his party complaining about that? I wonder what the petition actually says. For example, does it say that people want to see a particular fund for cancer drugs funded by taking money away from other drugs, which is the way it has been done in England? However, I suppose that these things are not made clear to people—of course, they would not be.

However, the Member does not have to listen to me, he could listen to the King's Fund, which questioned the cancer drugs fund, or the 'British Medical Journal', which questions the cancer drugs fund in terms of what it delivers. The point that the 'British Medical Journal' makes—and it is a point that you might be interested in—is that, in years gone by, when pharmaceutical companies went to the National Institute for Health and Care Excellence and asked for approval for a drug and were refused, they went back to NICE and offered the drug at a lower price. Now they do not do that. They go to the cancer drugs fund and are paid whatever they ask for a particular drug. Therefore, in fact, what the cancer drugs fund is doing is paying pharmaceutical companies over the odds for drugs that, in the past, would have cost the NHS a lot less. Therefore, the taxpayer is paying more for drugs under the cancer drugs fund than would normally have been the case. It is financial ill-discipline. It is important, of course, that there is a system in place for ensuring that people have access to drugs where their circumstances dictate that, and that is why we have the individual patient funding requests process, in order to do that. However, simply throwing money at pharmaceutical companies, which is what the cancer drugs fund does, is not the way forward for Wales.

Mae cyffuriau canser ar gael yng Nghymru nad ydynt ar gael yn Lloegr. A fyddwn ni'n gweld deiseb, felly, wedi ei threfnu gan ei blaid ef yn cwyno am hynny? Tybed beth mae'r ddeiseb yn ei ddweud mewn gwirionedd. Er enghraifft, a yw'n dweud bod pobl eisiau gweld cronfa benodol ar gyfer cyffuriau canser a ariennir trwy gymryd arian oddi wrth gyffuriau eraill, sef yr hyn a wnaethpwyd yn Lloegr? Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw'r pethau hyn yn cael eu gwneud yn eglur i bobl—ni fyddent, wrth gwrs.

Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i'r Aelod wrando arnaf fi, gallai wrando ar Gronfa'r Brenin, a gwestiynodd y gronfa cyffuriau canser, neu'r 'British Medical Journal', sy'n cwestiynu'r gronfa cyffuriau canser o ran yr hyn y mae'n ei chyflawni. Y pwynt y mae'r 'British Medical Journal' yn ei wneud—ac mae'n bwynt y gallai fod gennych ddi-ddordeb ynddo—yw, yn y gorffennol, pan roedd cwmnïau fferyllol yn mynd at y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ac yn gofyn am gymeradwyaeth i gyffur ac yn cael eu gwrthod, roeddent yn mynd yn ôl at NICE ac yn cynnig y cyffur am bris is. Nid ydynt yn gwneud hynny erbyn hyn. Maen nhw'n mynd at y gronfa cyffuriau canser ac yn cael pa bynnag dâl maen nhw'n gofyn amdano am gyffur penodol. Felly, mewn gwirionedd, yr hyn y mae'r gronfa cyffuriau canser yn ei wneud yw talu mwy na'r gwerth i gwmnïau fferyllol am gyffuriau a fyddai, yn y gorffennol, wedi costio llawer llai i'r GIG. Felly, mae'r trethdalwr yn talu mwy am gyffuriau dan y gronfa cyffuriau canser na fyddai wedi bod yn wir fel arfer. Ddisgyblaeth ariannol wael yw hyn. Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod system ar waith i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar gyffuriau pan fo eu hamgylchiadau'n gofyn am hynny, a dyna pam mae'r broses ceisiadau cyllid cleifion unigol gennym, er mwyn gwneud hynny. Fodd bynnag, nid taflu arian at gwmnïau fferyllol, sef yr hyn y mae'r gronfa cyffuriau canser yn ei wneud, yw'r ffordd ymlaen i Gymru.

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, yesterday I met with the chair of Hywel Dda Local Health Board to discuss cancer services at Withybush General Hospital. Her message was clear: yes, there are recruitment problems but services have not and will not be affected, and patients will receive the same specialist care that they needed before this crisis arose. Hywel Dda is working with Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board to improve oncology recruitment. First Minister, can you assure me and the people of Pembrokeshire that the Welsh Government will monitor the process to appoint a full-time palliative care consultant, and can you confirm that plans for a new chemotherapy day unit at Withybush hospital are progressing?

Brif Weinidog, cefais gyfarfod ddoe gyda chadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i drafod gwasanaethau canser yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Roedd ei neges yn eglur: oes, mae problemau recriwtio ond ni effeithiwyd ar wasanaethau ac ni fydd hynny'n digwydd, a bydd cleifion yn derbyn yr un gofal arbenigol yr oedd ei angen arnynt cyn i'r argyfwng hwn godi. Mae Hywel Dda yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i wella recriwtio oncoleg. Brif Weinidog, a allwch chi fy sicrhau i a phobl Sir Benfro y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses i benodi ymgynghorydd gofal lliniarol llawn amser, ac a allwch chi gadarnhau bod cynlluniau ar gyfer uned ddydd cemotherapi newydd yn Ysbyty Llwynhelyg yn mynd rhagddynt?

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister for Health and Social Services will raise the issue with the chair of Hywel Dda, and officials will continue to monitor the appointment of a replacement consultant oncologist and palliative care consultant. I can say to the Member that the plans for the new chemotherapy day unit are not affected.

Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi'r mater gyda chadeirydd Hywel Dda, a bydd swyddogion yn parhau i fonitro penodiad oncolegydd ymgynghorol ac ymgynghorydd gofal lliniarol newydd. Gallaf ddweud wrth yr Aelod nad effeithiwyd ar y cynlluniau ar gyfer yr uned ddydd cemotherapi newydd.

14:01	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, what is being done to improve on the five-year lung cancer survival rates in Wales, which is, apart from Bulgaria, the worst survival rate in the whole of Europe?</p>	<p>Brif Weinidog, beth sy'n cael ei wneud i wella'r cyfraddau goroesi pum mlynedd o ran canser yr ysgyfaint yng Nghymru, sef, ar wahân i Fwlgaria, y gyfradd oroesi waethaf yn Ewrop gyfan?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:01	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Lung cancer is a particularly difficult disease to treat. We know that in some areas of cancer we are world leaders in terms of survival rates. Much of it depends on the underlying health of the individual. Much of it depends on GPs referring early, which I believe they are doing now. Certainly, there is much more referral by GPs of suspected cancers. Fortunately for most people, it turns out that it is not cancer, but, nevertheless, with lung cancer, early diagnosis is absolutely key. I know that GPs are very keen—and we have encouraged them—to refer early in order to give people a better chance at least of survival beyond one year, and hopefully survival beyond five.</p>	<p>Mae canser yr ysgyfaint yn glefyd arbennig o anodd ei drin. Rydym yn gwybod ein bod yn arwain y byd o ran cyfraddau goroesi mewn rhai mathau o ganser. Mae llawer yn dibynnu ar iechyd sylfaenol yr unigolyn. Mae llawer yn dibynnu ar feddygon teulu yn atgyfeirio'n gynnar, yr wyf yn credu eu bod yn ei wneud bellach. Yn sicr, ceir llawer mwy o atgyfeirio o ran canserau a amheuir gan feddygon teulu. Yn ffodus i'r rhan fwyaf o bobl, daw'n amlwg mai nad oes canser arnynt, ond, serch hynny, o ran canser yr ysgyfaint, mae diagnosis cynnar yn gwbl allweddol. Gwn fod meddygon teulu yn awyddus iawn—ac rydym ni wedi eu hannog—i atgyfeirio'n gynnar er mwyn rhoi gwell cyfle i bobl oroesi y tu draw i flwyddyn o leiaf, a goroesi mwy na phum mlynedd gobeithio.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:02	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, SIR-Spheres radiotherapy and peritoneal metastases cytoreduction are clinically proven radiotherapy and surgical techniques for which we have the clinicians in Wales to carry out those particular interventions. However, to date, the Government has decided not to offer those treatments in Wales. In June, I asked you this question. You said that you would get the Minister for health to reply to me. I am still waiting for that response. Could you give a definitive answer here today about the Welsh Government's commitment to provide SIR-Spheres radiotherapy and peritoneal cytoreduction for Welsh patients in Welsh hospitals?</p>	<p>Brif Weinidog, mae radiotherapi SIR-Spheres a cytoreidhad metagyflyrau peritoneol yn dechnegau radiotherapi a llawfeddygol a brofwyd yn glinigol, ac mae'r clinigwyr gennym yng Nghymru i gyflawni'r ymyraethau penodol hynny. Fodd bynnag, hyd yn hyn, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â chynnig y triniaethau hynny yng Nghymru. Gofynnais y cwestiwn hwn i chi ym mis Mehefin. Dywedasoch y byddech yn gofyn i'r Gweinidog iechyd fy ateb i. Rwy'n dal i aros am yr ateb hwnnw. A allech roi ateb pendant yma heddiw am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu radiotherapi SIR-Spheres a cytoreidhad peritoneol ar gyfer cleifion o Gymru yn ysbtyai Cymru?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:02	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>If a response has not been received, I will rectify that; the Minister has heard today, and I will make sure that the response is provided as soon as possible.</p>	<p>Os nad oes ateb wedi ei dderbyn, byddaf yn unioni hynny; mae'r Gweinidog wedi clywed heddiw, a byddaf yn gwneud yn siŵr bod yr ateb yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Band Eang yn y Gogledd</b>		<b>Broadband in North Wales</b>	
14:02	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y broses o gyflwyno band eang yng ngogledd Cymru?</i> OAQ(4)1863(FM)</p>	<p><i>7. Will the First Minister make a statement on the roll-out of broadband provision in north Wales?</i> OAQ(4)1863(FM)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Good progress is being made with the roll-out of superfast broadband. Some exchanges have already been enabled with fast fibre broadband and other exchanges are planned for roll out later this year and early next year.</p>	<p>Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran cyflwyno band eang cyflym iawn. Mae rhai cyfnewidfydd eisoes wedi eu galluogi gyda band eang ffibr cyflym a bwriedir ei gyflwyno mewn cyfnewidfydd eraill yn ddiweddarach eleni a dechrau'r flwyddyn nesaf.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:03

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. However, as regards the superfast broadband roll-out and the significant investment therein, many constituents are requesting more information than is currently available, as to how, where and when they will be able to receive the service. Although more properties now access superfast broadband, take-up in Wales, percentage wise, is lower than it is in England. It appears that little has been done as regards the marketing and exploitation of the services forthcoming and available now. BT maintains that it has had no funding whatsoever for this. What steps is your Government taking to ensure that awareness is raised regarding the availability of this service across Wales, and have you set a budget aside to do this?

Diolch. Fodd bynnag, o ran cyflwyno band eang cyflym iawn a'r buddsoddiad sylweddol sy'n gysylltiedig â hynny, mae llawer o etholwyr yn gofyn am fwy o wybodaeth nag sydd ar gael ar hyn o bryd, o ran sut, ble a phryd y byddant yn gallu derbyn y gwasanaeth. Er bod mwy o safleoedd yn gallu defnyddio band eang cyflym iawn erbyn hyn, mae'r nifer sy'n manteisio arno yng Nghymru, o ran canran, yn is nag y mae yn Lloegr. Mae'n ymddangos nad oes llawer wedi ei wneud o ran marchnata a manteisio ar y gwasanaethau sydd ar y gweill ac sydd ar gael nawr. Mae BT yn honni nad yw wedi cael unrhyw gyllid o gwbl ar gyfer hyn. Pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau codi ymwybyddiaeth o ran faint o'r gwasanaeth hwn sydd ar gael ledled Cymru, ac a ydych chi wedi neilltuo cyllideb i wneud hyn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is surely within BT's interest to do that itself. It is a partner in terms of the roll-out. Nearly 234,000 premises across Wales have now been given access to fast fibre broadband. I am not surprised that people are not using fast fibre broadband as they should, probably because they do not have access to it yet. I am sure that that will change as a result of Superfast Cymru. Let us remember that the market would never have delivered this. This is a Welsh Government initiative to ensure that many premises and settlements across Wales are getting access to superfast broadband in a way that would not otherwise be possible. This is an investment in Wales's infrastructure, and one that we are proud of.

Does bosib ei bod o fudd i BT wneud hynny ei hunan. Mae'n bartner o ran y cyflwyno. Mae bron i 234,000 o safleoedd ledled Cymru wedi cael mynediad at fand eang ffibr cyflym erbyn hyn. Nid wyf yn synnu nad yw pobl yn defnyddio band eang ffibr cyflym fel y dylent, gan nad oes ganddynt fynediad ato hyd yma yn ôl pob tebyg. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n newid o ganlyniad i Cyflymu Cymru. Gadewch i ni gofio na fyddai'r farchnad erioed wedi cyflwyno hyn. Menter gan Lywodraeth Cymru yw hon i sicrhau bod llawer o safleoedd ac aneddiadau ar draws Cymru yn cael mynediad at fand eang cyflym iawn mewn ffordd na fyddai'n bosibl fel arall. Mae hwn yn fuddsoddiad yn seilwaith Cymru, ac yn un yr ydym ni'n falch ohono.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn ôl adroddiad diweddar gan Gyngor ar Bopeth, yn Ynys Môn mae'r ganran uchaf o bobl sydd ddim wedi defnyddio'r we o gwbl. Mae'r ffigur hwnnw yn 30% bron. Tra fy mod, wrth gwrs, yn edrych ymlaen at weld cyswllt gwe cyflym ar draws Cymru, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod angen blaenoriaethu ardaloedd fel Ynys Môn a sicrhau bod gan bawb fynediad at y we, achos, wrth gwrs, y difreintiedig yn aml iawn sydd ar eu colled fwyaf o fethu â mynd ar-lein?

According to a recent report by Citizens Advice, Anglesey has the highest percentage of people who have not used the internet at all. That figure is almost 30%. While I look forward to seeing superfast broadband available across the whole of Wales, does the First Minister agree that we need to prioritise areas such as Anglesey and ensure that everyone has access to the internet because it is the disadvantaged who very often lose out most by not being able to access the web?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n anodd iawn dweud hynny, wrth gwrs. Byddai bron bob Aelod yn y lle hwn yn dweud taw ei ardal ef neu hi ddylai gael blaenoriaeth. Yr hyn sy'n bwysig yw bod hyn yn digwydd ac yn digwydd yn gyflym er mwyn sicrhau, wrth gwrs, fod pobl Ynys Môn yn gallu cael mynediad i fand eang. O ran unigolion, bydd manylion ar gael, gan gynnwys manylion am ba un a fydd grant ar gael, neu a fydd yn rhaid iddynt sefyll i'r 'fibres' ddod i'w hardaloedd nhw. Mae'n rhaid inni gofio y byddwn ni, ymhen blwyddyn a hanner, mewn sefyllfa lle bydd gan ganran uchel iawn—dros 90%—o bobl Cymru fynediad i fand eang. Ni fyddai hynny byth wedi digwydd petai'r farchnad wedi gwneud hyn ei hun.

It is very difficult, of course, to say that. Every Member in this place would say that their area is the one that should have priority. What is important is that this happens and happens quickly to ensure, of course, that the people of Anglesey have access to broadband. If I may just say, in terms of individuals, there will be details available for them and they will also receive details on whether there is a grant available for them or whether they have to wait for the fibres to reach their areas. However, we have to remember that, in a year and a half, we will be in a situation where a high percentage—over 90%—of the people of Wales will have access to broadband. That would not have happened if the market had done it itself.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Ysbytai Cymunedol**

**Community Hospitals**



- 14:06 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ysbytai cymuned yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1858(FM)*
8. Will the First Minister make a statement on community hospitals in north Wales? OAQ(4)1858(FM)
- 
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Rydym yn disgwyl i bawb ledled Cymru gael yr un cyfle i dderbyn gofal o'r ansawdd uchaf sydd wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion unigolion a hynny cyn agosod â phosibl i'w cartref.
- Our expectation is that people across Wales have equity of access to high-quality care, designed to meet their individual needs as close to home as possible.
- 
- 14:06 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr am yr ateb. Byddwch yn gwybod, rwyf yn siŵr, y bydd trigolion tref y Fflint ddydd Iau yn pleidleisio mewn refferendwm lleol dros neu yn erbyn ysbyty cymunedol. Fe gofwich, rwyf yn siŵr, i'r ysbyty yno gau rhyw 18 mis yn ôl a bod hynny wedi profi i fod yn amhoblogaidd iawn yn lleol ac, yn ôl nifer o drigolion lleol, wedi arwain at ddirywiad mewn gwasanaeth. A gaf i ofyn ichi, Brif Weinidog, i barchu canlyniad y refferendwm ac, os bydd pleidlais o blaid yr ysbyty, i annog y bwrdd iechyd lleol i ystyried y penderfyniad o ddifrif?
- Thank you for that response. I am sure that you will know that, on Thursday, the people of Flint will vote in a local referendum for or against a community hospital. I am sure that you will also recall that the hospital there closed some 18 months ago. That decision proved to be very unpopular locally and, according to many local people, there has been a decline in services locally. May I ask you, First Minister, to respect the outcome of that referendum and, if there is a vote in favour of a hospital, to encourage the local health board to consider that decision seriously?
- 
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Ni allwn ni ailagor hyn. A gaf i ddweud nad yw'r penderfyniad wedi cael ei roi i Weinidogion Cymru gan y cyngor iechyd cymuned? Felly, nid oes rôl yn awr i Weinidogion Cymru. Dewis y cyngor oedd hynny. A gaf i ddweud un peth arall? Rwy'n deall bod pobl wastad yn ei chael hi'n anodd dros ben wrth weld rhywbeth yn cau ar ôl iddynt fod yn gyfarwydd ag ef dros y blynyddoedd. Rwy wedi gweld hyn yn fy etholaeth i. Yr hyn sy'n digwydd yw nad yw neb, ar ôl iddynt weld yr adnoddau sydd ar gael, am fynd yn ôl i'r hen system. Felly, byddwn yn dweud wrth drigolion y Fflint fy mod yn gwybod bod cynlluniau yno i sicrhau bod adnoddau newydd sbon i bobl Fflint—adnoddau a fydd yn galluogi pobl i aros yn y tŷ a chael gofal yn y tŷ yn hytrach na mynd i mewn i ysbyty. Byddwn i'n dweud bod yn rhaid ystyried beth arall fydd ar gael. Mae profiad yn dangos, lle mae rhywbeth newydd ar gael—mae Llanfair ym Muallt yn enghraifft, oherwydd roedd ymgyrch gadarn yn erbyn cau'r ysbyty lleol ond, yn awr, mae canolfan hollol newydd sy'n boblogaidd yn y gymuned—fod angen i bobl roi cyfle i gynlluniau a fydd yn cael eu symud ymlaen yn yr ardal. O ran yr hyn y gall Gweinidogion Cymru ei wneud, nid yw'r cyngor iechyd cymuned wedi rhoi'r mater i Weinidogion Cymru i'w ailystyried.
- We cannot reopen this. May I just say that the decision itself has not been given to Welsh Ministers by the community health council? Of course, there is no role now for Welsh Ministers. This was its choice. May I just say one thing? I understand that people always find it extremely difficult when they see something closing, when they have been used to it over the years. I have seen it in my own constituency. However, what happens, of course, is that, when they see the new resources that are available, nobody wants to go back to the old system. So, what I would tell the people of Flint is that I know that there are plans there to ensure that new resources are available to the people of Flint—resources that will enable people to remain at home and to have care there instead of going into hospital. I would say that you have to consider what else will be available. Experience shows that, when something new becomes available—Builth Wells is an example of this, where there was a very strong campaign against closing the local hospital and now there is a brand-new centre that is very popular in the community—people need to give plans to move things forward in an area a chance. However, in terms of what Welsh Ministers can do, the community health council, of course, has not given this to Welsh Ministers to reconsider.

14:08

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, First Minister, the figures that your Government published last week highlighted the problem of bedblocking in the Welsh NHS. Of course, that is a direct consequence of the closure of community hospitals. The Welsh average saw 63% of patients waiting to leave hospital delayed by three weeks. When we are seeing delays like this in getting people out of hospital and particularly out into community hospitals so that they are not causing problems in the district general hospitals, surely you should pay attention to referenda like that happening in relation to the Flint community hospital. Otherwise, how do you plan to deal with those delayed releases of care?

Wel, Brif Weinidog, amlygodd y ffigurau a gyhoeddwyd gan eich Llywodraeth yr wythnos diwethaf y broblem o flocio gwelyau yn y GIG yng Nghymru. Wrth gwrs, mae hynny'n deillio'n uniongyrchol o gau ysbytai cymunedol. O ran cyfartaledd Cymru, cafodd 63% o gleifion a oedd yn aros i adael yr ysbyty oediad o dair wythnos. Pan rydym ni'n gweld oedi fel hyn o ran cael pobl allan o'r ysbyty ac yn enwedig allan i ysbytai cymunedol fel nad ydynt yn achosi problemau yn yr ysbytai cyffredinol dosbarth, does bosib y dylech chi gymryd sylw o refferenda fel yr un sy'n cael ei gynnal yng nghyswllt ysbyty cymunedol y Fflint. Fel arall, sut ydych chi'n bwriadu ymdrin â'r achosion hynny o oedi wrth ryddhau o ofal?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, the Member gives the impression that delayed transfers of care have increased. They have not increased. They have gone down in reality. In fact, the number of delays in July of this year is 10% lower than the figure in August of last year. So, her entire argument goes flying out the window; the premise of her argument is already destroyed. I do not want people to be discharged from general hospitals into other hospitals. I want people to go home. That is the whole point. I want to make sure that there are opportunities for people to get the enhanced care they need so that they can go home and not sit in hospitals for weeks upon weeks upon weeks rather than going home. I do not accept her premise that what we should do is to move people out of a DGH into a community hospital and forget about them. I am not prepared to do that and I know that the Minister is not prepared to do that either. I want to see people back home and we need to see modern facilities in communities across Wales that enable people to go home as quickly as possible. That is exactly what we will do as a Government. We have demonstrated that across the whole of Wales.

Yn gyntaf oll, mae'r Aelod yn rhoi'r argraff bod achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cynyddu. Nid ydynt wedi cynyddu. Maen nhw wedi gostwng mewn gwirionedd. Yn wir, mae nifer yr achosion o oedi ym mis Gorffennaf eleni 10% yn is na'r ffigur ym mis Awst y llynedd. Felly, mae ei dadl gyfan yn mynd allan drwy'r ffenest; mae cynsail ei dadl wedi ei ddinistrio eisoes. Nid wyf eisiau i bobl gael eu rhyddhau o ysbytai cyffredinol i ysbytai eraill. Rwyf eisiau i bobl fynd adref. Dyna'r holl bwynt. Rwyf eisiau sicrhau bod cyfleoedd i bobl gael y gofal gwell sydd ei angen arnynt fel y gallant fynd adref a pheidio ag eistedd mewn ysbytai am wythnosau ac wythnosau ac wythnosau yn hytrach na mynd adref. Nid wyf yn derbyn ei rhagdybiaeth mai'r hyn y dylem ni ei wneud yw symud pobl allan o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth i ysbytai cymunedol ac anghofio amdany'n nhw. Nid wyf yn fodlon gwneud hynny ac rwy'n gwybod nad yw'r Gweinidog yn fodlon gwneud hynny ychwaith. Rwyf eisiau gweld pobl yn ôl adref ac mae angen i ni weld cyfleusterau modern mewn cymunedau ledled Cymru sy'n galluogi pobl i fynd adref cyn gynted â phosibl. Dyna'n union yr hyn y byddwn ni'n ei wneud fel Llywodraeth. Rydym ni wedi dangos hynny ar draws Cymru gyfan.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I think the problem you have is a lack of trust as far as north Wales residents are concerned because, time after time, those new facilities have not been opened. We have lost 50 community beds over the last 18 months. We have also lost 370 beds during the last four years from our district general hospitals. So, the real issue is that we are faced not only with no new facilities being opened to replace the beds that have been taken out of the system, but with a situation where care provision within the sector is also being blocked by local authorities due to the cuts in local authority social services budgets.

Brif Weinidog, rwy'n meddwl mai'r broblem sydd gennych chi yw diffyg ymddiriedaeth cyn belled ag y mae trigolion gogledd Cymru yn y cwestiwn oherwydd, dro ar ôl tro, nid yw'r cyfleusterau newydd hynny wedi cael eu hagog. Rydym ni wedi colli 50 o welyau cymunedol dros y 18 mis diwethaf. Rydym ni hefyd wedi colli 370 o welyau yn ystod y pedair blynedd diwethaf o'n hysbytai cyffredinol dosbarth. Felly, y gwir amdani yw ein bod yn wynebu nid yn unig y ffaith nad oes unrhyw gyfleusterau newydd yn cael eu hagog yn lle'r gwelyau sydd wedi eu cymryd allan o'r system, ond hefyd sefyllfa lle mae'r ddarpariaeth o ofal o fewn y sector yn cael ei rwystro gan awdurdodau lleol oherwydd y toriadau i gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

May I say, in relation to the Flint issue that has been raised, there are proposals, of course, for a joint health and housing scheme—a new primary care resource centre in the town that will provide an integrated health centre with extra-care provision? I cannot see why people would be against that. I can give an example in my own constituency of a care home that closed in Kenfig Hill; people were up in arms about it. It was an old building, in which people were sharing rooms and sharing bathrooms, but people were very attached to the building. We accepted that. Now, there is an extra-care facility there and nobody wants to go back to the old system. So, the point I would make is that where you have new individual facilities—Builth Wells is the example that I gave and I went there and opened it—and when people who are very much against a change in provision see the new provision and the new resources, they will often change their minds. My message would be that I understand that people are very attached to hospitals, particularly hospitals that have been there for many, many years, but there comes a time when we have to move to a system that is better for patients and enables more people to be looked after at home, which I am sure is what we all want to see.

## Diwygio Llywodraeth Leol

14:11

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddiwygio llywodraeth leol? OAQ(4)1864(FM)*

14:11

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar hwn yr wythnos diwethaf.

14:12

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn cytuno, os ydym yn mynd i gael datrysiaid cynaliadwy i sut i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fod yn rhaid edrych ar wasanaethau cyhoeddus yn eu cyfanrwydd. Pam, felly, y gwnaethoch chi atal comisiwn Williams rhag edrych ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru yn yr adroddiad a baratowyd ar eich cyfer chi fel Llywodraeth?

14:12

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid yw hynny'n wir. Yr hyn a ddywedais i wrth gomisiwn Williams oedd nad ydym yn mo'yn ailystyried ffiniau'r byrddau iechyd am iddynt gael eu hailystyried yn weddol ddiweddar, er mwyn peidio ailedrych ar yr un peth eto cwpwl o flynyddoedd ar ôl ei wneud y tro diwethaf. Roedd cyfle i gomisiwn Williams ystyried popeth arall. Mae'n rhaid inni gofio bod comisiwn Williams wedi ystyried pob rhan o'r sector cyhoeddus ac nid dim ond llywodraeth leol, ond dyna le mae'r pwyslais wedi bod.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

A gaf i ddweud, o ran mater yn ymwneud â'r Fflint a godwyd, bod cynigion, wrth gwrs, ar gyfer cynllun iechyd a thai ar y cyd—canolfan adnoddau gofal sylfaenol newydd yn y dref a fydd yn darparu canolfan iechyd integredig â darpariaeth gofal ychwanegol? Ni allaf weld pam y byddai pobl yn erbyn hynny. Gallaf roi enghraifft yn fy etholaeth fy hun o gartref gofal a gaeodd ym Mynydd Cynffig; roedd pobl wedi eu cythruddo ynglŷn â hynny. Roedd yn hen adeilad, lle'r oedd pobl yn rhannu ystafelloedd ac yn rhannu ystafelloedd ymolchi, ond roedd gan bobl ymlyniad cryf iawn i'r adeilad. Derbyniwyd hynny gennym. Erbyn hyn, mae cyfleuster gofal ychwanegol yno ac nid oes unrhyw un eisiau mynd yn ôl i'r hen system. Felly, y pwynt y byddwn i'n ei wneud yw lle mae gennych chi gyfleusterau unigol newydd—Llanfair-ym-Muallt yw'r enghraifft a roddais ac fe es i yno i'w agor—a phan fydd pobl sy'n gwrthwynebu newid i'r ddarpariaeth yn fawr iawn yn gweld y ddarpariaeth newydd a'r adnoddau newydd, byddant yn aml yn newid eu meddyliau. Fy neges i fyddai fy mod i'n deall bod pobl yn datblygu ymlyniad i ysbytai, yn enwedig ysbytai sydd wedi bod yno ers blynyddoedd maith, ond daw amser pan fydd yn rhaid i ni symud i system sy'n well i gleifion ac sy'n galluogi mwy o bobl i dderbyn gofal yn y cartref, sydd yn rhywbeth yr hoffai bob un ohonom ei weld rwy'n siŵr.

## Local Government Reform

*9. Will the First Minister make a statement on local government reform? OAQ(4)1864(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister made a statement on this last week.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am sure that the First Minister would agree that if we are to have a sustainable solution to how to deliver public services in Wales, we must look at public services in their entirety. Why, therefore, did you prevent the Williams commission from looking at the health service and other public services in Wales in the report prepared for you as a Government?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That was not the case. What I said to the Williams commission was that we did not want to reconsider the health board boundaries as they were reconsidered fairly recently and, therefore, to not revisit it again just a few years after having done it. The Williams commission had the opportunity to consider everything else. We must bear in mind that the Williams commission considered all parts of the public sector and not just local government, although that is where the emphasis has been.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:12 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Following the Williams recommendations, we are now seeing some authorities taking forward the initiative to look at the prospect of merging with a neighbouring authority, but all of this, of course, takes time and will have serious implications in terms of our already stretched resources, signalling much change and doubt for many elected members but, more importantly, for our staff. What dialogue has taken place between the Welsh Government and your officials with the authorities already mentioned? How have you factored in the actual cost of reorganisation to the authorities as well as the cost to the Welsh Government of any financial incentives promised?

Yn dilyn argymhellion Williams, rydym ni'n gweld rhai awdurdodau'n bwrw ymlaen â'r fenter i ystyried y posibilrwydd o uno ag awdurdod cyfagos erbyn hyn, ond mae hyn i gyd, wrth gwrs, yn cymryd amser a bydd yn arwain at oblygiadau difrifol o ran ein hadnoddau sydd eisoes dan bwysau, gan olygu llawer o newid ac amheuaeth i lawer o aelodau etholedig, ond, yn bwysicach, i'n haelodau staff. Pa ddeialog sydd wedi ei gynnal rhwng Llywodraeth Cymru a'ch swyddogion gyda'r awdurdodau a grybwyllwyd eisoes? Sut ydych chi wedi cyfrif y gost wirioneddol o ad-drefnu i'r awdurdodau, yn ogystal â' gost i Lywodraeth Cymru o unrhyw gymhellion ariannol a addawyd?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister met, I believe, with WLGA leaders last Friday. A prospectus inviting local authorities to submit proposals for voluntary mergers has been issued and expressions of interest are requested by 28 November. That prospectus contains a clear commitment to support local authorities that take part in early mergers.

Cyfarfu'r Gweinidog, rwy'n credu, gydag arweinwyr CLILC ddydd Gwener diwethaf. Cyhoeddwyd prospectws yn gwahodd awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol a gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb erbyn 28 Tachwedd. Mae'r prospectws hwnnw'n cynnwys ymrwymiad eglur i gefnogi awdurdodau lleol sy'n rhan o uno cynnar.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, when your Minister made the statement last week, he outlined the process by which voluntary mergers could take place, which included a proper business case being put forward and transitional funding to assist those local authorities. When you come to do the mandatory mergers through legislation, will they also have transitional funding and will a business case also have to be put together for those mergers?

Brif Weinidog, pan wnaeth eich Gweinidog y datganiad yr wythnos diwethaf, amlinellodd y broses y gellid ei defnyddio ar gyfer uno gwirfoddol, a oedd yn cynnwys cyflwyno achos busnes priodol ac arian pontio i helpu'r awdurdodau lleol hynny. Pan fyddwch yn dod i'r uno gorfodol trwy ddeddfwriaeth, a fyddant hwythau hefyd yn cael arian pontio ac a fydd yn rhaid llunio achos busnes ar gyfer yr achosion hynny o uno hefyd?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it takes us beyond the election, so it is a matter for parties to put in their manifestos. Certainly, it is the case that some local authorities will look to merge, particularly with regard to certainty for their staff, and it is important that those that wish to merge, according to an agreed map and with ministerial approval, are able to do so. Of course, my party will put forward proposals in the 2016 election as I am sure that his party will do. The single transferrable vote, I believe, will probably be in the manifesto that his party will put forward. I have not seen it yet, but I can guarantee that it will be in there. There will, of course, be a need to put these matters to the people of Wales and for a way forward to be found after 2016.

Wel, mae hyn yn mynd â ni y tu hwnt i'r etholiad, felly mae'n fater i bleidiau ei roi yn eu manifestos. Yn sicr, mae'n wir y bydd rhai awdurdodau lleol yn ystyried uno, yn enwedig o ran sicrwydd i'w haelodau staff, ac mae'n bwysig bod y rhai sy'n dymuno uno, yn ôl map sydd wedi ei gytuno gyda chymeradwyaeth weinidogol, yn gallu gwneud hynny. Wrth gwrs, bydd fy mhlaid i'n cyflwyno cynigion yn etholiad 2016 fel yr wyf yn siŵr y bydd ei blaid ef yn ei wneud. Rwy'n credu y bydd y bleidlais drosglwyddadwy sengl, yn ôl pob tebyg yn y manifesto y bydd ei blaid ef yn ei gyflwyno. Nid wyf wedi ei weld eto, ond gallaf sicrhau y bydd wedi ei gynnwys. Wrth gwrs, bydd angen cyflwyno'r materion hyn i bobl Cymru a dod o hyd i ffordd ymlaen ar ôl 2016.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Cyfleusterau Trafnidiaeth

## Transport Facilities

14:15 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyfleusterau trafndiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1850(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on transport facilities in west Wales? OAQ(4)1850(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Mae sicrhau bod cyfleusterau digonol yn cael eu darparu yn rhan allweddol o unrhyw system drafnidiaeth. Ensuring provision of adequate facilities is a key part of any transport system.
- 14:15 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Brif Weinidog, rwyf wedi derbyn sylwadau ynghylch yr angen difrifol i orsaf drenau Aberdaugleddau gael ei huwchraddio. Rwy'n gwerthfawrogi nad yw hwn yn fater uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Ar ôl dweud hynny, o ystyried yr amgylchiadau, a allwch chi ddweud wrthym pa drafodaethau y mae'ch Llywodraeth chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Network Rail ynghylch uwchraddio gorsafoedd trenau yng Nghymru? Hefyd, a fydddech yn fodlon ymrwymo y bydd eich Llywodraeth yn codi gorsaf drenau Aberdaugleddau yn benodol, ac yn wir gorsafoedd trenau yn gyffredinol, yn eich trafodaethau yn dyfodol? First Minister, I have received comments on the urgent need for the train station in Milford Haven to be upgraded. I accept that this is not directly an issue for the Welsh Government. Having said that, given the circumstances, can you tell us what discussions your Government has had with the UK Government and with Network Rail regarding the upgrading of train stations in Wales? Would you also be willing to commit your Government to specifically raise the issue of Milford Haven train station, and indeed train stations in general, in your negotiations in future?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Mae hwnnw'n bwynt pwysig. Ynglŷn â'r Llywodraeth, y peth cyntaf yr ydym am ei weld yw sicrhau bod y sefyllfa ynglŷn â rheilffyrdd yn cael ei datrys ynghylch trydaneiddio. Nid yw hynny'n effeithio ar Aberdaugleddau yn uniongyrchol—rwy'n deall hynny—ond, wrth wneud hynny, ein barn ni fel Llywodraeth yw y dylai cyllideb y rheilffyrdd gael ei datganoli. Wedyn, byddai'n bosibl ystyried gorsaf Aberdaugleddau a rhai eraill er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu huwchraddio. Ynglŷn â gwasanaethau, mae'n rhaid ailystyried y 'franchise'. Nid yw hynny'n rhywbeth sydd yn uniongyrchol o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, ond mae yna gyfle i sicrhau bod rheolaeth yn dod i'r fan hyn er mwyn sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei roi i orsafoedd fel Aberdaugleddau sydd ei eisiau fe. This is an important point. In terms of the Government, the first thing that we want to see is to ensure that the situation regarding railways is solved in relation to electrification. That does not affect Milford Haven directly—I understand that—but, in doing so, our view as a Government is that the railways budget should be devolved. Then, of course, it would be possible to consider Milford Haven station and others to ensure that they are upgraded. In terms of services, there is a need to reconsider the franchise. That is not something that is directly under the control of the Welsh Government, but there is an opportunity there to ensure that the management comes here and to ensure that investment is made in stations such as Milford Haven.
- 'Iaith Fyw: iaith byw—Bwrw mlaen'** **'Living language: a language for living—  
Moving forward'**
- 14:16 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*11. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datganiad polisi, 'Iaith Fyw: iaith byw—Bwrw mlaen'? OAQ(4)1852(FM)* *11. Will the First Minister provide an update on the policy statement, 'Living language: a language for living—moving forward'? OAQ(4)1852(FM)*
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Ers cyflwyno 'Bwrw mlaen' yn yr Eisteddfod, rydym eisoes wedi agor cronfa 'Bwrw mlaen' gwerth £300,000 eleni a chronfa cyfalaf o £1.25 miliwn. Yn ogystal, mae'r ymgyrch farchnata Pethau Bychain wedi cydio dychymyg ac mae'r ymateb hyd yma wedi bod yn gadarnhaol. Since announcing 'Bwrw mlaen' in the Eisteddfod in Llanelli, we have since opened the 'Bwrw mlaen' fund worth £300,000 and a capital fund worth £1.25 million. In addition, the marketing campaign, Pethau Bychain, has caught the imagination and the response to date has been positive.

- 14:17 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch am eich ymateb, Brif Weinidog. Yn eich datganiad ar 6 Awst y flwyddyn yma, cyhoeddasoch gronfa gwerth £400,000 i gefnogi'r cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith Gymraeg. Yn fy etholaeth i, Castell-nedd, mae manteision amlwg o gysylltu'r iaith Gymraeg, dwyieithrwydd a'r economi. Sut y byddwch yn codi ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned fusnes yn fy etholaeth o ran argaeledd y gronfa hon? A wnewch chi, neu a ydych chi wedi, cyhoeddi manylion am fynediad i'r gronfa ar gyfer fy etholaeth?
- Thank you for that response, First Minister. In your statement on 6 August this year, you announced a fund worth £400,000 to support the link between the economy and the Welsh language. In my constituency of Neath, there are clear advantages of linking the Welsh language, bilingualism and the economy. How will you raise awareness among the business community in my constituency of the availability of this fund? Will you announce, or have you announced, details of access to this fund in my constituency?
- 14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae rhan o'r £400,000 a gafodd ei ddatgan yn cael ei hanelu at farchnata a hybu'r iaith Gymraeg. Mae cefnogaeth ar gael hefyd gan Fusnes Cymru sy'n rhoi gwasanaeth dwyieithog i fusnesau ar draws Gymru gyfan. Bydd rhan hefyd i ddinas-ranbarthau—'city regions'—er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i fusnesau ym mhob rhan o Gymru, yn enwedig eich etholaeth chi yng Nghastell-nedd er mwyn sicrhau bod y busnesau yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael.
- Part of the £400,000 that was announced is aimed at marketing and promoting the Welsh language. There is support available from Business Wales that provides a bilingual service to businesses across Wales. There will also be a part for the city regions to play in order to ensure that there is information available for businesses all over Wales, especially in your constituency, in Neath, in order to ensure that businesses are aware of the support that is available.
- 14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, First Minister. Diolch yn fawr, Brif Weinidog.
- We now move to the business statement and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt. Symudwn at y datganiad busnes nawr a galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.
- 14:18 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Business Statement and Announcement**
- Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*
- I have two changes to report to this week's business. The Business Committee has agreed to schedule a motion to elect Members to committees immediately after the business statement and announcement. Also, as no questions have been tabled for answer by the Assembly Commission, timings for tomorrow have been adjusted accordingly. The business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.
- Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau yn syth ar ôl y datganiad a chyhoeddiad busnes. Hefyd, gan nad oes unrhyw gwestiynau wedi eu cyflwyno i'w hateb gan Gomisiwn y Cynulliad, mae amseriadau ar gyfer yfory wedi eu haddasu yn unol â hynny. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.
- 14:19 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Is it possible to have a statement as to what assistance the Welsh Government is bringing forward for the regeneration of high streets, in particular in the South Wales Central area? The Government has had various plans that it has been saying that it will bring forward for dedicated support for high street regeneration, but, to date, I do not think that those proposals have been brought forward. Is it possible to have a statement from the relevant Minister explaining what position the Government is currently at with these plans, and when we may be in a position to understand what money will be behind these schemes and, importantly, when local authorities and town and communities councils will be able to bid for any support that is made available?
- A yw'n bosibl cael datganiad ynghylch pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig ar gyfer adfywio'r stryd fawr, yn enwedig yn ardal Canol De Cymru? Bu amryw o gynlluniau gan y Llywodraeth y mae wedi bod yn dweud y bydd yn eu cyflwyno ar gyfer cymorth penodedig i adfywio'r stryd fawr, ond, hyd yn hyn, nid wyf yn credu bod y cynigion hynny wedi eu cyflwyno. A yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog perthnasol yn esbonio ar ba bwynt mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd o ran y cynlluniau hyn, a phryd y gallem ni fod mewn sefyllfa i ddeall pa arian fydd yn cefnogi'r cynlluniau hyn ac, yn bwysig, pryd y bydd awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a thref yn gallu gwneud cais am unrhyw gymorth sydd ar gael?

14:20

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the leader of the opposition will have welcomed the announcement last week of funding for our town centres, including, I have to say, Llantwit Major in his region and, I am sure, other parts of his region as well; I just happen to know about that particular beneficiary. However, clearly, that was an important announcement in terms of town centre regeneration.

Gwn y bydd arweinydd yr wrthblaid wedi croesawu'r cyhoeddiad yr wythnos diwethaf o gyllid ar gyfer canol ein trefi, gan gynnwys, mae'n rhaid i mi ddweud, Llanilltud Fawr yn ei ranbarth ef, a rhannau eraill o'i ranbarth hefyd rwy'n siŵr; Rwy'n digwydd bod yn ymwybodol o'r buddiolwr penodol hwnnw. Fodd bynnag, yn amlwg, roedd hwnnw'n gyhoeddiad pwysig o ran adfywio canol trefi.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:20

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I draw the Minister for business's attention to the amazing effort by the east coast bike ride challenge, organised by Velindre fundraising, which raced along the coast of the United States, raising £600,000 for Velindre? One group was led by Jonathan Davies and Martyn Williams, and the other was led by Jamie Baulch and Matthew Watkins, with lots of women going along as well. I am sure that she would want to congratulate them for this fantastic effort, but would she agree that it would be good to have a debate or statement where we could look at the different fundraising initiatives by different voluntary groups throughout Wales, to do things that go beyond what the NHS is able to provide?

A gaf i dynnu sylw'r Gweinidog busnes at yr ymdrech anhygoel gan her feicio arfordir y dwyrain, a drefnwyd gan Codi arian i Felindre, a rasiodd ar hyd arfordir yr Unol Daleithiau, gan godi £600,000 i Felindre? Arweiniwyd un grŵp gan Jonathan Davies a Martyn Williams, ac arweiniwyd y llall gan Jamie Baulch a Matthew Watkins, gyda llawer o ferched yn mynd ar y daith hefyd. Rwy'n siŵr y byddai hi'n dymuno eu llongyfarch ar yr ymdrech wych hon, ond a fyddai'n cytuno y byddai'n dda cael dadl neu ddatganiad pryd y gallem ni ystyried y gwahanol fentrau codi arian gan wahanol grwpiau gwirfoddol ledled Cymru, i wneud pethau sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gall y GIG ei ddarparu?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:21

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Cardiff North, who is a great supporter of Velindre hospital and Velindre NHS Trust. I certainly congratulate the cyclists who took part in this tremendous bicycle ride to raise funds, the east coast challenge ride. It is magnificent support, of course, for the Victory Over Cancer campaign. I think that you made a very good point about all the other fundraising efforts that are going on around Wales, and, particularly, we acknowledged that yesterday when I went with the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething, to Wales Air Ambulance, which is hugely supported by the people of Wales. I think that that is something that we can discuss in terms of bringing forward a debate or statement on this matter.

Diolchaf i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd, sy'n gefnogwr gwych o ysbyty Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Rwy'n sicr yn llongyfarch y beicwyr a gymerodd ran yn y daith feicio aruthrol hon i godi arian, her feicio arfordir y dwyrain. Mae'n gefnogaeth wych, wrth gwrs, i'r ymgyrch Victory Over Cancer. Rwy'n meddwl eich bod wedi gwneud pwynt da iawn am yr holl ymdrechion codi arian eraill sy'n digwydd ledled Cymru, ac, yn benodol, cydnabuwyd hynny gennym ddoe pan es i gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething, i Ambiwylans Awyr Cymru, sy'n cael cefnogaeth aruthrol gan bobl Cymru. Credaf fod hynny'n rhywbeth y gallwn ei drafod o ran cyflwyno dadl neu ddatganiad ar y mater hwn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:21

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, would you join me in wishing the Nepalese community of Wales best wishes for the Dashain festival, which is happening now? Could you provide a written statement on what assistance the Welsh Government could give Powys County Council with the integration of the Nepalese community in terms of public services in Brecon? We have a proud and long tradition of Gurkha families living in Brecon and, as the population becomes larger and older, there are some problems in accessing, for instance, healthcare and social care for older members of that community. A statement on how the Welsh Government could support that integration would be most welcomed by me and the members of the Nepalese community living in Brecon.

Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i ddyuno dymuniadau gorau i gymuned Nepalaid Cymru ar gyfer gŵyl Dashain, sy'n digwydd ar hyn o bryd? A allech chi ddarparu datganiad ysgrifenedig ar ba gymorth y gallai Llywodraeth Cymru ei roi i Gyngor Sir Powys i integreiddio'r gymuned Nepalaid o ran gwasanaethau cyhoeddus yn Aberhonddu? Mae gennym draddodiad hir a balch o deuluoedd Gurkha yn byw yn Aberhonddu ac, wrth i'r boblogaeth gynyddu a heneiddio, ceir rhai problemau o ran cael mynediad at, er enghraifft, gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer aelodau hŷn o'r gymuned honno. Byddai datganiad ar sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r integreiddiad hwnnw yn cael ei groesawu'n fawr gennyf fi ac aelodau'r gymuned Nepalaid sy'n byw yn Aberhonddu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

- 14:22 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Kirsty Williams for that question, and also the recognition that it brings to those Gurkha families. The Nepalese community has been embraced by the people of Powys, particularly in Brecon and Radnor. I would certainly wish to draw this to the attention of the Minister for Communities and Tackling Poverty in terms of the points that you make. Of course, we wish them well for their festival.
- 14:23 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you heard the First Minister, in answer to various questions from Assembly Members in relation to the Flint referendum, indicate that the community health council might have a role in referring this matter to Welsh Government Ministers. Clearly, this is the first time that there has ever been a referendum like this in Wales, and I would welcome some clarity on the procedure that is to be followed following a referendum of this type. It is very important that local democracy is considered and taken account of, and I would like to know what the procedure is, or where that has been set down.
- 14:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, the First Minister responded fully to the questions that you put on this matter, Antoinette Sandbach, and we have clear opportunities for consultation, and the community health councils obviously play a role.
- 14:24 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, it has been brought to my attention that a rail service from Holyhead to Cardiff had to be cancelled yesterday due to problems with the doors and, in fact, more specifically, I understand that a door that was not shut properly was ripped off and sucked under the track when the train went into a tunnel at Bangor. You can see a picture here of the train with the missing door. I will circulate that to you later. Thank God nobody was standing in that vestibule when the incident happened, or I frankly shudder to think what would have happened to that individual. An incident such as this is appalling; it should be impossible on our network. May I request an urgent statement from the Minister for Economy, Science and Transport outlining what steps the Welsh Government is taking to ensure that such a thing cannot happen again, including an audit of the rolling stock not currently fitted with automatic door-locking mechanisms? I also ask that the Minister publishes a rolling stock strategy for Wales, outlining the steps that will be taken to secure an adequate and safe supply of rolling stock for Wales as electrification projects in other parts of the UK release diesel stock, which might be suitable for parts of our network.
- Diolchaf i Kirsty Williams am y cwestiwn yna, yn ogystal â'r gydnabyddiaeth y mae'n ei gynnig i'r teuluoedd Gurkha hynny. Mae'r gymuned Nepalaidd wedi cael ei chrosawu gan bobl Powys, yn enwedig ym Mrycheiniog a Maesyfed. Byddwn yn sicr yn dymuno tynnu sylw'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi at hyn o ran y pwyntiau a wnewch. Wrth gwrs, rydym yn dymuno'n dda iddynt ar gyfer eu gŵyl.
- Weinidog, clywsoch y Prif Weinidog, yn ei ateb i gwestiynau amrywiol gan Aelodau'r Cynulliad yng nghyswilt referendwm y Fflint, yn nodi y gallai fod gan y cyngor iechyd cymuned swyddogaeth i'w chyflawni o ran atgyfeirio'r mater hwn i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Yn amlwg, dyma'r tro cyntaf erioed y bu referendwm fel hwn yng Nghymru, a byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurder o ran y weithdrefn sydd i'w dilyn ar ôl referendwm o'r math hwn. Mae'n bwysig iawn bod democratiaeth leol yn cael ei chymryd i ystyriaeth, a hoffwn wybod beth yw'r weithdrefn, neu lle mae hynny wedi ei nodi.
- Yn amlwg, ymatebodd y Prif Weinidog yn llawn i'r cwestiynau yr ydych chi'n eu gofyn am y mater hwn, Antoinette Sandbach, ac mae gennym gyfleoedd eglur i ymgynghori, ac mae'r cyngorau iechyd cymuned yn amlwg yn chwarae rhan.
- Weinidog, tynnwyd fy sylw at y ffaith y bu'n rhaid canslo gwasanaeth trên o Gaerdybi i Gaerdydd ddoe oherwydd problemau gyda'r drysau ac, mewn gwirionedd, yn fwy penodol, rwy'n deall bod drws nad oedd wedi ei gau'n iawn wedi ei rwygo i ffordd a'i sugno o dan y trac pan aeth y trên i mewn i dwl ym Mangor. Gallwch weld llun yma o'r trên heb y drws. Byddaf yn rhannu hwnnw â chi yn nes ymlaen. Diolch i Dduw nad oedd unrhyw un yn sefyll yn y cyntedd hwnnw pan ddigwyddodd hynny, neu rwyf wir yn arswydo o feddwl beth fyddai wedi digwydd i'r unigolyn hwnnw. Mae digwyddiad fel hyn yn ddychrynlyd; dylai fod yn amhosibl ar ein rhwydwaith ni. A gaf i ofyn am ddatganiad brys gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn amlinellu pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau na all y fath beth ddigwydd eto, gan gynnwys archwiliad o'r cerbydau nad oes mecanweithiau cloi drws awtomatig wedi eu gosod arnynt ar hyn o bryd? Gofynnaf hefyd i'r Gweinidog gyhoeddi strategaeth gerbydau i Gymru, yn amlinellu'r camau fydd yn cael eu cymryd i sicrhau cyflenwad digonol a diogel o gerbydau i Gymru wrth i brosiectau trydaneiddio mewn rhannau eraill o'r DU ryddhau stoc diesel, a allai fod yn addas ar gyfer rhannau o'n rhwydwaith.



- 14:25 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- These are not matters that we can take full responsibility for because they are not devolved. However, clearly, you have put on record a very serious incident. I think that that needs to be drawn to the attention of the Department for Transport in the UK Government in terms of the rolling stock. Clearly, this is an issue, in terms of our rolling stock, where I think that if we had full control, we could then take the responsibility that would be required.
- Nid yw'r rhain yn faterion y gallwn gymryd cyfrifoldeb llawn amdanynt gan nad ydynt wedi eu datganoli. Fodd bynnag, yn amlwg, rydych chi wedi rhoi digwyddiad difrifol iawn ar y cofnod. Credaf fod angen tynnu sylw'r Adran Drafnidiaeth yn Llywodraeth y DU at hynny o ran y cerbydau. Yn amlwg, mae hyn yn broblem, o ran ein cerbydau, lle rwy'n meddwl pe byddai gennym reolaeth lawn yna gallem gymryd y cyfrifoldeb hwnnw y byddai ei angen.
- 14:25 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- May I request a statement concerning the proposal to withdraw junior doctors from out-of-hours work at Ysbyty Ystrad Fawr at Ystrad Mynach from next February? This will mean that there will be no A&E service available between 8 a.m. and 8 p.m. Monday to Friday, the medical assessment unit will be closed, and the local emergency centre will also be closed, putting additional pressure on A&E departments at other hospitals, particularly the Royal Gwent Hospital. May I request a statement from the Minister to reassure the locals who use that hospital on a regular basis?
- A gaf i ofyn am ddatganiad ar y cynnig i dynnu meddygon iau o waith y tu allan i oriau arferol yn Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach o fis Chwefror nesaf? Bydd hyn yn golygu na fydd unrhyw wasanaeth damweiniau ac achosion brys ar gael rhwng 8 y bore ac 8 yr hwyr o ddydd Llun i ddydd Gwener, y bydd yr uned asesiadau meddygol yn cael ei chau, ac y bydd y ganolfan argyfwng leol hefyd yn cael ei chau, gan roi pwysau ychwanegol ar adrannau damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai eraill, yn enwedig Ysbyty Brenhinol Gwent. A gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog er mwyn tawelu meddylliau pobl leol sy'n defnyddio'r ysbyty hwnnw yn rheolaidd?
- 14:26 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- These are operational matters to ensure that we have the appropriate workforce for Ysbyty Ystrad Fawr and our hospitals in Wales. The Minister has heard that today. If there is an issue that is raising concern, I am sure that the Aneurin Bevan Local Health Board will take this on board.
- Mae'r rhain yn faterion gweithredol i sicrhau bod y gweithlu priodol gennym ar gyfer Ysbyty Ystrad Fawr a'n hysbytai yng Nghymru. Mae'r Gweinidog wedi clywed hynny heddiw. Os oes mater sy'n codi pryder, rwy'n siŵr y bydd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn ystyried hyn.
- 14:26 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I would be grateful if you could please ask the Minister for health to bring forward a statement on future health services in west Wales, particularly services in Pembrokeshire. As you know, the special care baby unit has been closed at Withybush General Hospital and paediatric services are due to be downgraded. There are now huge concerns around the future of cancer services, because it appears that there will no longer be a dedicated cancer ward at the hospital. The First Minister was asked about this today in the First Minister's questions; so, for absolute clarity, I would be grateful if the Minister for health can therefore bring forward a statement as soon as possible on the Welsh Government's position on the future of cancer services, and indeed on all services at Withybush hospital.
- Weinidog, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn i'r Gweinidog iechyd gyflwyno datganiad ar wasanaethau iechyd yn y gorllewin yn y dyfodol, a gwasanaethau yn Sir Benfro yn arbennig, os gwelwch yn dda. Fel y gwyddoch, caewyd yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg a disgwylir i wasanaethau pediatrig gael eu hisraddio. Ceir pryderon mawr erbyn hyn ynghylch dyfodol gwasanaethau canser, gan ei bod yn ymddangos na fydd ward canser benodol yn yr ysbyty mwyach. Holwyd y Prif Weinidog am hyn heddiw yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog; felly, ar gyfer eglurder llwyr, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog iechyd gyflwyno datganiad cyn gynted â phosibl felly ar safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddyfodol gwasanaethau canser, ac yn wir ar bob gwasanaeth yn Ysbyty Llwynhelyg.
- 14:27 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- This is a matter for the Hywel Dda Local Health Board, and it is a matter that it is clearly aware of in terms of operational issues and pressures. Also, it is a matter that the Minister can respond to in questions tomorrow.
- Mae hwn yn fater i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, ac mae'n fater y mae'n amlwg yn ymwybodol ohono o ran materion a phwysau gweithredol. Hefyd, mae'n fater y gall y Gweinidog ymateb iddo yn y cwestiynau yfory.
- 14:27 **Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau** **Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I call on a member of the Business Committee to move the motion. Elin Jones, will you move the motion?
- Motion to Elect Members to Committees**
- Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnis y cynnig. Elin Jones, a wnech chi gynnis y cynnig?

Cynnig NDM5588 Rosemary Butler

Motion NDM5588 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

(i) William Powell (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru);

(i) William Powell (Welsh Liberal Democrats) as a member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee in place of Eluned Parrott (Welsh Liberal Democrats);

(ii) Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

(ii) Eluned Parrott (Welsh Liberal Democrats) as a member of the Standards of Conduct Committee in place of Kirsty Williams (Welsh Liberal Democrats).

14:27 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynigiad y cynnig.

I move the motion.

Thank you for the vote of confidence.

Diolch i chi am y bleidlais o hyder.

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

14:28 **Datganiad: Y Gyllideb Ddrafft 2015-16**

**Statement: The Draft Budget 2015-16**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:28 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I publish today our priorities for Wales budget for 2015-16. This budget covers the final year of the current spending review period and the last year for which we have a firm settlement.

Rwyf yn cyhoeddi heddiw ein blaenoriaethau ar gyfer cyllideb Cymru ar gyfer 2015-16. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys blwyddyn olaf cyfnod yr adolygiad o wariant presennol a'r flwyddyn olaf lle mae gennym setliad cadarn.

It is pertinent to be reminded of the impacts of the austere financial context that we are governing in. The most significant impact has been the budget cuts that we have faced over the period. Our budget in 2015-16 is nearly 10% lower overall in real terms compared to 2010-11, which equates to more than £1.5 billion removed from the Welsh public purse. This long period of sustained reductions has had an impact on all services, even those that we have been able to protect. In Wales, we have a strong record in delivering our priorities: to boost our infrastructure, skills and supporting vulnerable people.

Mae'n berthnasol i ni gael ein hatgoffa o effeithiau'r cyd-destun ariannol llym yr ydym yn llywodraethu ynddo. Yr effaith fwyaf sylweddol oedd y toriadau yn y gyllideb yr ydym wedi'u hwynebu yn ystod y cyfnod. Mae ein cyllideb yn 2015-16 bron i 10% yn is yn gyffredinol mewn termau real o'i chymharu â 2010-11, sy'n cyfateb i dynnu mwy na £1.5 biliwn o bwrs cyhoeddus Cymru. Mae'r cyfnod hir hwn o ostyngiadau parhaus wedi effeithio ar bob gwasanaeth, hyd yn oed y rhai yr ydym wedi gallu eu hamddiffyn. Yng Nghymru, mae gennym hanes cryf o gyflawni ein blaenoriaethau: hybu ein seilwaith, sgiliau a chefnogi pobl sy'n agored i niwed.

In parallel to reducing budgets, there is an increase in demand for our services with a rising population and people living longer. The choices that we must make are not easy, and they get tougher with each additional cut, but we have been open with the people of Wales about the scale of the challenge. This was reflected in my budget tour report, published last week, on meetings that I have held across Wales with front-line staff.

We have been open about our priorities for budgets that deliver against this backdrop. We have played our part in setting balanced budgets in accordance with our priorities to boost the Welsh economy, support our Welsh NHS and schools, as well as tackling poverty and inequality. Those priorities are at the heart of the spending plans that I have published today.

This year, we have also published a strategic integrated impact assessment, an approach that has been informed by the budget advisory group for equality. Our focus on preventative measures and early intervention has shaped our entire approach to this budget. We are directing our resources to measures that help avoid problems occurring in the first case, interventions that will help address pressures that impact on public services, and actions to help support our ambitions for achieving a better quality of life for our own and future generations. While this is without doubt the right thing to do, it is not easy, not least in times of reducing budgets. Although some preventative interventions, such as public health measures, can have immediate beneficial effects, the full impacts of others will be more long term. However, in these difficult financial times, it is more important than ever that we are investing for the long term and delivering sustainable budget plans.

In line with this approach, we are providing over £20 million in 2015-16 to support further investments through the invest-to-save fund. I will be launching a new round of funding next week and will update Members in more detail then. We are continuing with our planned expansion of the Flying Start programme, giving children in Wales in our most disadvantaged communities the best possible start, with early intervention to help them to fulfil their potential. The budgets for universal benefits, such as concessionary fares and free prescriptions, will continue to meet need and entitlement. These are but two examples, reflecting the preventative focus that has shaped our whole budget.

Ochr yn ochr â lleihau cyllidebau, mae cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau gyda phoblogaeth sy'n cynyddu a phobl sy'n byw'n hirach. Nid yw'r dewisiadau y mae'n rhaid inni eu gwneud yn hawdd, ac maent yn mynd yn anoddach gyda phob toriad ychwanegol, ond rydym wedi bod yn agored gyda phobl Cymru ynglŷn â maint yr her. Adlewyrchwyd hyn yn fy adroddiad taith cyllideb, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, am gyfarfodydd yr wyf wedi'u cynnal ledled Cymru gyda staff rheng flaen.

Rydym wedi bod yn agored ynghylch ein blaenoriaethau ar gyfer cyllidebau sy'n cyflawni yn erbyn y cefndir hwn. Rydym wedi chwarae ein rhan wrth osod cyllidebau cytbwys yn unol â'n blaenoriaethau i roi hwb i economi Cymru, cefnogi ein GIG a'n hysgolion yng Nghymru, yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae'r blaenoriaethau hynny wrth wraidd y cynlluniau gwariant yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw.

Eleni, rydym hefyd wedi cyhoeddi asesiad o effaith integredig strategol, yn seiliedig ar gyngor gan grŵp cynghorol y gyllideb ar gydraddoldeb. Mae ein pwyslais ar fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar wedi llywio ein hymagwedd gyfan tuag at y gyllideb hon. Rydym yn cyfeirio ein hadnoddau at fesurau sy'n helpu i atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf, ymyrraethau a fydd yn helpu i roi sylw i'r pwysau sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus, a chomau gweithredu i helpu i gefnogi ein huchelgais o sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol. Er bod hyn yn ddiau y peth iawn i'w wneud, nid yw'n hawdd, yn enwedig ar adegau pan fo cyllidebau'n lleihau. Er y gall rhai ymyrraethau ataliol, megis mesurau iechyd y cyhoedd, gael effeithiau buddiol ar unwaith, bydd effeithiau llawn rhai eraill yn fwy hirdymor. Fodd bynnag, yn y cyfnod ariannol anodd hwn, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn buddsoddi ar gyfer y tymor hir ac yn cyflawni cynlluniau cyllideb cynaliadwy.

Yn unol â'r dull hwn, rydym yn darparu dros £20 miliwn yn 2015-16 i gefnogi buddsoddiadau pellach drwy'r gronfa buddsoddi i arbed. Byddaf yn lansio cylch cyllid newydd yr wythnos nesaf a rhof y wybodaeth ddiweddaraf yn fanylach i Aelodau bryd hynny. Rydym yn parhau ag ehangiad arfaethedig y rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n rhoi'r dechrau gorau posibl i blant yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gydag ymyrraeth gynnar i'w helpu i gyflawni eu potensial. Bydd y cyllidebau ar gyfer budd-daliadau cyffredinol, fel tocynnau teithio rhad a phresgripsiynau am ddim, yn parhau i fodloni angen a hawl. Dim ond dwy enghraifft yw'r rhain, sy'n adlewyrchu'r pwyslais ar atal sydd wedi llywio ein cyllideb gyfan.

Llywydd, investing in our health service is a priority of the Welsh Government. That is what the people of Wales expect. That is why I am announcing today £420 million, nearly £0.5 billion of extra funding, for the NHS in Wales over this year and the next. This reflects our commitment to our health service in Wales and how vital we believe health spending is to the longer term health and wellbeing of the people of Wales. This additional funding responds directly and fully to the evidence provided by the Nuffield Trust. The message from Nuffield is clear—a sustainable NHS is within our grasp, provided we make the necessary improvements in productivity and service delivery on the back of the additional investment that I am announcing today. The reality of a reducing budget is that we cannot fund all services at the level that we might like. We cannot continue with business as usual. We need to work with every part of our public services to adapt and we will support it to do so. Part of the extra funding will be used to support the NHS in making the changes it needs to make. I am confident that it can and will respond.

Local government has a vital role to play in delivering our objectives for Wales and it is for this reason that, throughout this spending review period, we have delivered settlements for local government that have avoided the draconian decisions faced by local authorities in England. While I recognise that the budget for local government I am announcing today is challenging, I am allocating an additional £10 million in recognition of the pressures faced by social services. This allocation has been informed directly by our impact assessment of the budget. This highlights both the demand for social services and the important relationship between local government and the health service to deliver more integrated health and social care. This investment is key to delivering a sustainable NHS for Wales and to protecting the longer term social care interests of the most vulnerable.

These budget plans also continue our commitment to increasing schools' budgets faster than the rate of growth of the Welsh budget as a whole. Budgets for schools over this spending review period will be nearly £106 million higher than they would have been without our decisions. This is part of our commitment to investing in our young people's futures. Education accounts for a major proportion of local government spend and our commitment to increasing expenditure is an important element of our support for local government.

Llywydd, for the second year in a row, we have been able to reach agreement on our budget plans in advance of the publication of the draft budget. This gives the Assembly the opportunity to scrutinise fully the measures as an integral part of our budget plans. Scrutiny is an important stage in the budget process, which is why I welcomed the Finance Committee's pre-budget scrutiny session in July, and why I continue to look at how we can further improve the budget process, reflecting on the views expressed by committees wherever possible. This year, in response to a request by the Business Committee, we are also publishing our plans a week earlier than we normally would, in order to allow this important extra scrutiny time.

Llywydd, mae buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dyna'r hyn y mae pobl Cymru'n ei ddisgwyl. Dyna pam yr wyf yn cyhoeddi heddiw £420 miliwn, bron i £0.5 biliwn o gyllid ychwanegol, i'r GIG yng Nghymru dros y flwyddyn hon a'r nesaf. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i'n gwasanaeth iechyd yng Nghymru a pha mor hanfodol, yn ein barn ni, yw gwariant ar iechyd i iechyd a lles mwy hirdymor pobl Cymru. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn ymateb uniongyrchol a llawn i'r dystiolaeth a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Nuffield. Mae'r neges gan Nuffield yn glir—mae GIG cynaliadwy o fewn ein gafael, ar yr amod ein bod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol o ran cynhyrchiant a chyflenwi gwasanaethau yn sgil y buddsoddiad ychwanegol yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw. Gwirionedd cyllideb sy'n lleihau yw na allwn ariannu pob gwasanaeth ar y lefel yr hoffem ei wneud. Ni allwn barhau â busnes fel arfer. Mae angen inni gydweithio â phob rhan o'n gwasanaethau cyhoeddus i addasu a byddwn yn ei gefnogi i wneud hynny. Defnyddir rhan o'r arian ychwanegol i gefnogi'r GIG i wneud y newidiadau y mae angen iddo eu gwneud. Rwyf yn hyderus y gall ymateb, ac y bydd yn gwneud hynny.

Mae gan lywodraeth leol ran hanfodol i'w chwarae o ran cyflawni ein hamcanion ar gyfer Cymru a dyna pam, drwy gydol cyfnod yr adolygiad hwn o wariant, yr ydym wedi darparu setliadau i lywodraeth leol sydd wedi osgoi'r penderfyniadau llym sy'n wynebu awdurdodau lleol yn Lloegr. Er fy mod yn cydnabod bod y gyllideb ar gyfer llywodraeth leol yr wyf yn ei chyhoeddi heddiw yn heriol, rwyf yn neilltuo £10 miliwn ychwanegol i gydnabod y pwysau sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r dyraniad hwn yn seiliedig yn uniongyrchol ar ein hasesiad o effaith y gyllideb. Mae hyn yn tynnu sylw at y galw am wasanaethau cymdeithasol ac at y berthynas bwysig rhwng llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig. Mae'r buddsoddiad hwn yn allweddol i ddarparu GIG cynaliadwy i Gymru ac i ddiogelu buddiannau gofal cymdeithasol mwy hirdymor y bobl fwyaf agored i niwed.

Mae'r cynlluniau cyllidebol hyn hefyd yn parhau â'n hymrwymiad i gynyddu cyllidebau ysgolion yn gyflymach na chyfradd twf cyllideb Cymru yn ei chyfanrwydd. Bydd cyllidebau ar gyfer ysgolion yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn o wariant bron i £106 miliwn yn uwch nag y byddent heb ein penderfyniadau. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i fuddsoddi yn nyfodol ein pobl ifanc. Mae cyfran sylweddol o wariant llywodraeth leol yn mynd ar addysg ac mae ein hymrwymiad i gynyddu gwariant yn elfen bwysig o'n cefnogaeth i lywodraeth leol.

Llywydd, am yr ail flwyddyn yn olynol, rydym wedi llwyddo i ddod i gytundeb ar ein cynlluniau cyllideb cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r Cynulliad i graffu'n llawn ar y mesurau fel rhan annatod o'n cynlluniau cyllideb. Mae craffu'n gam pwysig ym mhroses y gyllideb, a dyna pam y croesewais sesiwn craffu cyn-cyllideb y Pwyllgor Cyllid ym mis Gorffennaf, a pham yr wyf yn parhau i edrych ar sut y gallwn wella proses y gyllideb ymhellach, gan adlewyrchu ar y safbwyntiau a fynegwyd gan bywllgorau pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Eleni, mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Busnes, rydym hefyd yn cyhoeddi ein cynlluniau wythnos yn gynharach nag y byddem fel arfer, er mwyn caniatáu yr amser craffu ychwanegol pwysig hwn.

The agreement that we have reached with the Welsh Liberal Democrats reflects our shared commitment to investing in the future of our young people. For the first time ever, we have agreed a two-year agreement, which will deliver certainty and stability for the people of Wales and those who work in our public services. This approach ensures that we maximise the benefits that we can achieve from the pupil deprivation grant, directly tackling the link between educational attainment and poverty. Most importantly, this budget agreement provides sustainable plans for the remainder of this administration and Assembly terms.

Under the agreement, the pupil deprivation grant will rise from £918 to £1,050 per pupil in 2015-16, and then again to £1,150 per pupil in 2016-17. In line with our commitment to raising standards and equality of opportunity, we are also extending the PDG to under-fives. We have also agreed to establish a new youth concessionary fare scheme for 16 and 17-year-olds to help them access work and training opportunities. This initiative, along with our pilot childcare scheme, promoted by the National Union of Students, for further education students, and the £10 million mitigation of planned cuts to apprenticeships, will help to ensure that young people have the support that they need to continue their education.

Effective use of capital resources continues to contribute to promoting growth and jobs. We have seen clear evidence that our interventions are making a difference, and that the Welsh economy is showing signs of recovery. Today, we are announcing in our plans for 2015-16 an additional £12 million of capital and £38 million of financial transactions funding. This, together with the additional financial transactions funding of £11.2 million that I am announcing in-year, means that we are announcing nearly £60 million of new investment over two years, in line with our Wales infrastructure investment plan investment priorities.

Of this, £37 million is being allocated to provide further investment in housing. We are expanding our affordable housing land scheme, our houses into homes scheme, our home improvement loans, and the town centre loans scheme. These schemes are making a difference to people and communities across Wales, improving the supply of much-needed housing, and providing an important stimulus to the economy.

As part of this investment, we are also allocating £2 million towards our Gypsy and Traveller sites programme, to improve the lives and the standard of living of Gypsy and Traveller residents throughout Wales. We are also investing £5 million in the first phase of the Green Growth Wales scheme, which will accelerate projects to deliver green investment in Wales. As part of our budget agreement with the Welsh Liberal Democrats, we are delivering £95 million-worth of capital investment in the Wales infrastructure investment plan pipeline.

Mae'r cytundeb yr ydym wedi'i gyrraedd gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn adlewyrchu ein hymrwymiad ar y cyd i fuddsoddi yn nyfodol ein pobl ifanc. Am y tro cyntaf erioed, rydym wedi cytuno ar gytundeb dwy flynedd, a fydd yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i bobl Cymru a'r rheini sy'n gweithio yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r grant amddifadedd disgyblion, gan fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a thlodi. Yn bwysicaf oll, mae'r cytundeb cyllideb hwn yn darparu cynlluniau cynaliadwy ar gyfer gweddill y weinyddiaeth hon a thymhorau'r Cynulliad.

O dan y cytundeb, bydd y grant amddifadedd disgyblion yn codi o £918 i £1,050 i bob disgybl yn 2015-16, ac yna unwaith eto i £1,150 i bob disgybl yn 2016-17. Yn unol â'n hymrwymiad i godi safonau a chyfle cyfartal, rydym hefyd yn ymestyn y grant amddifadedd disgyblion i gynnwys plant o dan bump oed. Rydym hefyd wedi cytuno i sefydlu cynllun teithio rhatach i ieuencid newydd ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed i'w helpu i gael cyfleoedd i weithio a hyfforddi. Bydd y fenter hon, ynghyd â'n cynllun arbrolfod gofal plant, a hyrwyddir gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, ar gyfer myfyrwyr addysg bellach, a'r £10 miliwn i liniaru toriadau a gynlluniwyd i brentisiaethau, yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i barhau â'u haddysg.

Mae defnyddio adnoddau cyfalaf yn effeithiol yn parhau i gyfrannu at hyrwyddo twf a swyddi. Rydym wedi gweld tystiolaeth glir bod ein hymyraethau'n gwneud gwahaniaeth, a bod economi Cymru yn dangos arwyddion o adferiad. Heddiw, rydym yn cyhoeddi yn ein cynlluniau ar gyfer 2015-16 £12 miliwn ychwanegol o gyfalaf a £38 miliwn o gyllid trafodion ariannol. Mae hyn, ynghyd â'r cyllid trafodion ariannol ychwanegol o £11.2 miliwn yr wyf yn ei gyhoeddi yn ystod y flwyddyn, yn golygu ein bod yn cyhoeddi bron i £60 miliwn o fuddsoddiad newydd dros ddwy flynedd, yn unol â blaenoriaethau buddsoddi ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

O'r swm hwn, mae £37 miliwn yn cael ei neilltuo i ddarparu buddsoddiad pellach mewn tai. Rydym ni'n ehangu ein cynllun tir ar gyfer tai fforddiadwy, ein cynllun troi tai'n gartrefi, ein benthyciadau gwella cartrefi, a'r cynllun benthyciadau canol trefi. Mae'r cynlluniau hyn yn gwneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau ledled Cymru, yn gwella'r cyflenwad o dai sydd wir eu hangen, ac yn darparu ysgogiad pwysig i'r economi.

Yn rhan o'r buddsoddiad hwn, rydym hefyd yn neilltuo £2 miliwn tuag at ein rhaglen safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, i wella bywydau a safon byw trigolion Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru. Rydym hefyd yn buddsoddi £5 miliwn yng ngham cyntaf y cynllun Twf Gwyrdd Cymru, a fydd yn cyflymu prosiectau i sicrhau buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. Yn rhan o'n cytundeb cyllideb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rydym yn darparu buddsoddiad cyfalaf gwerth £95 miliwn ym mhiblell yn cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

Llywydd, in these difficult times, we have again shown the difference that we can make. We have focused on delivering our priorities for Wales and have taken decisive action to ensure that our resources, constrained though they are, are allocated fairly and responsibly to meet the social and economic needs of Wales. This is a draft budget for the public services that we cherish and support in Wales—our health service, our schools. It is a budget for the people of Wales, who benefit from those services, and it will enhance and strengthen our communities and our economy.

Lywydd, yn y cyfnod anodd hwn, rydym unwaith eto wedi dangos y gwahaniaeth y gallwn ei wneud. Rydym wedi canolbwyntio ar gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru ac wedi cymryd camau pendant i sicrhau bod ein hadnoddau, er eu bod yn gyfyng, yn cael eu dyrannu'n deg ac yn gyfrifol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae hon yn gyllideb ddrafft ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yr ydym yn eu trysori a'u cefnogi yng Nghymru—ein gwasanaeth iechyd, ein hysgolion. Mae'n gyllideb i bobl Cymru, sy'n elwa o'r gwasanaethau hynny, a bydd yn gwella ac yn cryfhau ein cymunedau a'n heconomi.

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

May I remind Members that this is a statement, and that, therefore, it is an opportunity to question the Minister, and not for long speeches? I have quite a number of speakers, and I would like to get through them all if we can. I call on Nick Ramsay.

A gaf fi atgoffa'r Aelodau mai datganiad yw hwn, ac, felly, mai cyfle i holi'r Gweinidog ydyw, nid i roi areithiau hir? Mae gennyf gryn nifer o siaradwyr, a hoffwn roi cyfle iddynt i gyd os gallwn. Galwaf ar Nick Ramsay.

14:38 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

May I thank the Minister for her statement this afternoon, and for advanced notice of the budget bundle? However, I received it only 10 minutes ago, so forgive me if I am not fully versed with every aspect of the agreement.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma, ac am roi rhybudd ymlaen llaw o fwndel y gyllideb. Fodd bynnag, dim ond 10 munud yn ôl y cefais ef, felly maddeuwch imi os nad wyf yn gwbl hyddysg â phob agwedd ar y cytundeb.

Of course, we have also had news today of the eagerly awaited deal with the Liberal Democrats, complete with costed pre-election Brecon and Radnorshire and Cardiff Central spending plans and feasibility studies. It is always good to see the greater good prevail in this Chamber.

Wrth gwrs, rydym hefyd wedi cael clywed heddiw am y fargen hir ddisgwyliedig â'r Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n cynnwys cynlluniau gwario ac astudiaethau dichonoldeb cyn-etholiad wedi'u costio ar gyfer Brycheiniog a Sir Faesyfed a Chanol Caerdydd. Mae bob amser yn dda gweld pethau sydd er budd pawb yn ennill y dydd yn y Siambr hon.

Of course, difficult economic times mean that difficult decisions have to be made, as the Minister for finance has said—in this case, mainly as a result of the huge debt accumulated by the former UK Labour Government. [Interruption.] I was not blaming you—I was blaming your colleagues in Westminster.

Wrth gwrs, mae cyfnod economaidd anodd yn golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, fel y dywedodd y Gweinidog cyllid—yn yr achos hwn, yn bennaf o ganlyniad i'r ddyled enfawr a gronnodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU. [Torri ar draws.] Nid oeddwn yn eich beio chi—beio eich cydweithwyr yn San Steffan oeddwn i.

As has been said so often, this is about priorities. Minister, the key priority of any Welsh Government should be the NHS. You have today announced a limited amount of funding going towards the NHS, which we do welcome, but why has it taken so long, and why does your Government still refuse to protect the health budget? That protection has happened in England since 2010. It should have happened here. You have refused resolutely to do it, and, by your not going down the line of protection, the health budget here does not have the same guarantees of funding moving into the future as it does today. Why will you not change course on that?

Fel y dywedwyd mor aml, mae hyn yn fater o flaenoriaethau. Weinidog, dylai fod y GIG yn flaenoriaeth allweddol i unrhyw Lywodraeth Cymru. Heddiw, rydych wedi cyhoeddi swm cyfyngedig o gyllid i fynd tuag at y GIG, ac rydym yn croesawu hynny, ond pam mae wedi cymryd cyhyd, a pham mae eich Llywodraeth yn dal i wrthod diogelu'r gyllideb iechyd? Mae'r diogelu hwnnw wedi digwydd yn Lloegr ers 2010. Dylai fod wedi digwydd yma. Rydych wedi gwrthod yn bendant a gwneud hynny, a, gan nad ydych am ddilyn llwybr diogelu, nid oes gan y gyllideb iechyd yma yr un sicrwydd o gyllid wrth symud tua'r dyfodol ag sydd ganddi heddiw. Pam na wneuch chi newid eich meddwl am hynny?

Secondly, I asked the First Minister earlier about a cancer treatment fund here. We still have no commitment to a cancer treatment fund in Wales, despite ongoing calls from Assembly Members from my party, from members of the public and from patients. Everyone is calling for a cancer treatment fund out there and yet there is still no commitment. I am sure that the £5 million going to Llandrindod Wells, to the memorial hospital in Kirsty Williams's constituency, will be welcomed, both by Kirsty Williams and by patients using it—[Interruption.]

Yn ail, gofynnais i'r Prif Weinidog yn gynharach ynglŷn â chronfa triniaeth cancer yma. Rydym yn dal i fod heb ymrwymiad i gronfa triniaeth cancer yng Nghymru, er gwaethaf galwadau parhaus gan Aelodau'r Cynulliad o fy mhlaid i, gan aelodau'r cyhoedd a chan gleifion. Mae pawb allan yna'n galw am gronfa triniaeth cancer ac eto nid oes ymrwymiad o hyd. Rwyf yn siŵr y caiff y £5 miliwn sy'n mynd i Landrindod, i'r ysbyty coffa yn etholaeth Kirsty Williams, ei groesawu, gan Kirsty Williams a gan y cleifion sy'n ei ddefnyddio—[Torri ar draws.]

14:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Order, order. Trefn, trefn.

14:40 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We will not begrudge them that— Ni wnawn warafun hynny iddynt—

14:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Order, order. Sorry, Nick Ramsay. Andrew R.T. Davies, this is your spokesperson speaking. The least you can do is listen to him—and the rest of you. Trefn, trefn. Mae'n ddrwg gennyf, Nick Ramsay. Andrew R.T. Davies, eich llefarydd chi sy'n siarad. Y lleiaf y gallwch ei wneud yw gwranddo arno—a'r gweddill ohonoch.

14:40 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
That £5 million would have gone a long way towards providing a very effective cancer treatment fund here in Wales. So, why has that not been prioritised by your Government? Byddai'r £5 miliwn hwnnw wedi mynd yn bell tuag at ddarparu cronfa triniaeth cancer effeithiol iawn yma yng Nghymru. Felly, pam nad yw eich Llywodraeth wedi blaenoriaethu hynny?

If, as I imagine, we are not going to get any changes now, or any of these things that we are calling for, could you tell us what preventative spending measures you have put in place to alleviate at least some of the demands on our health service, because we know all too well that preventative spending is, in many ways, as important as actually dealing with the problems once they happen?

Os, fel yr wyf yn dychmygu, nad ydym yn mynd i gael dim newidiadau nawr, na dim o'r pethau hyn yr ydym yn galw amdanynt, a allech chi ddweud wrthym pa fesurau gwariant ataliol yr ydych wedi'u rhoi ar waith i liniaru o leiaf rai o'r gofynion ar ein gwasanaeth iechyd, oherwydd gwyddom yn dda iawn fod gwariant ataliol, mewn llawer o ffyrdd, yr un mor bwysig â datrys y problemau mewn gwirionedd ar ôl iddynt ddigwydd?

Last year, we saw the National Health Service Finance (Wales) Bill, which allows health boards to plan over three years. This is a welcome move, but it does come with risks and we need to see a change to the budget process to recognise that. Will you tell us how you are ensuring greater transparency over health budgets since the Bill became an Act?

Y llynedd, gwelsom Fil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), sy'n caniatáu i fyrrdau iechyd gynllunio dros dair blynedd. Mae hwn yn gam i'w groesawu, ond mae'n dod â risgiau ac mae angen inni weld newid i broses y gyllideb i gydnabod hynny. A wnewch chi ddweud wrthym sut yr ydych yn sicrhau mwy o dryloywder dros gyllidebau iechyd ers i'r Bil ddod yn Ddeddf?

In relation to the budget for the economy, it is, of course, essential that the Welsh Government recognises the potential of small and medium-sized businesses and the Government must do all it can to support the Welsh economy and create the conditions needed for increased enterprise in Wales. That is why we on this side of the Chamber have been calling for greater support, taking small businesses out of business rates altogether. Once again, your budget has not recognised that. Will you look again at the needs of small businesses and the potential benefits of taking businesses in Wales—our smallest businesses—out of these business rates so that they can invest in their staffing, invest in training and invest in the future?

O ran y gyllideb ar gyfer yr economi, mae, wrth gwrs, yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod potensial busnesau bach a chanolig ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi economi Cymru a chreu'r amodau sydd eu hangen ar gyfer mwy o fenter yng Nghymru. Dyna pam yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambwr wedi bod yn galw am fwy o gymorth, i ddileu ardrethi busnes i fusnesau bach yn gyfan gwbl. Unwaith eto, nid yw eich cyllideb wedi cydnabod hynny. A wnewch chi edrych eto ar anghenion busnesau bach a'r manteision posibl o ddileu'r ardrethi busnes hyn i fusnesau yng Nghymru—ein busnesau lleiaf—fel y gallant fuddsoddi yn eu staff, buddsoddi mewn hyfforddiant a buddsoddi yn y dyfodol?

On the subject of capital, I must mention the Lib Dems' success in getting the Welsh Government to kick the construction date of the new M4 down the road to 2016, although only to the date when construction was due to start anyway, as I understand it; I think you have been conned there, but I will leave that to one side. Minister, given the reaffirmation of the proposed start date, may I ask you whether you will now take the time to fully evaluate the cost and value for money of the chosen black route scheme relative to other potential solutions? You will be aware that many Members and an Assembly committee have major concerns about the affordability and environmental impact of the Welsh Government's new M4 proposals that have never been properly addressed. You talk about scrutiny: let us have proper scrutiny. We now have some time to have that scrutiny. Will you also give more details about the funding for the scheme? We know that £0.5 billion or so is being allowed under powers by the UK Government for a solution to the Brynglas tunnels problem, but what about further funding? I have asked the Welsh Government for this and you have not been forthcoming on it in the past.

Finally—I know that time is short, Presiding Officer—at the risk of sounding like a broken record, are you now in a position to confirm any progress in terms of public-private partnerships and tax increment financing, things that have been raised by my predecessor, Paul Davies, with you over a number of years now but on which we have never had proper answers from you? What about Cardiff Airport? Don Peebles has said that that will require ongoing revenue costs. What are those costs? Where are they coming from? If the First Minister says that that is wrong, then will you explain to us why it is that people like Don Peebles believe that there will be ongoing costs and why you are not recognising that properly?

14:44

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I have to give Nick Ramsay a bit of a probationary period, I have to say, back in his role as opposition finance spokesperson, because he clearly found it very difficult to find things to question me on in relation to this statement. He certainly did welcome the additional spend in the health service, although reluctantly, I have to say. That is what is so extraordinary from that side of the Chamber—that reluctance and begrudging recognition of the £425 million that I am announcing. Out there, I think there is going to be a much stronger response. I have to say also, to look over the border for a moment, which I recognise is important to do to put the record straight, that I was interested to read in 'The Times' last week about the £500 million deficit in many hospitals in England, in terms of the UK Government's management of the NHS. I also have to say how concerned I am about where on earth the money is going to come from, given that the Chancellor, George Osborne, announced yesterday that he is going to find another £26 billion of cuts. Where is that going to come from? He could only actually find £3 billion yesterday, and that came from the poorest people in Wales, in terms of welfare reform cuts.

O ran cyfalaf, mae'n rhaid imi sôn am lwyddiant y Democratiaid Rhyddfrydol wrth berswadio Llywodraeth Cymru i ohirio dyddiad adeiladu'r M4 newydd tan 2016, er mai dim ond tan y dyddiad pan oedd y gwaith adeiladu i fod i ddechrau beth bynnag, fel yr wyf ar ddeall; rwyf yn credu eich bod wedi cael eich twyllo yn hynny o beth, ond gadawaf hynny o'r neilltu. Weinidog, o ystyried ailddatgan y dyddiad dechrau arfaethedig, a gaf i ofyn ichi a wnewch chi yn awr gymryd yr amser i werthuso'n llawn cost a gwerth am arian y cynllun llwybr du a ddewiswyd o'i gymharu â datrysiadau posibl eraill? Byddwch yn ymwybodol bod gan lawer o Aelodau ac un o bwyllgorau'r Cynulliad bryderon mawr am fforddiadwyedd ac effaith amgylcheddol cynigion M4 newydd Llywodraeth Cymru nad ydynt erioed wedi cael sylw priodol. Rydych yn sôn am graffu: dewch inni gael craffu priodol. Erbyn hyn mae gennym rywfaint o amser i wneud y gwaith craffu hwnnw. A wnewch chi hefyd roi mwy o fanylion am y cyllid ar gyfer y cynllun? Gwyddom fod tua £0.5 biliwn yn cael ei ganiatáu o dan bwerau gan Lywodraeth y DU ar gyfer ateb i broblem twnelau Brynglas, ond beth am gyllid pellach? Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am hyn ac nid ydych wedi bod yn fodlon ateb yn y gorffennol.

Yn olaf—gwn fod amser yn brin, Lywydd—er bod perygl imi swnio fel record wedi torri, a ydych chi'n awr mewn sefyllfa i gadarnhau unrhyw gynnydd o ran partneriaethau cyhoeddus-preifat ac ariannu drwy gynyddrannau treth, pethau sydd wedi cael eu codi gan fy rhagflaenydd, Paul Davies, gyda chi dros nifer o flynyddoedd erbyn hyn, ond nad ydym erioed wedi cael atebion priodol gennych amdanynt? Beth am Faes Awyr Caerdydd? Mae Don Peebles wedi dweud y bydd angen costau refeniw parhaus arno. Beth yw'r costau hynny? O ble y maen nhw'n dod? Os yw'r Prif Weinidog yn dweud bod hynny'n anghywir, a wnewch chi esbonio inni pam mae pobl fel Don Peebles yn credu y bydd costau parhaus a pham nad ydych chi'n cydnabod hynny'n briodol?

Wel, mae'n rhaid imi roi ychydig o gyfnod prawf i Nick Ramsay, mae'n rhaid imi ddweud, yn ôl yn ei swyddogaeth fel llefarydd cyllid yr wrthblaid, oherwydd mae'n amlwg ei fod wedi'i chael yn anodd iawn dod o hyd i bethau i fy holi amdanynt ynglŷn â'r datganiad hwn. Roedd yn sicr yn croesawu'r gwariant ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd, er yn anfoddog, rhaid imi ddweud. Dyna beth sydd mor rhyfeddol o'r ochr honno i'r Siambr—yr amharodrwydd a'r gydnabyddiaeth anfoddog i'r £425 miliwn yr wyf yn ei gyhoeddi. Ymysg y cyhoedd, rwyf yn credu y ceir ymateb llawer cryfach. Rhaid imi ddweud hefyd, i edrych dros y ffin am eiliad—rwyf yn cydnabod ei bod yn bwysig gwneud hynny i egluro'r sefyllfa—fy mod wedi darllen â diddordeb stori yn 'The Times' yr wythnos diwethaf am y diffyg o £500 miliwn mewn llawer o ysbytai yn Lloegr, o ran sut y mae Llywodraeth y DU yn rheoli'r GIG. Mae'n rhaid imi ddweud hefyd pa mor bryderus yr wyf ynghylch o ble yn y byd y daw'r arian, o gofio bod y Canghellor, George Osborne, wedi cyhoeddi ddoe ei fod yn mynd i ddod o hyd i £26 biliwn arall o doriadau. O ble y bydd hynny'n dod? Dim ond £3 biliwn y gallai ddod o hyd iddo ddoe mewn gwirionedd, a daeth hwnnw oddi wrth y bobl dlotaf yng Nghymru, drwy'r toriadau diwygio lles.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



You also have to get your facts right, Nick, in terms of the cancer drugs fund. You talked about the cancer treatment fund. We are very proud of our cancer treatment fund and our cancer treatment levels in Wales. However, you must surely welcome the fact that the all-Wales medicines strategy group has approved the use of Abraxane with the NHS for the treatment of metastatic pancreatic cancer. We are the first to do that, in terms of that appraisal and the Minister's support for it.

I want to draw attention to a very important point that you made in your questions, just very briefly, about preventative spending. This is the heart of my draft budget, Nick Ramsay. I hope that you will, again, through scrutiny, draw opportunities to look at this point. In terms of preventative spend, this is how we can ensure that we are allocating our funding—reduced as a result of your Government's cuts to our budget—to safeguard the future health of children and young people, for example through continuing to invest in our immunisation and vaccination programmes. There will be £17.6 million next year to support programmes such as flu vaccinations for children and shingles vaccinations for older people. It is also about investing in education: £4.5 million to support children to develop excellent literacy and numeracy skills. In terms of preventative action and equality impacts, we have allocated a £4.1 million resource and £1 million in capital to support victims of violence, domestic abuse and sexual violence. We are protecting those budgets and maintaining budgets, for example to support the youth crime prevention fund. This is about our priorities, in terms of this budget, and how we are ensuring that we are deciding what those priority lines will be in our budget.

I am sure that you will welcome our allocation of capital in this budget. I have to say that that capital allocation includes £37 million investment in housing, £40 million in support of transport infrastructure schemes, £10 million for next-generation broadband, £5 million for a new green growth fund, and also £3 million for Cardiff Airport route development. Of course we cannot fund revenue, but of course we can provide support in terms of capital stimulus. These are many of the things that your Members and leader have been calling for.

Finally, in terms of supporting business, Nick Ramsay, my announcement of £5 million to provide support for Welsh small and medium-sized enterprises through the Finance Wales capital growth fund will, of course, make a difference to business in Wales.

Mae'n rhaid i chi hefyd gael eich ffeithiau'n gywir, Nick, o ran y gronfa cyffuriau cancer. Soniasoch am y gronfa triniaeth cancer. Rydym yn falch iawn o'n cronfa triniaeth cancer a'n lefelau triniaeth cancer yng Nghymru. Fodd bynnag, does bosib nad ydych yn croesawu'r ffaith bod grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan wedi cymeradwyo defnyddio Abraxane gyda'r GIG i drin cancer metastatig y pancreas. Ni yw'r cyntaf i wneud hynny, o ran y gwerthusiad hwnnw a chefnogaeth y Gweinidog iddo.

Hoffwn dynnu sylw at bwynt pwysig iawn a wnaethoch yn eich cwestiynau, yn fyr iawn, am wariant ataliol. Mae hyn yn ganolog i fy nghyllideb ddrafft, Nick Ramsay. Rwyf yn gobeithio y gwnewch, unwaith eto, drwy graffu, lunio cyfleoedd i edrych ar y pwynt hwn. O ran gwariant ataliol, dyma sut y gallwn sicrhau ein bod yn dyrannu ein cyllid—sydd wedi'i leihau o ganlyniad i doriadau eich Llywodraeth chi i'n cyllideb—i ddiogelu iechyd plant a phobl ifanc yn y dyfodol, er enghraifft, drwy barhau i fuddsoddi yn ein rhaglenni imiwneiddio a brechu. Bydd £17.6 miliwn y flwyddyn nesaf i gefnogi rhaglenni megis brechiadau fflw i blant a brechiadau'r eryr i bobl hŷn. Mae hefyd yn fater o fuddsoddi mewn addysg: £4.5 miliwn i gefnogi plant i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd rhagorol. O ran gweithredu ataliol ac effeithiau ar gydraddoldeb, rydym wedi dyrannu adnodd gwerth £4.1 miliwn ac £1 miliwn mewn cyfalaf i gefnogi dioddefwyr trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym yn diogelu'r cyllidebau hynny ac yn cynnal cyllidebau, er enghraifft i gefnogi'r gronfa atal troseddau ieuenctid. Mae hyn yn ymwneud â'n blaenoriaethau ni, o ran y gyllideb hon, a sut yr ydym yn sicrhau ein bod yn penderfynu beth fydd y llinellau blaenoriaeth hynny yn ein cyllideb.

Rwyf yn siŵr y gwnewch groesawu ein dyraniad cyfalaf yn y gyllideb hon. Mae'n rhaid imi ddweud bod y dyraniad cyfalaf hwnnw'n cynnwys buddsoddiad o £37 miliwn mewn tai, £40 miliwn i gefnogi cynlluniau seilwaith trafndiaeth, £10 miliwn ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf, £5 miliwn ar gyfer cronfa twf gwyrdd newydd, a hefyd £3 miliwn i ddatblygu llwybrau Maes Awyr Caerdydd. Wrth gwrs na allwn ni ariannu refeniw, ond wrth gwrs, gallwn ddarparu cefnogaeth ar ffurf ysgogiad cyfalaf. Mae'r rhain yn llawer o'r pethau y mae eich Aelodau a'ch arweinydd wedi bod yn galw amdanynt.

Yn olaf, o ran cefnogi busnes, Nick Ramsay, bydd fy nghyhoeddiad o £5 miliwn i ddarparu cymorth i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru drwy'r gronfa twf cyfalaf Cyllid Cymru, wrth gwrs, yn gwneud gwahaniaeth i fusnesau yng Nghymru.

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I obviously support the emphasis that you are putting on infrastructure skills and support for the vulnerable and, in particular, the £20 million for investing to save. I obviously welcome the ongoing support for Flying Start and note that you have highlighted the visit to the Happy Days Playgroup in Adamsdown in my constituency, where we heard how that early intervention enables children who would otherwise end up in special schools to be included in normal, mainstream education, which is a huge saving. I want to know how that learning from those interventions is being spread out across Wales so that we are massively reducing the number of children who are being educated in special schools—only those who absolutely need that level of support.

Secondly, while I welcome the £425 million for the NHS over this year and next, I would like some assurances that this is not just being used for business as usual. You made some reference to that in your statement. However, I note the sickness absence rates for NHS staff for the last quarter available, and the difference between the Welsh ambulance trust, at over 8%, and Velindre staff, at 3.7%, and I want to be assured that this extra money is not simply going to be used to paper over poor management policies.

Weinidog, rwyf yn amlwg yn cefnogi'r pwyslais yr ydych yn ei roi ar sgiliau seilwaith a chymorth i bobl agored i niwed ac, yn benodol, yr £20 miliwn ar gyfer buddsoddi i arbed. Rwyf yn amlwg yn croesawu'r cymorth parhaus i Ddechrau'n Deg ac yn nodi eich bod wedi tynnu sylw at yr ymweliad â Grŵp Chwarae Happy Days yn Adamsdown yn fy etholaeth i, lle y clywsom sut y mae'r ymyrraeth gynnar honno'n galluogi plant a fyddai fel arall mewn ysgolion arbennig yn y pen draw, i gael eu cynnwys mewn addysg normal, brif ffrwd, sy'n arbediad enfawr. Hoffwn wybod sut y caiff yr hyn a ddysgir o'r ymyraethau hynny ei ledaenu ar draws Cymru i greu lleihad aruthrol yn nifer y plant sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion arbennig—dim ond y rhai sydd yn bendant ag angen y lefel honno o gefnogaeth.

Yn ail, er fy mod yn croesawu'r £425 miliwn i'r GIG yn ystod y flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf, hoffwn gael peth sicrwydd nad dim ond ar gyfer busnes fel arfer y caiff ei ddefnyddio. Gwnaethoch ryw gyfeiriad at hynny yn eich datganiad. Fodd bynnag, nodaf y cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ymysg staff y GIG yn y chwarter diwethaf sydd ar gael, a'r gwahaniaeth rhwng ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru, sydd dros 8%, a staff Felindre, sy'n 3.7%, a hoffwn gael sicrwydd y caiff yr arian ychwanegol hwn ei ddefnyddio i wneud mwy na dim ond papuro dros bolisiau rheoli gwael.

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Jenny Rathbone for drawing attention to the very important visit that we made together to the playgroup in Adamsdown, in her constituency. It is about outcomes, is it not? The early intervention—the investment that we are putting in to Flying Start, which is of course being carefully evaluated—has to bear fruit in terms of the impact that it has on those children's educational chances. Of course, that is followed through very clearly from the educational opportunities that Flying Start has given in the early intervention. I also say that it is very important that, as a result of our budget agreement, we will also have that uplift in the early years, in terms of the foundation phase, because of the pupil deprivation grant. We have to target our scarce funding at those children who most need it in terms of breaking the link between poverty and educational attainment, in which direction, of course, our Minister has so firmly steered his budget.

We must also recognise that this is a reforming budget and, as far as health is concerned, it is very clearly a reforming budget. Look at the Nuffield report—and I know that the Minister will remind you of this. That concluded that the NHS in Wales will continue to be affordable in future if it continues to reform and reshape services. That is the message from Nuffield: a sustainable NHS is within our grasp, provided that we make those necessary improvements on the back of the additional investment that we are making. So, we are responding to the Nuffield challenge; the health service now has to respond to our challenge. The health service is at the heart of our budget proposals, and we are providing local health boards with the resources to meet the funding gaps, so they must undertake the reforms.

Diolch i Jenny Rathbone am dynnu sylw at yr ymweliad pwysig iawn a wnaethom gyda'n gilydd â'r grŵp chwarae yn Adamsdown, yn ei hetholaeth hi. Onid canlyniadau sy'n bwysig? Mae'n rhaid i'r ymyrraeth gynnar—y buddsoddiad yr ydym yn ei roi i mewn i Dechrau'n Deg, sydd wrth gwrs yn cael ei werthuso'n ofalus—ddwyn ffrwyth o ran yr effaith a gaiff ar gyfleoedd addysgol y plant hynny. Wrth gwrs, mae hynny'n dilyn yn glir iawn o'r cyfleoedd addysgol y mae Dechrau'n Deg wedi'u rhoi yn yr ymyrraeth gynnar. Rwyf hefyd yn dweud ei bod yn bwysig iawn, o ganlyniad i'n cytundeb cyllideb, y byddwn hefyd yn cael yr ymgodiad hwnnw yn y blynyddoedd cynnar, o ran y cyfnod sylfaen, oherwydd y grant amddifadedd disgyblion. Mae'n rhaid inni dargedu ein harian prin at y plant hynny sydd fwyaf ei angen er mwyn torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrraedd i addysgol, sef y cyfeiriad, wrth gwrs, y mae ein Gweinidog wedi llywio ei gyllideb mor gadarn tuag ato.

Mae'n rhaid inni gydnabod hefyd bod hon yn gyllideb ddiwygio a, chyn belled ag y mae iechyd dan sylw, mae'n amlwg iawn yn gyllideb ddiwygio. Edrychwch ar adroddiad Nuffield—a gwn y gwnaiff y Gweinidog eich atgoffa o hyn. Daeth hwnnw i'r casgliad y bydd y GIG yng Nghymru yn parhau i fod yn fforddiadwy yn y dyfodol os bydd yn parhau i ddiwygio ac ail-lunio gwasanaethau. Dyna'r neges gan Nuffield: mae GIG cynaliadwy o fewn ein cyrraedd, cyn belled â'n bod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol hynny yn sgil y buddsoddiad ychwanegol yr ydym yn ei wneud. Felly, rydym ni'n ymateb i her Nuffield; mae'n rhaid i'r gwasanaeth iechyd ymateb i'n her ninnau nawr. Mae'r gwasanaeth iechyd wrth wraidd ein cynigion cyllideb, ac rydym yn darparu adnoddau i fyrddau iechyd lleol i lenwi'r bylchau ariannu, felly mae'n rhaid iddynt hwy wneud y diwygiadau.

Cyllideb a fydd yn crebachu gwasanaethau cyhoeddus yw hon. Dyna fwriad a nod y Canghellor, George Osborne, a dyna sy'n digwydd yng Nghymru hefyd. Mae Syr Bob Kerslake, pennaeth y gwasanaeth sifil yn y Deyrnas Unedig, yn honni y bydd y crebachu hwn yn parhau am bum mlynedd arall, ni waeth beth fo lliw'r Llywodraeth yn Llundain. Mae hwn yn ymosodiad ar bobl fregus, pobl ar ymylon cymdeithas, a phobl gyffredin. Mae pawb yn talu pris am wallgofrwydd y marchnadoedd arian, methiant y Llywodraeth Lafur flaenorol i'w rheoli, a Llywodraeth glymblaid yn Llundain sy'n ochri â'r da eu byd.

Rydym yn gweld y crebachu hwn yn ein cymunedau: rydym yn gweld llyfrgelloedd yn cau, canolfannau hamdden yn cau, a gwasanaethau bysiau a gwasanaethau sy'n cefnogi pobl yn diflannu o'n cymdeithas ac o'n cymunedau. Dyna'r cefndir, ac mae hynny'n cael ei gydnabod gan y Gweinidog.

What is interesting in this statement is that it states clearly that the block grant has been cut by 10%—or the equivalent of 10%—and yet every part of the statement talks of expansion, extra funding, and additional allocation. Additional to what, God knows, but that is the tone of the statement. So, what has been cut? Which services are contracting? Will the Minister outline the areas that will see a contraction in the next financial year?

Turning to health, we have obviously seen a huge push to shore up the health boards, including money that has been clawed back this year, in-year, and the cuts to many core areas of public expenditure. Could the Minister explain exactly what the percentage increase for health is in the next year, 2015-16, and what extra money has been allocated in-year of the total of £425 million that she mentioned?

Elderly care is one of the greatest areas of health service pressure, and demand is growing, we know that. The settlement for local government presents a clear risk of cuts to social services budgets. The Minister talks of an extra £10 million. That is in the context of a cut of £150 million to local authorities. What is going to give? Could the Minister clarify the future of funding for social services and social care?

Furthermore, we would welcome a statement on the intermediate care fund. It is essential that it be protected as part of health spending, and any such protection is welcomed, of course. So, could we have any assurances about future moves to integrate health and social care?

Will you confirm, Minister, that the Supporting People programme budget is to be cut by £5 million? Why is that not protected? That deals with the most vulnerable in society, and yet £5 million is to be cut from that small but essential programme. Therefore, does the Minister agree that the inevitable result of the budget will be the closure of community services, such as libraries and leisure centres, the contraction of bus services, and support for vulnerable people in the community?

This is a budget that will shrink public services. That is the intention and aim of the Chancellor, George Osborne, and that is what is happening in Wales, too. Sir Bob Kerslake, the head of the civil service in the United Kingdom, has claimed that this shrinkage will continue for a further five years, whatever the hue of the Government in London. This is an attack on vulnerable people, people at the periphery of society, and ordinary people. Everyone is paying a price for the madness of the financial markets, the failure of the previous Labour Government to control them, and the coalition Government in London that is siding with those who are already well-off.

We see this shrinkage effect in our communities: we see libraries closing, leisure centres closing, and bus services and services that support people disappearing from our society and our communities. That is the background to all of this, and that is acknowledged by the Minister.

Yr hyn sy'n ddiddorol yn y datganiad hwn yw ei fod yn nodi'n glir bod y grant bloc wedi cael ei dorri 10%—neu'r hyn sy'n cyfateb i 10%—ac eto mae pob rhan o'r datganiad yn sôn am ehangu, arian ychwanegol, a dyraniadau ychwanegol. Ychwanegol i beth, Duw a wŷr, ond dyna yw naws y datganiad. Felly, beth sydd wedi cael ei dorri? Pa wasanaethau sy'n crebachu? A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r meysydd a fydd yn crebachu yn y flwyddyn ariannol nesaf?

I droi at iechyd, rydym yn amlwg wedi gweld ymgyrch fawr i achub y byrddau iechyd, gan gynnwys arian sydd wedi'i adfachu eleni, yn ystod y flwyddyn, a'r toriadau i lawer o feysydd craidd gwariant cyhoeddus. A allai'r Gweinidog egluro beth yn union yw'r cynnydd canrannol ar gyfer iechyd yn y flwyddyn nesaf, 2015-16, a pha arian ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu yn ystod y flwyddyn o'r cyfanswm o £425 miliwn y soniodd amdano?

Mae gofal i'r henoed yn un o'r meysydd gwasanaeth iechyd sy'n wynebu'r pwysau mwyaf, ac mae galw'n tyfu, rydym ni'n gwybod hynny. Mae'r setliad ar gyfer llywodraeth leol yn peri risg amlwg o doriadau i gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Gweinidog yn sôn am £10 miliwn ychwanegol. Mae hynny yng nghyd-destun toriad o £150 miliwn i awdurdodau lleol. Beth sy'n mynd i fethu? A allai'r Gweinidog egluro dyfodol arian ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol?

Ar ben hynny, byddem yn croesawu datganiad am y gronfa gofal canolraddol. Mae'n hanfodol ei bod yn cael ei diogelu yn rhan o'r gwariant ar iechyd, a chaiff unrhyw ddiogelu o'r fath ei groesawu, wrth gwrs. Felly, a allem ni gael unrhyw sicrwydd am symudiadau yn y dyfodol tuag at integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol?

A wnewch chi gadarnhau, Weinidog, bod cyllideb y rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei thorri gan £5 miliwn? Pam nad yw honno wedi'i diogelu? Mae honno'n ymdrin â'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ac eto caiff £5 miliwn ei dorri o'r rhaglen fechan ond hanfodol honno. Felly, a yw'r Gweinidog yn cytuno mai canlyniad anochel y gyllideb fydd cau gwasanaethau cymunedol, megis llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, crebachu gwasanaethau bysiau, a chymorth i bobl agored i niwed yn y gymuned?

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Alun Ffred Jones for his questions on my statement. I want to start by thanking him for agreeing what a difficult situation we are in, in terms of the immense challenges that we face with a reducing budget. I remind Members of the stark situation that we are in: our budget for 2015-16 is nearly 10% lower in real terms than it was in 2010-11, which is £1.5 billion in real terms; the revenue budget is 8% lower in real terms than in 2010-11; the capital budget is 21% lower in real terms than in 2010-11, and 30% lower than it was at its peak in 2009-10. In addition to this, we are underfunded as well—we all, and certainly you, Alun Ffred, agree on that. On top of the 10% real-terms cut, we are also underfunded. You acknowledge the challenges of this budget, and I think that you also recognise that the difficult decisions that have been made are very much in line with you and your party's thinking in terms of priorities. I am very glad that we were able to find £10 million for social services.

If you look at the issues around health and social services, you will see the importance of the intermediate care fund for health and social care, for which that money is now being allocated in Wales. This extra £10 million for the following year will certainly be welcome in terms of the impact that it will have. The Minister for Public Services will make his statement next week on the settlement for local government in terms of the revenue support grant.

It is very important that we recognise, in terms of the impact of the cuts to the budget, that we are trying to assist not only the health service but also local government in terms of the pressures on local services, and recognise that we have protected that over the past three years, compared with the cuts made in England in terms of local government. You know that we have sought to protect local services. However, I also hope that Alun Ffred Jones and Plaid Cymru will recognise the importance of our investment today in the health service. I will not repeat again the message that comes from Nuffield. This is about investment and reform, and I know that you will be ensuring, in terms of scrutiny, an opportunity to look at this draft budget and at how that will be delivered.

Diolch i Alun Ffred Jones am ei gwestiynau am fy natganiad. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch iddo am gytuno ein bod mewn sefyllfa anodd, o ran yr heriau enfawr a wynebwn gyda chyllideb sy'n lleihau. Atgoffaf yr Aelodau o'r sefyllfa lwm yr ydym ynnddi: mae ein cyllideb ar gyfer 2015-16 bron i 10% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11, sef £1.5 biliwn mewn termau real; mae'r gyllideb referniw 8% yn is mewn termau real nag yn 2010-11; mae'r gyllideb gyfalaf 21% yn is mewn termau real nag yn 2010-11, a 30% yn is nag ydoedd pryd yr oedd ar ei uchaf yn 2009-10. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ein tanariannu hefyd—rydym i gyd, ac yn sicr rydych chi, Alun Ffred, yn cytuno â hynny. Ar ben y toriad 10% mewn termau real, rydym hefyd wedi ein tanariannu. Rydych yn cydnabod heriau'r gyllideb hon, ac rwyf yn meddwl eich bod hefyd yn cydnabod bod y penderfyniadau anodd sydd wedi eu gwneud yn cyd-fynd â'ch safbwynt chi a'ch plaid o ran blaenoriaethau. Rwyf yn falch iawn ein bod wedi gallu dod o hyd i £10 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Os edrychwch ar y materion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, fe welwch fod y gronfa gofal canolraddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig—dyna ble mae'r arian hwnnw nawr yn cael ei ddyrannu yng Nghymru. Bydd y £10 miliwn ychwanegol hwn ar gyfer y flyddyn ganlynol yn sicr yn cael croeso o ran yr effaith a gaiff. Bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud ei ddatganiad yr wythnos nesaf am y setliad ar gyfer llywodraeth leol o ran y grant cynnal referniw.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod, o ran effaith y toriadau i'r gyllideb, ein bod yn ceisio helpu nid yn unig y gwasanaeth iechyd, ond hefyd llywodraeth leol o ran y pwysau ar wasanaethau lleol, ac yn cydnabod ein bod wedi diogelu hynny dros y tair blynedd diwethaf, o'i gymharu â'r toriadau a wnaethpwyd yn Lloegr o ran llywodraeth leol. Rydych yn gwybod ein bod wedi ceisio amddiffyn gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn gobeithio y gwnaiff Alun Ffred Jones a Phlaid Cymru gydnabod pwysigrwydd ein buddsoddiad heddiw yn y gwasanaeth iechyd. Ni wnaif ailadrodd unwaith eto y neges sy'n dod gan Nuffield. Mae hyn yn fater o fuddsoddi a diwygio, a gwn y byddwch yn sicrhau, o ran craffu, cyfle i edrych ar y gyllideb ddrafft hon, ac ar sut y caiff ei chyflawni.

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for her statement. I will start by noting the Welsh Conservatives' opposition to the extension of Llandrindod hospital, and ask the Minister whether she agrees that that investment will save the Powys Teaching Local Health Board £520,000 per year because of the extra 6,500 out-patient appointments and 2,400 day surgery appointments. This money is well worth investing just to achieve that particular saving and to save the residents of Powys the inconvenience of having to travel across the border for their treatment.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Dechreuaf drwy nodi gwrthwynebiad Ceidwadwyr Cymru i estyniad ysbyty Llandrindod, a gofynnaf i'r Gweinidog a yw'n cytuno y bydd y buddsoddiad hwnnw'n arbed £520,000 y flyddyn i Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys oherwydd y 6,500 o apwyntiadau cleifion allanol a'r 2,400 o apwyntiadau meddygfa ddydd ychwanegol. Mae'n werth buddsoddi'r arian hwn dim ond i gyflawni'r arbediad penodol hwnnw ac i arbed trigolion Powys rhag yr anghyfleustra o orfod teithio dros y ffin i gael eu triniaeth.

Minister, in terms of the budget, I do not agree with everything that is in the budget or even how this budget is being delivered, and we will obviously have a debate on that in due course. However, I certainly welcome the important investment in this budget for young people and education and training through the extra money for the pupil deprivation grant, the investment in the under-fives, the extra 5,000 apprenticeships, which have been, effectively, funded because of the deal that we have made with you, and the concessionary fares scheme, all of which will benefit a large number of youngsters around Wales, and will help them to get work and training, and to go to their place of education. Minister, do you agree with me that this is a major benefit for the young people of Wales and that this should be a major priority for the Welsh Government for the remainder of this Assembly term?

I take it also that Nick Ramsay will welcome the budget agreement to prioritise the Gaer curve that will re-link Newport to the Valleys. Minister, do you agree that the capital investment here, which has come about because of our agreement, brings benefits to the whole of Wales irrespective of where that capital investment is based? I note that the road in Cardiff is not in Cardiff Central, as Nick Ramsay indicated, as it is actually in Cardiff South.

Minister, in terms of this budget, I have a couple of questions, if I may. I notice that there have been cuts in the Supporting People budget and, of course, there have been cuts in local government, on which we will no doubt have further details in due course. Could you give an indication of the work that is being done to mitigate those cuts, particularly in terms of Supporting People? What percentage cuts are in the budget and how will that money be applied to try to ensure that the most vulnerable are not impacted as badly as they could be as part of those cuts?

In terms of health and social service, Minister, can you give an indication as to how the extra £10 million that you have indicated for social services will be allocated? Will this be a direct grant to local government, will local government be required to spend it as an extension of the intermediate care fund or are there other ways in which you intend for that money to be spent?

Weinidog, o ran y gyllideb, nid wyf yn cytuno â phopeth sydd yn y gyllideb na hyd yn oed â sut y caiff y gyllideb hon ei darparu, a byddwn yn amlwg yn cael dadl am hynny maes o law. Fodd bynnag, rwyf yn sicr yn croesawu'r buddsoddiad pwysig yn y gyllideb hon ar gyfer pobl ifanc ac addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng yr arian ychwanegol ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion, y buddsoddiad mewn plant dan bump oed, y 5,000 o brentisiaethau ychwanegol, sydd wedi eu hariannu, i bob diben, oherwydd y fargen yr ydym wedi'i tharo gyda chi, a'r cynllun tocynnau teithio rhatach; bydd y rhain i gyd o fudd i nifer mawr o bobl ifanc ledled Cymru, ac yn eu helpu i gael gwaith a hyfforddiant, ac i fynd i'w man addysg. Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi bod hon yn fantais fawr i bobl ifanc Cymru ac y dylai hyn fod yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru am weddill tymor y Cynulliad hwn?

Rwyf yn cymryd hefyd y bydd Nick Ramsay yn croesawu'r cytundeb cyllideb i flaenoriaethu trofa Gaer a fydd yn ailgysylltu Casnewydd â'r Cymoedd. Weinidog, a ydych chi'n cytuno bod y buddsoddiad cyfalaf yma, sydd wedi digwydd oherwydd ein cytundeb, yn dod â manteision i Gymru gyfan ble bynnag y mae'r buddsoddiad cyfalaf wedi'i leoli? Nodaf nad yw'r ffordd yng Nghaerdydd yng Nghanol Caerdydd, fel y nododd Nick Ramsay; yn Ne Caerdydd y mae hi.

Weinidog, o ran y gyllideb hon, mae gennyf un neu ddau o gwestiynau, os caf. Sylwaf y bu toriadau yn y gyllideb Cefnogi Pobl ac, wrth gwrs, bu toriadau mewn llywodraeth leol, ac mae'n siŵr y cawn ragor o fanylion am y rheini maes o law. A allech chi roi syniad inni o'r gwaith sy'n cael ei wneud i liniaru'r toriadau hynny, yn enwedig o ran Cefnogi Pobl? Pa doriadau canrannol sydd yn y gyllideb a sut y caiff yr arian hwnnw ei ddefnyddio i geisio sicrhau nad yw'r toriadau hynny'n effeithio mor wael ag y gallent ar y bobl fwyaf agored i niwed?

O ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, Weinidog, a allwch chi roi syniad ynghylch sut y dyrennir y £10 miliwn ychwanegol yr ydych chi'n nodi ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol? Ai grant uniongyrchol i lywodraeth leol fydd hwn, a fydd yn ofynnol i lywodraeth leol ei wario fel estyniad o'r gronfa gofal canolraddol ynteu a ydych chi'n bwriadu i'r arian hwnnw gael ei wario mewn ffyrdd eraill?

15:01

## Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Peter Black for his questions. Of course, we agree with him as we did in drawing together this budget agreement, that investing in our young people and early intervention is critical in terms of the priorities of this draft budget. In terms of that investment, I have already referred to the importance of the investment in the pupil deprivation grant, particularly in uplifting those who are following on from Flying Start in disadvantaged circumstances into early years education and who will benefit from that investment.

Diolch i Peter Black am ei gwestiynau. Wrth gwrs, rydym yn cytuno ag ef fel y gwnaethom wrth lunio'r cytundeb cyllideb hwn, bod buddsoddi yn ein pobl ifanc ac ymyrryd yn gynnar yn hanfodol o ran blaenoriaethau'r gyllideb ddrafft hon. O ran y buddsoddiad hwnnw, rwyf eisoes wedi cyfeirio at bwysigrwydd y buddsoddiad yn y grant amddifadedd disgyblion, yn enwedig o ran ymgodi'r rheini sy'n symud ymlaen o Dechrau'n Deg dan amgylchiadau difreintiedig i addysg y blynyddoedd cynnar ac a fydd yn elwa ar y buddsoddiad hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is also important that we look at the difficult decisions that we have had to make in terms of this budget, which will be the subject of future scrutiny. I hope that Members across the Chamber welcome the fact that we have managed to bring this draft budget forward a week early to enable us to have that scrutiny. We have maintained our protection of Flying Start because we believe in its importance, and the evidence is clear regarding its importance to the children who benefit from the scheme, and this will double by 2015-16.

If we look at the Supporting People funding—this was raised by Alun Ffred Jones as well—it was protected as part of the budget preparations for this year. So, the impact of the reductions for 2015-16 has been cushioned as a result of the protection for this year. We are also looking at how we can realign funding with the areas of most need, and I know that Members will be aware of the importance of delivering such developments as Supporting People. We will continue to collaborate with the Supporting People national advisory board to manage a reduction in 2015-16.

The £10 million that we will put into the revenue support grant will be monitored very carefully; it will be monitored in terms of expenditure by local authorities in social services. That is going to have an impact, and it will assist and help in taking forward the beneficial impacts of the integrated intermediate health and social care fund.

On the capital investment that I am announcing today, I have already reminded Members today, and reminded Alun Ffred Jones in response to his earlier question, that we face a 21% cut in our capital programme. We are looking to innovative investment, and I am sure that Nick Ramsay will learn more about that as he takes his full place in the Finance Committee. I know that Peter Black will welcome not only the capital investment in the metro, which is key to the South Wales East Wales and South Wales Central regions, but the capital investment across the whole of Wales that is reflected in the budget agreement. Thank you, also, for putting the record straight on the preventative investment that we are making in Llandrindod Wells hospital.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn edrych ar y penderfyniadau anodd yr ydym wedi gorfod eu gwneud ynglŷn â'r gyllideb hon, a fydd yn destun craffu yn y dyfodol. Rwyf yn gobeithio y bydd Aelodau ar draws y Siambwr yn croesawu'r ffaith ein bod wedi llwyddo i ddod â'r gyllideb ddrafft hon ymlaen wythnos yn gynnar er mwyn ein galluogi i gael y craffu hwnnw. Rydym wedi parhau i ddiogelu Dechrau'n Deg am ein bod yn credu ei fod yn bwysig, ac mae'r dystiolaeth yn glir ynghylch ei bwysigrwydd i'r plant sy'n elwa ar y cynllun, a bydd hyn yn dyblu erbyn 2015-16.

Os edrychwn ar y cyllid Cefnogi Pobl—codwyd hyn gan Alun Ffred Jones hefyd—roedd wedi'i ddiogelu yn rhan o baratodau'r gyllideb ar gyfer eleni. Felly, mae effaith y gostyngiadau ar gyfer 2015-16 wedi'i lleddfu o ganlyniad i ddiogelu ar gyfer eleni. Rydym hefyd yn edrych ar sut y gallwn ad-drefnu ariannu ar gyfer y meysydd mwyaf anghenus, a gwn y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o bwysigrwydd darparu datblygiadau fel Cefnogi Pobl. Byddwn yn parhau i gydweithio â bwrdd cynghori cenedlaethol Cefnogi Pobl i reoli gostyngiad yn 2015-16.

Caiff y £10 miliwn y byddwn yn ei roi yn y grant cynnal reffeniw ei fonitro'n ofalus iawn; caiff ei fonitro o ran gwariant gan awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol. Bydd hynny'n cael effaith, a bydd yn cynorthwyo ac yn helpu wrth fwrw ymlaen ag effeithiau buddiol y gronfa iechyd canolraddol a gofal cymdeithasol integredig.

O ran y buddsoddiad cyfalaf yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw, rwyf eisoes wedi atgoffa'r Aelodau heddiw, ac wedi atgoffa Alun Ffred Jones mewn ymateb i'w gwestiwn cynharach, ein bod yn wynebu 21% o doriad yn ein rhaglen gyfalaf. Rydym yn edrych ar fuddsoddi arloesol, ac rwyf yn siŵr y gwnaiff Nick Ramsay ddysgu mwy am hynny wrth iddo gymryd ei le llawn ar y Pwyllgor Cyllid. Gwn y bydd Peter Black yn croesawu nid yn unig y buddsoddiad cyfalaf yn y metro, sy'n allweddol i ranbarthau Dwyrain De Cymru a Chanol De Cymru, ond y buddsoddiad cyfalaf ledled Cymru gyfan sydd wedi'i adlewyrchu yn y cytundeb cyllideb. Diolch i chi, hefyd, am egluro'r gwirionedd o ran y buddsoddiad ataliol yr ydym yn ei wneud yn ysbyty Llandrindod.

15:04

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to ask three questions. First, I welcome the £37 million investment in housing. Previous investment in the help-to-buy schemes has supported the demand side of housing. Does the Minister believe that this investment on the supply side will redress the imbalance? Secondly, there has been a substantial real-terms cut of almost 10% in the total budget. Does the Minister agree that such cuts are bound to have an adverse effect on public services in Wales? Thirdly, there is a need to improve health in Wales—I do not think that anybody doubts that. Does the Minister agree that changing lifestyle by, for example, smoking cessation, the work being done by Designed to Smile, improving diet and improving physical activity rates is the key to improving health?

Hoffwn ofyn tri chwestiwn. Yn gyntaf, croesawaf y buddsoddiad o £37 miliwn mewn tai. Mae buddsoddiadau blaenorol yn y cynlluniau cymorth i brynu wedi cefnogi galw ym maes tai. A yw'r Gweinidog yn credu y bydd y buddsoddiad hwn ar yr ochr gyflenwi yn unioni'r anghydbwysedd? Yn ail, bu toriad sylweddol mewn termau real o bron i 10% yng nghyfanswm y gyllideb. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod toriadau o'r fath yn siŵr o gael effaith andwyol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? Yn drydydd, mae angen gwella iechyd yng Nghymru—nid wyf yn meddwl bod unrhyw un yn amau hynny. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod newid ffordd o fyw drwy, er enghraifft, roi'r gorau i ysmegu, y gwaith sy'n cael ei wneud gan Cynllun Gwên, gwella diet a gwella cyfraddau gweithgarwch corfforol yn allweddol i wella iechyd?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Mike Hedges, for those questions. Of course, it goes without saying that the 10% cut is having a real impact on our public services. That is why this has to be a draft budget about priorities and a draft budget that is about fairness. It is also a draft budget in which we are seeking to allocate our money where we know it is most needed in terms of not only the health service but supporting vulnerable people and disadvantaged communities. I think that the investment in housing I have announced today is important because it strongly aligns with our preventative agenda. Of course, it is also part of our programme for government in terms of our priorities. So, the £37 million capital includes £5 million for investment in this financial year, which boosts our capital investment in the housing sector across Wales by more than £344 million. Very importantly, it includes funding for the social housing grant. This is for affordable, social housing. Again, it goes back to our priorities—the social justice priorities of this Government. There will be £45 million to the social housing grant, again specifically targeted at providing smaller homes. Why is it targeted at small homes? It is because of the dreaded bedroom tax. However, we are prepared to help the people who are now displaced because of that bedroom tax, which a Labour Government will abolish when it achieves power next year. I know that that is supported by three parties in this Assembly, I am sure. It is important that it is not just about the help-to-buy scheme but about affordable housing and the social housing grant.

Diolch yn fawr iawn, Mike Hedges, am y cwestiynau yna. Wrth gwrs, mae'n amlwg bod y toriad o 10% yn cael effaith wirioneddol ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Dyna pam mae'n rhaid i hon fod yn gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â blaenoriaethau ac yn gyllideb ddrafft sy'n ymwneud a thegwch. Mae hefyd yn gyllideb ddrafft lle'r ydym yn ceisio dyrannu ein harian yn y manau y gwyddom y mae'r angen mwyaf, nid yn unig o ran y gwasanaeth iechyd ond o ran cefnogi pobl agored i niwed a chymunedau difreintiedig. Credaf fod y buddsoddiad mewn tai yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw yn bwysig gan ei fod yn cyd-fynd yn gryf â'n hagenda ataliol. Wrth gwrs, mae hefyd yn rhan o'n rhaglen lywodraethu o ran ein blaenoriaethau. Felly, mae'r £37 miliwn o gyfalaf yn cynnwys £5 miliwn i'w fuddsoddi yn y flwyddyn ariannol hon, sy'n rhoi hwb o fwy na £344 miliwn yn y buddsoddiad cyfalaf yn y sector tai ar draws Cymru. Yn bwysig iawn, mae'n cynnwys cyllid ar gyfer y grant tai cymdeithasol. Mae hyn ar gyfer tai fforddiadwy, cymdeithasol. Unwaith eto, mae'n mynd yn ôl at ein blaenoriaethau—blaenoriaethau cyfiawnder cymdeithasol y Llywodraeth hon. Bydd £45 miliwn ar gyfer y grant tai cymdeithasol, eto wedi'i dargedu'n benodol at ddarparu cartrefi llai. Pam mae'n cael ei dargedu at gartrefi bychain? Oherwydd y dreth ystafell wely echrudus. Fodd bynnag, rydym yn barod i helpu'r bobl sydd erbyn hyn wedi eu dadleoli oherwydd y dreth ystafell wely honno, y bydd Llywodraeth Lafur yn ei dileu pan ddaw i rym y flwyddyn nesaf. Gwn fod tair plaid yn y Cynulliad hwn o blaid hynny, rwyf yn siŵr. Mae'n bwysig nad dim ond y cynllun cymorth i brynu sy'n cael sylw yma, ond tai fforddiadwy a'r grant tai cymdeithasol hefyd.

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I congratulate the Minister on her budget. I particularly welcome her commitment to the maintenance of universal benefits, mentioning in particular concessionary fares and free prescriptions. These have helped to mitigate the worst evils of the coalition Government. Can she reaffirm her commitment to free breakfasts, which have been so successful for our children? I welcome her commitment to giving more money to the health service, but does she agree that extra funding to the health board should go along with improvement in the services in order that they may make themselves cheaper to deliver? For example, Cardiff and Vale is reviewing its services to older people in order to try to deal with older people nearer to their homes, which may in itself result in some cost savings. Finally, may I also particularly welcome the £2 million to go towards Gypsy and Traveller site programmes? Does she anticipate that, with the new duty on local authorities to provide sites, local authorities will be taking advantage of this grant? Does she have any indication of what the take-up might be?

Rwyf yn llongyfarch y Gweinidog ar ei chyllideb. Croesawaf yn benodol ei hymrwymiad i gynnal budd-daliadau cyffredinol, gan grybwyll yn benodol teithio rhatach a phresgripsiynau am ddim. Mae'r rhain wedi helpu i liniaru drygau gwaethaf y Llywodraeth glymblaid. A all hi gadarnhau unwaith eto ei hymrwymiad i'r brechwast am ddim, sydd wedi bod mor llwyddiannus ar gyfer ein plant? Rwyf yn croesawu ei hymrwymiad i roi mwy o arian i'r gwasanaeth iechyd, ond a yw'n cytuno y dylai cyllid ychwanegol i'r bwrdd iechyd fynd law yn llaw â gwella'r gwasanaethau i'w gwneud yn rhatach i'w darparu? Er enghraifft, mae Caerdydd a'r Fro yn adolygu ei wasanaethau i bobl hŷn er mwyn ceisio rhoi sylw i bobl hŷn yn nes at eu cartrefi, a all ynddo'i hun arwain at rai arbedion cost. Yn olaf, a gaf fi hefyd groesawu'n arbennig y £2 filiwn i fynd tuag at raglenni safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? A yw hi'n rhagweld, diolch i'r ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd, y bydd awdurdodau lleol yn manteisio ar y grant hwn? A oes ganddi unrhyw syniad o'r niferoedd a allai fanteisio arno?

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for those questions and assure her that free school breakfasts are included in the draft budget for next year. We are maintaining all of our universal benefits. Indeed, free school breakfasts are hugely successful and are already demonstrating that they tackle health inequalities in terms of providing nutritional breakfasts for some of the most disadvantaged children in Wales. Julie Morgan talks about the worst evils of the UK coalition Government. The worst evils are what we are trying to ameliorate in dealing with this 10% cut, which is tough, but we have to take on the challenge. I think it is about reform as well as spend, particularly in relation to health and social care. It is about us stimulating that reform. I would say that the invest-to-save programme, of which I am announcing another phase very shortly, has had a huge impact on changing the way that health boards are working with social services. We have seen that in your constituency and across Cardiff and Vale University Local Health Board with the Wyn campaign, particularly in terms of enabling people to stay in their own homes rather than being admitted to hospital. Also, I welcomed the review of elderly services, and that has to be based on the evidence, and, of course, the investment that we are putting into health and social care today.

Finally, I would also say that it is important that our priorities in terms of investment in Gypsy and Traveller sites are honoured. This is a draft budget that is about honouring our manifesto commitments and not just delivering and managerially delivering what we have to. It is about honouring our commitments to social justice and I believe that that includes the Gypsies and Travellers of Wales.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 15:10.*

Diolch i Julie Morgan am y cwestiynau yna; rwyf yn ei sicrhau bod brecwast ysgol am ddim wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym yn cynnal ein holl fudd-daliadau cyffredinol. Yn wir, mae brecwast am ddim mewn ysgolion yn hynod lwyddiannus ac eisoes yn dangos eu bod yn ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd drwy ddarparu brecwast maethlon i rai o'r plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae Julie Morgan yn sôn am ddrygau gwaethaf Llywodraeth glymblaid y DU. Y drygau gwaethaf yw'r hyn yr ydym yn ceisio eu lliniaru wrth ymdrin â'r toriad 10% hwn, sydd yn anodd, ond mae'n rhaid inni dderbyn yr her. Rwyf yn credu ei fod yn fater o ddiwygio yn ogystal â gwario, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen i ni ysgogi'r diwygiad hwnnw. Byddwn yn dweud bod y rhaglen buddsoddi i arbed, y byddaf yn cyhoeddi cam arall iddi'n fuan iawn, wedi cael effaith enfawr ar newid y ffordd y mae byrddau iechyd yn gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi gweld hynny yn eich etholaeth chi ac ar draws Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag ymgyrch Wyn, yn enwedig o ran galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty. Hefyd, rwyf yn croesawu'r adolygiad o wasanaethau i'r henoed, ac mae'n rhaid bod hynny yn seiliedig ar y dystiolaeth, ac, wrth gwrs, ar y buddsoddiad yr ydym yn ei wneud mewn iechyd a gofal cymdeithasol heddiw.

Yn olaf, byddwn hefyd yn dweud ei bod yn bwysig bod ein blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cydnabod. Mae hon yn gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â chydabod ymrwymadau ein maniffesto ac nid dim ond cyflwyno a chyflawni'n rheolaethol yr hyn y mae'n rhaid inni ei gyflawni. Mae'n ymwneud â chydabod ein hymrwymadau i gyfiawnder cymdeithasol ac rwyf yn credu bod hynny'n cynnwys Sipsiwn a Theithwyr Cymru.

*Sandy Mewies took the Chair at 15:10.*

**Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol**

I call on the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

**Statement: Learning in Digital Wales Programme Update**

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you. As we are now settling into the new academic year, I felt that it was appropriate to bring colleagues an update on the Learning in Digital Wales programme.

The successful delivery of Hwb is one of our key methods of supporting teaching and learning in Wales. It is a vital component of our strategy to raise standards and to combat the impact of poverty on educational attainment through the use of digital technology. I would like to begin by giving colleagues a very quick reminder of how the Hwb programme came into existence.

Diolch. Gan ein bod yn awr yn setlo i mewn i'r flwyddyn academaidd newydd, roeddwn yn teimlo ei bod yn briodol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'm cydweithwyr am y rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol.

Mae cyflwyno Hwb yn llwyddiannus yn un o'n dulliau allweddol o gefnogi dysgu ac addysgu yng Nghymru. Mae'n elfen hanfodol o'n strategaeth i godi safonau ac i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Hoffwn ddechrau drwy atgoffa fy nghydweithwyr yn gyflym iawn sut y daeth rhaglen Hwb i fodolaeth.



In September 2011, the Welsh Government commissioned an independent review of digital classroom teaching, setting up an external task and finish group. This group reported that digital technology could and would make a substantial difference to learner experiences and performance. The Welsh Government responded positively to the group's recommendations and I am pleased to tell you today that we are making excellent progress against the very ambitious targets that were set just two years ago.

Let us start with the basics: enabling access to Hwb and Hwb+. We have made a substantial investment in the Learning in Digital Wales programme, with a view to improving internet connectivity in schools. There are now over 1,100 schools across Wales connected at our recommended broadband speeds, and we are working tirelessly to ensure that the vast majority of schools, irrespective of their location, secure high-speed access to the internet.

In addition, over 90% of eligible schools now have excellent Wi-Fi coverage across all areas of their schools. We are also making excellent progress on the delivery of Hwb+ online learning platforms to schools. In fact, what we achieved during the last academic year was truly outstanding. Over 97% of schools across Wales now have their individual Hwb+ learning platforms, with 1,845 teachers attending Hwb+ training. We are currently reviewing our provisioning programme for additional user groups, such as parents and governors, and I will report on those in due course.

To further support the implementation and sustainability of the activities within the Learning in Digital Wales programme, in January this year local authorities and regional education consortia were provided with additional funding to ensure that they are able to embed these new digital learning technologies within their existing work programmes.

In February of this year, the Welsh Government awarded a contract to CDSM Interactive Solutions, a Swansea-based company, which has since been working with us to develop and refine Hwb, the national digital content repository. The first phase of this redevelopment is now complete, with the refreshed Hwb site being released on 15 August. The refinement of Hwb has brought new functionality and improved usability for teachers and learners across Wales. We are continuing to develop the functionality of Hwb, and things will go yet further. The next phase of the contract will deliver digital content creation tools, making it easier for teachers to create their own digital resources and to upload resources to the Hwb website.

Ym mis Medi 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o ddulliau addysgu digidol yn y dosbarth, a sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen allanol. Adroddodd y grŵp hwn y gallai ac y byddai technoleg ddigidol yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiadau a pherfformiad dysgwyr. Ymatebodd Llywodraeth Cymru'n gadarnhaol i argymhellion y grŵp ac mae'n dda gennyf ddweud wrthyf heddiw ein bod yn gwneud cynnydd rhagorol yn erbyn y targedau uchelgeisiol iawn a osodwyd gwta ddwy flynedd yn ôl.

Gadewch inni ddechrau â'r pethau sylfaenol: galluogi mynediad i Hwb a Hwb+. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, gyda'r bwriad o wella cysylltedd y rhyngwrwyd mewn ysgolion. Erbyn hyn mae dros 1,100 o ysgolion ledled Cymru'n cysylltu ar gyflymder band eang a argymhellir gennym, ac rydym yn gweithio'n ddiffino i sicrhau bod mwyafrif helaeth ein hysgolion, waeth ble y maent, yn gallu cysylltu'n gyflym â'r rhyngwrwyd.

Yn ogystal, mae gan dros 90% o'r ysgolion cymwys erbyn hyn signal Wi-Fi rhagorol ym mhob rhan o'r ysgol. Rydym hefyd yn gwneud cynnydd rhagorol o ran darparu llwyfannau dysgu ar-lein Hwb+ i ysgolion. Yn wir, mae'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn wirioneddol ragorol. Mae gan dros 97% o ysgolion ledled Cymru bellach eu llwyfannau dysgu Hwb+ eu hunain, ac mae 1,845 o athrawon yn cael hyfforddiant Hwb+. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein rhaglen ddarparu ar gyfer grwpiau defnyddwyr eraill, megis rhieni a llywodraethwyr, a byddaf yn adrodd ar y rheiny maes o law.

Er mwyn cynorthwyo ymhellach â gweithredu a chynaliadwyedd gweithgareddau'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, ym mis Ionawr eleni rhoddwyd arian ychwanegol i awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol i sicrhau eu bod yn gallu ymgorffori'r technolegau dysgu digidol newydd o fewn eu rhaglenni gwaith presennol.

Ym mis Chwefror eleni, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gcontract i CDSM Interactive Solutions, cwmni o Abertawe, sydd wedi bod yn gweithio gyda ni i ddatblygu a mireinio Hwb, y storfa genedlaethol ar gyfer cynnwys digidol. Mae cam cyntaf y gwaith ailddatblygu hwn bellach wedi'i gwblhau, a chafodd safle Hwb ar ei newydd wedd y ei ryddhau ar 15 Awst. Mae mireinio Hwb wedi dod ag ymarferoldeb newydd a defnyddioldeb gwell i athrawon a dysgwyr ledled Cymru. Rydym yn parhau i ddatblygu ymarferoldeb Hwb, a bydd pethau'n mynd ymhellach eto. Bydd cam nesaf y contract yn cyflenwi offer creu cynnwys digidol, gan ei gwneud yn haws i athrawon greu eu hadnoddau digidol eu hunain a lanlwytho adnoddau i wefan Hwb.

Of course, these developments do not stand alone. We are constantly looking at ways of combining streams of activity across the Department for Education and Skills in order to achieve maximum impact. The Hwb project is therefore closely aligned to our key curriculum priorities. For example, the Hwb team has recently developed an extensive suite of resources that align directly with the national literacy and numeracy framework. These materials offer hands-on classroom resources, designed to deliver against the various strands of the LNF while exploiting Hwb+ tools.

My department is also collaborating with a number of delivery partners and stakeholders to produce a comprehensive range of Programme for International Student Assessment support materials. We are creating a range of sample online PISA-style questions, which will be fully interactive, and will provide students with individual feedback based on their responses. These materials will be available to all authenticated Hwb users by the end of the autumn term.

You will hopefully be aware of our HwbMeet programme, which is a series of events that offer teachers an excellent opportunity to meet with external partners and to share examples of excellent digital practice. So far, the HwbMeet programme has directly engaged with almost 600 teachers, providing a truly practical method of bringing teachers on this digital journey with us.

In conjunction with the Hwb developments, we are ensuring a strong and continuous focus on e-safety. Earlier this year, we awarded a contract to South West Grid for Learning to deliver e-safety awareness-raising activities and to provide e-safety tools and resources for teachers, pupils and parents. This key aspect of Hwb is particularly important when considering the constant evolution of internet technologies and how we develop our young people into safe and effective digital citizens.

The Learning in Digital Wales programme also continues to provide funding to JISC and JANET to support the use of digital technology in post-16 settings. JISC is grant funded to enable people in further education and skills in the UK and Wales to perform at the forefront of international practice by exploiting digital technology fully. Our investment in JANET provides network connections to higher and further education institutions and supplies connections between the different campus sites of an institution.

I am also pleased to announce that we have just awarded a contract for the delivery of a series of computer programming workshops for pupils and teachers in secondary schools to Technocamps, which is based at Swansea University. Through this contract, we aim to improve the teaching of computing in secondary schools by encouraging teachers and learners to develop and apply programming skills.

Wrth gwrs, nid yw'r datblygiadau hyn yn sefyll ar eu pen eu hunain. Rydym yn chwilio'n gyson am ffyrdd o gyfuno ffyrddiau gweithgarwch ar draws yr Adran Addysg a Sgiliau er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. Felly, mae prosiect Hwb yn cyd-fynd yn agos â'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer y cwricwlwm. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae tîm Hwb wedi datblygu cyfres helaeth o adnoddau sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r fframwaith rhifedd a llythrennedd cenedlaethol. Mae'r deunyddiau hyn yn cynnig adnoddau dosbarth ymarferol, wedi'u cynllunio i gyflawni yn unol â gwahanol linyddau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol gan ddefnyddio offer Hwb+ ar yr un pryd.

Mae fy adran hefyd yn cydweithio â nifer o bartneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid i gynhyrchu ystod gynhwysfawr o ddeunyddiau ategol y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr. Rydym yn creu ystod o gwestiynau enghreifftiau ar-lein ar batrwm PISA, a fydd yn gwbl rhyngweithiol, ac yn darparu adborth unigol i fyfyrwyr yn seiliedig ar eu hymatebion. Bydd y deunyddiau hyn ar gael i bob un o ddefnyddwyr dilys Hwb erbyn diwedd tymor yr hydref.

Byddwch yn gwybod, rwyf yn gobeithio, am ein rhaglen CwrddHwb, cyfres o ddigwyddiadau sy'n cynnig cyfle gwych i gwrdd â phartneriaid allanol ac i rannu enghreifftiau o arfer digidol rhagorol. Hyd yma, mae rhaglen CwrddHwb wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â bron i 600 o athrawon, gan ddarparu dull gwirioneddol ymarferol o ddod ag athrawon ar y daith ddigidol gyda ni.

Ar y cyd â datblygiadau Hwb, rydym yn sicrhau bod pwyslais cryf a pharhaus ar e-ddiogelwch. Yn gynharach eleni, dyfarnasom gontract i Grid y De Orllewin ar gyfer Dysgu i ddarparu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o e-ddiogelwch ac i ddarparu offer ac adnoddau e-ddiogelwch i athrawon, disgyblion a rhieni. Mae'r agwedd allweddol hon ar Hwb yn arbennig o bwysig wrth ystyried esblygiad cyson technolegau'r rhyngwlad a sut i ddatblygu ein pobl ifanc i fod yn ddinasyddion digidol diogel ac effeithiol.

Mae'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol hefyd yn parhau i ddarparu cyllid i JISC a JANET i gefnogi defnydd o dechnoleg ddigidol mewn lleoliadau ôl-16. Mae JISC yn cael ei ariannu drwy grant i alluogi pobl mewn addysg bellach a sgiliau yn y DU a Chymru i berfformio yn rheng flaen arfer rhyngwladol drwy fanteisio'n llawn ar dechnoleg ddigidol. Mae ein buddsoddiad yn JANET yn darparu cysylltiadau rhwydwaith â sefydliadau addysg uwch a phellach ac yn darparu cysylltiadau rhwng gwahanol safleoedd ar gampws sefydliad.

Rwyf hefyd yn falch o gyhoeddi ein bod newydd ddyfarnu contract i gyflwyno cyfres o weithdai rhaglennu cyfrifiaduron i ddisgyblion ac athrawon mewn ysgolion uwchradd i Technocamps, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Abertawe. Drwy'r contract hwn, ein nod yw gwella'r ffordd y caiff cyfrifiadureg ei ddysgu mewn ysgolion uwchradd drwy annog athrawon a dysgwyr i ddatblygu a defnyddio sgiliau rhaglennu.

On 9 July, I attended the second annual national digital learning event, held here in Cardiff. The event is one of the recommendations fulfilled of the task and finish group and is part of a substantial programme of activity designed to develop digitally literate teachers and learners in Wales. At the event, I was delighted to see substantial evidence of the creative use of digital technology in our classrooms.

Due to the scale of the financial commitment associated with the Learning in Digital Wales programme, we are formally evaluating the implementation of the programme and the emerging impacts on both teachers and learners. Officials are in the process of commissioning an external evaluation and the outcomes will be reported on in due course.

In conclusion, I am confident that the Learning in Digital Wales programme will continue to go from strength to strength, assisting in transformation of teaching and learning practices across Wales.

Ar 9 Gorffennaf, bûm yn yr ail ddigwyddiad dysgu digidol cenedlaethol blynyddol, a gynhaliwyd yma yng Nghaerdydd. Mae'r digwyddiad hwn yn cyflawni un o argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ac mae'n rhan o raglen sylweddol o weithgareddau wedi'u cynllunio i ddatblygu athrawon a dysgwyr sy'n llythrennog yn ddigidol yng Nghymru. Yn y digwyddiad, roeddwn wrth fy modd o weld tystiolaeth sylweddol o ddefnyddio technoleg ddigidol mewn modd creadigol yn ein hystafelloedd dosbarth.

Oherwydd maint yr ymrwymiad ariannol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, rydym yn gwerthuso'n ffurfiol y ffordd y caiff y rhaglen ei rhoi ar waith a'r effeithiau sy'n dod i'r amlwg ar athrawon a dysgwyr. Mae swyddogion wrthi'n comisiynu gwerthusiad allanol ac adroddir ar y canlyniadau maes o law.

I gloi, rwyf yn hyderus y bydd y rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol yn parhau i fynd o nerth i nerth, ac yn helpu i drawsnewid arferion dysgu ac addysgu ledled Cymru.

15:18 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad Biography](#)

I will ask people to be as brief as they can and limit themselves to questions. If it will help, 'Chair' will do as my title. I call on the acting spokesperson for the Conservatives, Paul Davies.

Byddaf yn gofyn i bobl fod mor gryno ag y gallant a gofyn cwestiynau'n unig. Os bydd yn helpu, bydd 'Cadeirydd' yn gwneud y tro fel teitl i mi. Galwaf ar lefarydd dros dro'r Ceidwadwyr, Paul Davies.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:18 **Paul Davies** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Chair. First of all, I thank the Minister for his statement this afternoon and offer our broad support for the Learning in Digital Wales programme. I am sure that the Minister will agree with me that the digital environment is developing at a particularly fast pace, so it is important that teachers and learners are engaged and equipped when it comes to developing digital technology skills. However, I have a few questions on some of the points raised by the Minister this afternoon. I reiterate our support for Hwb and Hwb+, which he talks about extensively in his statement.

Diolch, Gadeirydd. Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma a chynnig ein cefnogaeth gyffredinol i'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi fod yr amgylchedd digidol yn datblygu'n arbennig o gyflym, felly mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu ag athrawon a dysgwyr ac yn rhoi'r offer iddynt i ddatblygu sgiliau technoleg ddigidol. Fodd bynnag, mae gennyf rai cwestiynau am rai o'r pwyntiau a godwyd gan y Gweinidog y prynhawn yma. Rwyf yn ailadrodd ein cefnogaeth i Hwb a Hwb+, y mae'n sôn yn helaeth amdanynt yn ei ddatganiad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

My first question is this: what guidance is Hwb issuing to teachers in relation to children with special educational needs, who are perhaps more vulnerable when it comes to using digital technology? I appreciate the delivery of e-safety, which the Minister refers to in his statement. I also appreciate that the Government is reviewing its provisioning programme for additional user groups such as parents and governors. Will this also include groups of children as well, or has guidance already been issued to children with special educational needs?

Fy nghwestiwn cyntaf yw hyn: pa ganllawiau y mae Hwb yn eu rhoi i athrawon mewn perthynas â phlant ag anghenion addysgol arbennig, sydd efallai'n fwy agored i niwed o ran defnyddio technoleg ddigidol? Rwyf yn cydnabod bod e-ddiogelwch, y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ato yn ei ddatganiad, yn cael ei gyflwyno. Rwyf hefyd yn cydnabod bod y Llywodraeth yn adolygu ei rhaglen ddarparu i grwpiau defnyddwyr eraill megis rhieni a llywodraethwyr. A fydd hyn hefyd yn cynnwys grwpiau o blant yn ogystal, neu a oes canllawiau eisoes wedi'u cyhoeddi i blant ag anghenion addysgol arbennig?

The Minister has referred to the digital classroom teaching task and finish group, which was chaired by Janet Hayward, which, among many other things, made some specific recommendations in relation to setting out a benchmark of the digital competencies and support needed by teachers. Can the Minister tell us, since that report, what discussions he has had specifically with teachers regarding digital competencies? Has that benchmark yet been set or is there is still some more work being done in that particular area? Also, what mechanisms has the Welsh Government put in place to monitor the effectiveness of the support offered to teachers to develop these competencies?

Minister, I welcome the idea of national digital collection. It makes much more sense, I think, to collate and share best practice online with other teachers. However, there have been calls to redirect funding from local sources and from print buying and to use them for all-Wales licensing and for the purchase of digital resources. Perhaps the Minister could update us on this specific recommendation by the task and finish group. Can he tell us what value-for-money analysis was made when redirecting funding? Has pooling resources saved money and, if so, how much?

There are, naturally, some external factors that must be taken into account when reviewing digital learning. Some areas of Wales, of course, have challenging broadband provision that can hinder digital learning. In his statement, the Minister confirms that 90% of eligible schools now have excellent Wi-Fi coverage across all areas of their school. Can the Minister therefore tell us what additional support the Welsh Government is offering to learning providers in areas where broadband may be a particular problem?

I also note the Minister's response to the ICT steering group earlier this year, in which he asked Professor Donaldson to consider the group's recommendations as part of the independent review of the curriculum and assessment arrangements, and that is something that I welcome. However, Professor Donaldson's review is a huge piece of work, looking at the entire curriculum. While I appreciate that any ICT reform must be joined up with the national curriculum, it is important that the momentum that has been created around ICT reform is not lost. Can the Minister, therefore, provide assurances that ICT will be given the proper amount of attention within this review, given the wealth of work that the Welsh Government has already undertaken in this particular area? Can he also tell us what specific discussions he has had with Professor Donaldson on ICT reform ahead of his review of the curriculum?

I can see that time is marching on, Chair. Therefore, may I once again thank the Minister for his statement this afternoon? We on this side of the Chamber are supportive of proposals to reform ICT in our schools and help to better equip future generations and, indeed, teaching staff with skills for the twenty-first century. I look forward to hearing more on the Welsh Government's work on this agenda in due course.

Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at y grŵp gorchwyl a gorffen dulliau addysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth, dan gadeiryddiaeth Janet Hayward, sydd, ymhlith llawer o bethau eraill, wedi gwneud argymhellion penodol mewn perthynas â phennu meincnod ar gyfer y cymwyseddau digidol a'r cymorth sydd ei angen ar athrawon. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau y mae wedi'u cael yn benodol ag athrawon ynghylch cymwyseddau digidol ers yr adroddiad hwnnw? A yw'r meincnod hwnnw wedi'i bennu eto neu a oes ychydig yn fwy o waith yn dal i gael ei wneud yn y maes arbennig hwnnw? Hefyd, pa ffonitro weithiau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi ar waith i fonitro effeithiolrwydd y cymorth a gynigir i athrawon i ddatblygu'r cymwyseddau hyn?

Weinidog, rwyf yn croesawu'r syniad o gasgliad digidol cenedlaethol. Mae'n gwneud llawer mwy o synnwyr, yn fy marn i, casglu a rhannu arfer gorau gydag athrawon eraill ar-lein. Fodd bynnag, cafwyd galwadau i ailgyfeirio arian o ffynonellau lleol ac o brynu print a'i ddefnyddio ar gyfer trwyddedu Cymru gyfan ac i brynu adnoddau digidol. Efallai y gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr argymhelliad penodol hwn gan y grŵp gorchwyl a gorffen. A all ddweud wrthym pa ddadansoddiad gwerth am arian a wnaed wrth ailgyfeirio cyllid? A yw cyfuno adnoddau wedi arbed arian ac, os felly, faint?

Wrth gwrs, mae rhai ffactorau allanol y mae'n rhaid eu hystyried wrth adolygu dysgu digidol. Mae darpariaeth band eang yn heriol mewn rhai ardaloedd o Gymru, wrth gwrs, a gall hynny lesteirio dysgu digidol. Yn ei ddatganiad, mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod gan 90% o'r ysgolion cymwys yn awr signal Wi-Fi rhagorol ym mhob rhan o'r ysgol. Felly, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa gymorth ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnis i ddarparwyr dysgu mewn ardaloedd lle y gallai band eang fod yn broblem benodol?

Nodaf hefyd ymateb y Gweinidog i'r grŵp llywio TGCh yn gynharach eleni, lle y gofynnodd i'r Athro Donaldson ystyried argymhellion y grŵp fel rhan o'r adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei groesawu. Fodd bynnag, mae adolygiad yr Athro Donaldson yn ddarn enfawr o waith, sy'n edrych ar y cwricwlwm cyfan. Er fy mod yn derbyn bod yn rhaid cydgyssylltu unrhyw waith i ddiwygio TGCh â'r cwricwlwm cenedlaethol, mae'n bwysig nad yw'r momentwm sydd wedi ei greu ynghylch diwygio TGCh yn cael ei gollu. A all y Gweinidog, felly, roi sicrwydd y bydd TGCh yn cael sylw dyledus yn yr adolygiad hwn, o ystyried y swmp o waith y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ei wneud yn y maes penodol hwn? A all hefyd ddweud wrthym pa drafodaethau penodol y mae wedi'u cael â'r Athro Donaldson ar ddiwygio TGCh cyn ei adolygiad o'r cwricwlwm?

Gallaf weld bod amser yn mynd rhagddo'n gyflym, Gadeirydd. Felly, a gaf fi ddiolch unwaith eto i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma? Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi cynigion i ddiwygio TGCh yn ein hysgolion ac i helpu i roi i genedlaethau'r dyfodol ac, yn wir, i staff dysgu, sgiliau gwell ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am waith Llywodraeth Cymru ar yr agenda hon maes o law.

I thank Paul Davies for those points and also for his broad support for the direction of travel in terms of these developments. I think that it is very important to realise that, despite the fast pace of progress that we have seen over the last couple of years, in particular, we really are still at the beginning of a process. Hwb, in particular, in terms of what it is now and what it could be within three, four or five years, is really just a baby. It will be grown and raised, not so much by politicians but by professionals, as they begin to interact with the system and, through the system, with each other in terms of best practice. For instance, the content within Hwb will be very much an essential part, in my view, of the self-improving professionalism that we want to see grow within the teaching profession within Wales.

In terms of some of the specifics of his questions, I have to say that I do not believe that there has been any specific guidance as regards SEN children and e-safety, as yet. This is something that I am very much prepared to look into, and I will undertake to do so. As I say, we are at the beginning of a journey as regards the usage of many of these resources. On their availability to schools in terms of the broadband speeds that are available now, he raises a very important point.

The task and finish group, chaired by Janet Hayward, continues to have an impact, and the resonance of the very important work that it undertook will guide us for some time yet, I think. He is right to point to the CPD of teachers as being a real issue for us at a national strategic level when it comes to growing this sort of working. The task and finish group is right, and I readily endorse its concerns around the journey that we have to travel in that regard.

I did mention the national conference that would become, in my view, a regular feature of how teachers get together to feed back, among other purposes, to Government in terms of the needs of the profession in that regard. I have also mentioned, within my statement, HwbMeet as a growing element of how business is done within here. Later in the autumn, I will also be making announcements around my new deal for teachers, which will include, of course, CPD elements around computing and ICT, which are genuine strategic needs as far as the Welsh teaching profession is concerned, and a challenge that we have to rise to over the next few years. So, there will be more announcements to follow.

Diolch i Paul Davies am y pwyntiau hynny a hefyd am ei gefnogaeth gyffredinol i'r cyfeiriad teithio o ran y datblygiadau hyn. Credaf ei bod yn bwysig iawn sylweddoli, er gwaethaf y cynnydd cyflym yr ydym wedi'i weld dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, yn arbennig, mai megis dechrau y mae'r broses mewn gwirionedd. Mae Hwb, yn arbennig, o ran yr hyn ydym yn awr a'r hyn y gallai fod o fewn tair, pedair neu bum mlynedd, mewn gwirionedd yn dal yn fabi. Bydd yn cael ei dyfu a'i fagu, nid yn gymaint gan wleidyddion, ond gan weithwyr proffesiynol, wrth iddynt ddechrau rhyngweithio â'r system a gyda'i gilydd, drwy'r system, o ran arfer gorau. Er enghraifft, bydd cynnwys Hwb yn rhan hanfodol, yn fy marn i, o'r proffesiynoldeb hunan-wella yr ydym am ei weld yn tyfu yn y proffesiwn dysgu yng Nghymru.

O ran rhai o elfennau penodol ei gwestiynau, rhaid imi ddweud nad wyf yn credu bod unrhyw arweiniad penodol wedi'i roi o ran plant ag AAA ac e-ddiogelwch, hyd yma. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn barod iawn i ymchwilio iddo, ac rwyf yn ymrwymo i wneud hynny. Fel y dywedais, megis dechrau y mae'r daith o ran defnyddio llawer o'r adnoddau hyn. O ran a ydynt ar gael mewn ysgolion o safbwynt y cyflymder band eang sydd ar gael yn awr, mae'n codi pwynt pwysig iawn.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen, dan gadeiryddiaeth Janet Hayward, yn dal i gael effaith, a bydd atsain y gwaith pwysig iawn a wnaeth yn ein tywys am beth amser eto, rwyf yn meddwl. Mae'n iawn pan ddywed fod datblygiad proffesiynol parhaus athrawon yn broblem go iawn inni ar lefel strategol genedlaethol o ran tyfu'r math hwn o weithio. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn iawn, ac ategaf ei bryderon ynghylch y daith y mae'n rhaid inni ei gwneud yn y cyswllt hwnnw.

Cyfeiriais at y gynhadledd genedlaethol a fyddai'n dod, yn fy marn i, yn nodwedd reolaidd o'r ffordd y mae athrawon yn dod at ei gilydd i roi adborth i'r Llywodraeth o ran anghenion y proffesiwn yn hynny o beth, ymhlith dibenion eraill. Crybwyllais hefyd, yn fy natganiad, CwrddHwb, sy'n dod yn elfen gynyddol o'r ffordd y mae busnes yn cael ei gynnal yma. Yn nes ymlaen yn yr hydref, byddaf hefyd yn gwneud cyhoeddiadau ynghylch fy margin newydd i athrawon, a fydd yn cynnwys, wrth gwrs, elfennau DPP o ran cyfrifiadureg a TGCh, sy'n anghenion strategol gwirioneddol o safbwynt y proffesiwn dysgu yng Nghymru, ac yn her y mae'n rhaid inni ei hwynebu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Felly, bydd mwy o gyhoeddiadau i ddilyn.

A value-for-money evaluation will form part of the evaluation and monitoring of the work that we have done thus far, and there will be further announcements on that to follow. Paul Davies is quite right to be concerned about some parts of Wales where there are problems as regards excess construction charges, for instance, that do cause challenges in some schools, which may be schools that have geographical isolation to contend with. We also have a particular issue on the island of Anglesey, where the local authority did not commit to the development of the Learning in Digital Wales grant until May of this year; so, things have moved slightly more slowly there. However, I can assure him that we are in a situation now where, to date, around 84% of schools in Wales are meeting the agreed connectivity targets. The vast majority of the remaining schools—that is 267 schools, to be precise—are expected to be completed by the end of this financial year, that being 31 March 2015. So, the rate of progress has been rapid. We have had some challenges, particularly around construction work, which may include significant civil work, even road closures and so on, which were not anticipated at the beginning of the process, but we are tackling them and we are getting on with the job.

I have specifically discussed the implications of the task and finish group's work with Graham Donaldson as he continues his work, but we will not wait for Graham Donaldson's work to come through while we pursue this agenda. The Welsh Government is investing up to £450,000 to deliver a programme of practical hands-on workshops that give secondary school pupils and teachers in Wales the opportunity to develop and apply coding skills. Those workshops will be delivered from this month through until March 2016. There will, of course, be a need for other developments through professional development and, as I say, I will be making further announcements later in the autumn.

15:28 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. We are more than half way through this debate now, and I have five more speakers who would like to speak. So, I will just emphasise again the need for brevity, or they will not be able to speak. I call David Rees.

15:29 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the statement by the Minister, and I also welcome the progress that the Welsh Government is making in actually producing a digital learning environment for our young people in schools today. I have a couple of points to make on your statement, Minister. On the number of teachers who have actually gone through training, I work that out to be one third or two thirds per school connected, according to your statement, but the report initially talked about e-coordinators. Can you confirm whether each school now has an e-coordinator, and can you also discuss how they are supported by the networks across regional consortia and how that support is funded? Is it funded by the Welsh Government, or is it part of the consortia's funding to look at that?

You have already talked about your monitoring of the effectiveness of the additional funding that you have given to the consortia to develop that, so, I will leave that one.

Bydd gwerthusiad gwerth am arian yn rhan o broses gwerthuso a monitro'r gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yma, a bydd rhagor o gyhoeddiadau am hynny yn y dyfodol. Mae Paul Davies yn iawn i bryderu am rai rhannau o Gymru lle mae problemau o ran costau adeiladu gormodol, er enghraifft, sy'n achosi heriau mewn rhai ysgolion, a all fod yn ysgolion sy'n gorfod dygymod â bod yn ddaearyddol ynysig. Mae gennyf hefyd broblem arbennig ar Ynys Môn, lle nad ymrwymodd yr awdurdod lleol i ddatblygu'r grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol tan fis Mai eleni; felly, mae pethau wedi symud ychydig yn arafach yno. Fodd bynnag, gallaf ei sicrhau ein bod mewn sefyllfa yn awr lle mae tua 84% o ysgolion Cymru, hyd yma, yn cyrraedd y targedau cysylltedd y cytunwyd arnynt. Disgwylir i fwyafrif helaeth yr ysgolion sy'n weddill—sef 267 o ysgolion, a bod yn fanwl—fod wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, sef 31 Mawrth, 2015. Felly, mae pethau wedi symud ymlaen yn gyflym. Rydym wedi wynebu rhai heriau, yn enwedig o ran gwaith adeiladu, a all gynnwys cryn dipyn o waith sifil, hyd yn oed cau ffyrdd ac yn y blaen, na chawsant eu rhagweld ar ddechrau'r broses, ond rydym yn mynd i'r afael â hwy ac yn bwrw ymlaen â'r gwaith.

Rwyf wedi trafod goblygiadau gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn benodol â Graham Donaldson wrth iddo barhau â'i waith, ond ni fyddwn yn aros am waith Graham Donaldson tra byddwn yn bwrw ymlaen â'r agenda hon. Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi hyd at £450,000 i gyflwyno rhaglen o weithdai ymarferol sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ysgolion uwchradd ac athrawon yng Nghymru i ddatblygu a chymhwyso sgiliau codio. Bydd y gweithdai hynny'n cael eu cyflwyno o'r mis hwn tan fis Mawrth 2016. Wrth gwrs, bydd angen datblygiadau eraill drwy ddatblygu proffesiynol ac, fel y dywedais, byddaf yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau yn nes ymlaen yn yr hydref.

Diolch ichi, Weinidog. Rydym fwy na hanner ffordd drwy'r ddadl hon yn awr, ac mae gennyf bum siaradwr arall sydd am siarad. Felly, rwyf am bwysleisio unwaith eto fod angen bod yn gryno, neu ni fyddant yn gallu siarad. Galwaf ar David Rees.

Rwyf yn croesawu datganiad y Gweinidog, ac rwyf hefyd yn croesawu'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud wrth fynd ati i greu amgylchedd dysgu digidol i bobl ifanc yn ein hysgolion heddiw. Mae gennyf un neu ddau o bwyntiau i'w gwneud ynghylch eich datganiad, Weinidog. O ran nifer yr athrawon sydd wedi cael hyfforddiant, yn ôl yr hyn a ddeallaf o'ch datganiad, mae hynny'n un rhan o dair neu ddwy ran o dair i bob ysgol sy'n gysylltiedig, ond roedd yr adroddiad yn sôn i ddechrau am e-gydlynwyr. A allwch gadarnhau p'un a oes gan bob ysgol e-gydlynnydd bellach, ac a wnewch chi hefyd drafod sut y mae'r rhwydweithiau ar draws consortia rhanbarthol yn eu cefnogi a sut y mae'r gefnogaeth honno'n cael ei hariannu? A yw'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, neu a yw'n rhan o gyllid y consortia i edrych ar hynny?

Rydych eisoes wedi sôn eich bod yn monitro effeithiolrwydd y cyllid ychwanegol yr ydych wedi'i roi i'r consortia i ddatblygu hynny, felly, gadawaf hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

You talked about the next phase of the contract actually delivering digital content creation tools for teachers to upload their work. What mechanisms will be put into place to ensure the quality assurance of those materials to be uploaded, to ensure that they meet the standards that you expect them to meet for our children and everyone else?

You have talked about the work that has been done in Hwb+ and the numeracy and literacy framework work, but can you actually break that down into what proportion is bilingual, what proportion is Welsh medium, and what proportion is English medium? Again, the report recommends that it is very important to ensure that there is equality between the two.

On e-safety, can you give us confidence that the guidelines will talk about cyber bullying and the policies that will apply to cyber bullying as well? That is going to be a critical element as we encourage more people to become more digitally aware and to use it. It is a big issue.

Finally, I do not see a mention of it in your report, but one of the recommendations was with regard to the intellectual property of the material. Where are we going with the licensing and the IP side of the material that is produced for the teachers?

Soniasoch y bydd cam nesaf y contract yn darparu offer creu cynnwys digidol i athrawon gael lanlwytho eu gwaith. Pa fecanweithiau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i wneud yn siŵr bod ansawdd y deunyddiau hynny sy'n cael eu lanlwytho'n cael ei sicrhau, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn bodloni'r safonau yr ydych yn disgwyl iddynt eu bodloni i'n plant ac i bawb arall?

Rydych wedi sôn am y gwaith sydd wedi ei wneud yn Hwb+ a gwaith y fframwaith rhifedd a llythrennedd, ond a allwch mewn gwirionedd ddadansoddi hynny yn ôl pa gyfran sy'n ddwyieithog, pa gyfran sy'n gyfrwng Cymraeg, a pha gyfran sy'n gyfrwng Saesneg? Unwaith eto, mae'r adroddiad yn argymhell ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod cydraddoldeb rhwng y ddwy.

O ran e-ddiogelwch, a allwch gynnig hyder inni y bydd y canllawiau'n sôn am seiberfwlio a'r polisiau a fydd yn berthnasol i seiberfwlio hefyd? Bydd hynny'n elfen allweddol wrth inni annog mwy o bobl i fod yn fwy ymwybodol yn ddigidol ac i'w ddefnyddio. Mae'n broblem fawr.

Yn olaf, nid wyf yn gweld sôn am hyn yn eich adroddiad, ond roedd un o'r argymhellion yn ymwneud ag eiddo deallusol y deunydd. I ble rydyn ni'n mynd o ran trwyddedu ac ochr eiddo deallusol y deunydd sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer yr athrawon?

15:30

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Aberavon for those questions. As far as I am aware, we now have pretty much complete coverage in terms of co-ordinators across the country, and those support networks should be there through regional consortia and the HwbMeet gatherings, and also because of the work of the Hwb team, which works at a national level. I will ask officials to look into whether there may be gaps here and there across the country and write to the Member with details about that, but, to the best of my knowledge, we do have our all-Wales coverage as of this point.

In terms of uploading and the quality, we have the all-Wales Hwb team, which co-ordinates what is going on here and takes a look at the quality levels of the content. It is very important, as you say, that we do have an eye to quality. We need this stuff to be used and we need it to inspire—professional to professional in particular—and it is very important that the quality is good. This is not just a question for teachers, incidentally; we are in discussions at the moment with both S4C and the BBC in terms of the educational television content that could be a part of Hwb and the digital online experience, which could be available for lesson planning and so on as teachers utilise these resources and use their professional imagination more and more. So, the sky is the limit really in terms of what we might be able to expect in that regard.

Diolch i'r Aelod dros Aberafan am y cwestiynau hynny. Hyd y gwn i, mae gennym bellach i bob pwrpas ddarpariaeth gyflawn o ran cydlynwyr ledled y wlad, a dylai'r rhwydweithiau cefnogi hynny fod yno drwy gonsortia rhanbarthol a'r cyfarfodydd CwrddHwb, a hefyd oherwydd gwaith y tîm Hwb, sy'n gweithio ar lefel genedlaethol. Gofynnaf i swyddogion edrych i weld p'un a all fod bylchau yma ac acw ar draws y wlad a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion am hynny, ond, hyd y gwn i, mae gennym ddarpariaeth ledled Cymru gyfan ar hyn o bryd.

O ran lanlwytho ac ansawdd, mae gennym dîm Hwb Cymru gyfan, sy'n cydlynu'r hyn sy'n digwydd yma ac yn edrych ar lefelau ansawdd y cynnwys. Mae'n bwysig iawn, fel y dywedwch, ein bod yn cadw golwg ar ansawdd. Mae angen i'r pethau hyn gael eu defnyddio ac mae angen iddynt ysbrydoli—rhwng gweithwyr proffesiynol a'i gilydd yn benodol—ac mae'n bwysig iawn fod yr ansawdd yn dda. Nid yw hyn yn ymwneud ag athrawon yn unig, gyda llaw; rydym yn trafod ar hyn o bryd ag S4C a'r BBC o ran cynnwys teledu addysgol a allai fod yn rhan o Hwb a'r profiad ar-lein digidol, ac a allai fod ar gael i gynllunio gwersi ac yn y blaen wrth i athrawon ddefnyddio'r adnoddau hyn a defnyddio eu dychymyg proffesiynol fwyfwy. Felly, nid oes pen draw mewn gwirionedd i'r hyn y gallm ei ddisgwyl yn hynny o beth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I am afraid that I cannot this afternoon answer the question around the proportion of Welsh-medium and English-medium materials that are out there. I know that we are working very actively to encourage more Welsh-medium content and that there is a proactive drive to make that happen. Again, I will undertake to write to the Member with the actual figures around the proportions as they appear at present. Cyber bullying will, of course, play a part in terms of the e-safety guidance. It has to be an inherent part of how we operate in that regard.

He asked a very technical question around IP regulations and so forth—thank you for that one, David. I must admit that I am no expert on the legalities of IP, but I will ensure that he gets a written answer posthaste.

Mae arnaf ofn na allaf ateb y prynhawn yma y cwestiwn ynghylch cyfran y deunyddiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg sydd allan yno. Gwn ein bod yn gweithio'n galed i annog mwy o gynnwys cyfrwng Cymraeg a bod ymgyrch ragweithiol i wneud i hynny ddigwydd. Unwaith eto, ymrwymaf i ysgrifennu at yr Aelod gyda'r ffigurau gwirioneddol ynghylch y cyfrannau fel y maent yn ymddangos ar hyn o bryd. Bydd seiberfwlio, wrth gwrs, yn chwarae rhan o ran y canllawiau e-ddiogelwch. Mae'n rhaid iddo fod yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn gweithredu yn hynny o beth.

Gofynnodd gwestiwn technegol iawn ynglŷn â rheoliadau eiddo deallusol ac yn y blaen—diolch ichi am hynny, David. Rhaid imi gyfaddef nad wyf yn arbenigwr ar ochr gyfreithiol eiddo deallusol, ond byddaf yn sicrhau ei fod yn cael ateb ysgrifenedig ar fyrder.

15:33

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Plaid Cymru spokesperson, Bethan Jenkins.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Bethan Jenkins.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:33

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the statement today, Minister. You said earlier that you will not be waiting for Donaldson in terms of pursuing this particular agenda. However, can you assure us today, Minister, that work currently being carried out will not prejudice or conflict with the work currently being carried out by Donaldson? Does the Welsh Government plan to change the focus in ICT or will computing be added as a new subject? What steps has the Welsh Government taken to ensure that it will not add to an already overcrowded curriculum? Has the Welsh Government, as was echoed earlier, calculated the costings in terms of ITT and ongoing professional development to ensure that the teaching of computing and digital technology is provided evenly and effectively? How much is this likely to be and where will the funding come from? I know various teachers, for example, who were given Apple TVs and iPads and had to try to teach themselves. This cannot be good for them; they need to have secure tutoring across the system.

Diolch ichi am y datganiad heddiw, Weinidog. Dywedasoeh yn gynharach na fyddwch yn aros am Donaldson o ran bwrw ymlaen â'r agenda benodol hon. Fodd bynnag, a allwch ein sicrhau heddiw, Weinidog, na fydd y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn niweidio neu'n gwrthdaro â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Donaldson ar hyn o bryd? A yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu newid pwyslais TGCh neu a fydd cyfrifiadureg yn cael ei hychwanegu fel pwnc newydd? Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau na fydd yn ychwanegu at gwricwlwm sydd eisoes yn orlawn? A yw Llywodraeth Cymru, fel yr ategwyd yn gynharach, wedi cyfrifo'r costau o safbwynt hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygu proffesiynol parhaus i sicrhau bod darpariaeth addysg cyfrifiadureg a thechnoleg ddigidol yn gyfartal ac yn effeithiol? Faint y mae hyn yn debygol o'i gostio ac o ble y bydd yr arian yn dod? Rwyf yn adnabod nifer o athrawon, er enghraifft, a gafodd setiau teledu aPPLLE ac iPads ac roedd yn rhaid iddynt geisio'u dysgu eu hunain. Ni all hyn fod yn dda iddynt; mae angen tiwtora diogel iddynt ar draws y system.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I note that you say that you are evaluating the implementation of the programme. When will we hear the outcome of the external evaluation? You talk about emerging impacts on teachers and that we will know in due course. Can you explain to us what this means, because I think it is important, if we want to see how the digital world will improve within our schools, that we have clear timelines, clear costings and a clear focus on delivery?

Nodaf eich bod yn dweud eich bod yn gwerthuso gweithredu'r rhaglen. Pryd y byddwn yn clywed canlyniad y gwerthusiad allanol? Rydych yn sôn am effeithiau sy'n dod i'r amlwg ar athrawon ac y byddwn yn gwybod amdanant maes o law. A allwch egluro wrthym beth yw ystyr hyn, oherwydd credaf ei bod yn bwysig, os ydym am weld sut y bydd y byd digidol yn gwella yn ein hysgolion, fod gennym linellau amser clir, costiau clir a phwyslais clir ar gyflawni?



**Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Bethan Jenkins for those points. She raises some very important issues here. In terms of the ongoing work with Graham Donaldson, and his fundamentally important work around the remaking of the curriculum within Wales, of course, I have had discussions with the professor about the overlap with ongoing developments as we see them at the moment. One of these is, of course, the work arising from the recommendations of the task and finish group led by Janet Hayward. So, he is well aware of what we need to do in order to keep abreast of developments between now and his reporting to us at the turn of the year. So, I am confident that we will see, through his efforts, a meshing together, rather than an overlap or overcrowding of the agenda, when we see what Graham Donaldson presents us with at the turn of the year.

Diolch i Bethan Jenkins am y pwyntiau hynny. Mae'n codi rhai materion pwysig iawn yma. O ran y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda Graham Donaldson, a'i waith sylfaenol bwysig ynghylch ail-lunio'r cwricwlwm yng Nghymru, wrth gwrs, rwyf wedi cael trafodaethau â'r athro am y gorgyffwrdd â datblygiadau parhaus fel yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd. Un o'r rhain, wrth gwrs, yw'r gwaith sy'n deillio o argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen o dan arweiniad Janet Hayward. Felly, mae'n ymwybodol iawn o'r hyn y mae angen inni ei wneud er mwyn cadw i fyny â datblygiadau rhwng nawr a'i adroddiad inni ar droad y flwyddyn. Felly, rwyf yn hyderus y byddwn yn gweld, drwy ei ymdrechion, gyd-blethu, yn hytrach na gorgyffwrdd neu orlenwi'r agenda, pan welwn yr hyn y bydd Graham Donaldson yn ei gyflwyno inni ar droad y flwyddyn.

This is an independent review of the curriculum, of course. So, on issues like instructing the professor to go away and have computing as a new subject within the curriculum, well, that is not my remit at the moment. This is an independent review. However, of course, Graham Donaldson has spoken to, for instance, members of the task and finish group, and he has spoken to all the relevant professionals who have concerns in this subject area, he is well aware of the current debate within Wales, and we will see what he comes back with. However, the one thing that I am confident of is that we will see a way steered through the dangers of overcrowding in the curriculum; indeed, that has always been part of the key concerns of conversations between myself and Professor Donaldson.

Adolygiad annibynnol yw hwn o'r cwricwlwm, wrth gwrs. Felly, o ran materion megis dweud wrth yr athro am fynd i fwrdd a chynnwys cyfrifiadureg fel pwnc newydd yn y cwricwlwm, wel, nid yw hynny'n rhan o'm cylch gwaith i ar hyn o bryd. Adolygiad annibynnol yw hwn. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae Graham Donaldson wedi siarad, er enghraifft, ag aelodau o'r grŵp gorchwyl a gorffen, ac mae wedi siarad â'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol sydd â phryderon yn y maes hwn, mae'n ymwybodol iawn o'r ddadl ar hyn o bryd yng Nghymru, a chawn weld beth y bydd yn ei gyflwyno. Fodd bynnag, yr un peth yr wyf yn hyderus yn ei gylch yw y byddwn yn gweld ffordd drwy beryglon gorlenwi yn y cwricwlwm; yn wir, mae hynny bob amser wedi bod yn rhan o'r ystyriaethau allweddol yn y sgysiaid rhyngof fi a'r Athro Donaldson.

Bethan Jenkins is quite right also to point out that we have some serious thinking and heavy lifting to do when it comes to the continuing professional development of teachers, and what needs we must approach in terms of changes to initial teacher training. Both these things require considerable thought, and will have to go through considerable reform if we are to get a twenty-first century model of professional development, and, indeed, initial training that is fit for the twenty-first century.

Mae Bethan Jenkins yn llygad ei lle hefyd wrth nodi bod gennym waith meddwl difrifol a gwaith codi trwm i'w wneud o ran datblygiad proffesiynol parhaus athrawon, a pha anghenion y mae'n rhaid inni ymdrin â hwy o safbwynt newidiadau i hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae angen rhoi cryn dipyn o ystyriaeth i'r ddau beth hyn, a bydd yn rhaid eu diwygio'n sylweddol os ydym am gael model datblygu proffesiynol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac, yn wir, hyfforddiant cychwynnol sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

As I mentioned, I will be making substantial announcements later in the autumn as regards continuing professional development and the new deal for teachers, which I sketched in outline earlier in the year.

Fel y soniais, byddaf yn gwneud cyhoeddiadau sylweddol yn ddiweddarach yn yr hydref o ran datblygu proffesiynol parhaus a'r fargen newydd i athrawon, y soniais amdani'n fras yn gynharach eleni.

*Nid oes recordiad ar gael o'r cyfarfod rhwng 15:37:40 a 15:38:15.*

*No recording is available of the meeting between 15:37:40 and 15:38:15.*

**Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)

[Continues.]—a historic challenge, when it comes to the remodelling of initial teacher training across Wales. Of course, more announcements, as I said, will follow.

[Yn parhau.] —her hanesyddol, o ran ailfodelu hyfforddiant cychwynnol athrawon ledled Cymru. Wrth gwrs, bydd rhagor o gyhoeddiadau, fel y dywedais, yn dilyn.

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you. I call on Keith Davies. I will have to ask you to speak up, Keith, and confine yourself to questions, or we will not get through the other speakers. I am aware—

Diolch. Galwaf ar Keith Davies. Bydd yn rhaid imi ofyn i chi siarad yn uchel, Keith, a gofyn cwestiynau'n unig, neu ni fyddwn yn dod i ben â chlywed y siaradwyr eraill. Rwyf yn ymwybodol—

15:38	<b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Rydych yn lwcus, Lywydd dros dro, oherwydd mae nifer o'r pethau yr oeddwn eisiau eu gofyn wedi cael eu gofyn yn barod, megis hyfforddi athrawon, rhoi amser i hyfforddi athrawon, cyfrifiadureg fel pwnc nad yw'n cael ei ddilyn yn ddigonol—	You are lucky, temporary Presiding Officer, because a number of the questions that I wanted to ask have been asked already, such as training teachers, allocating time to teacher training, computing as a subject, which is not followed sufficiently—	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:38	<b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> There is no translation. I wonder would you mind, I am sorry, speaking in English. I do not have my screwdriver with me.	Nid oes cyfieithiad. Tybed a fyddai ots gennyh, mae'n ddrwg gennyf, siarad Saesneg. Nid yw fy sgrawdrefner gen i.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:39	<b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Acting Presiding Officer, you are lucky—a lot of my questions and comments—	Lywydd Dros Dro, rydych yn lwcus—mae llawer o'm cwestiynau a'm sylwadau—	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:39	<b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The translation and the microphones are all back now.	Mae'r cyfieithu a'r meicroffonau i gyd yn ôl yn awr.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:39	<b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Rydym yn ôl yn awr. Rydych yn lwcus; mae nifer o'r pwyntiau yr oeddwn am eu codi wedi cael eu codi'n barod. Roedd cyfrifiadureg fel pwnc yn yr ysgol wedi cael ei godi gan Bethan yn gynharach. Roedd y busnes am gynigion creadigol wedi cael ei godi gan David, ac mae hyfforddiant athrawon wedi cael ei godi. Yr unig beth yr wyf eisiau ei ofyn yn ychwanegol yw hyn: y thema bwysig yw cydweithio ar lefel genedlaethol, felly, a allech chi ehangu ar sut yr ydych chi'n gweld y bydd hynny'n gweithio ar lefel consortia ac awdurdodau lleol?	We are back now. You are lucky; a number of the points that I wanted to raise have been raised already. Bethan mentioned earlier computing as a subject in school. The business of creative suggestions was mentioned by David, and teacher training has been raised. The only thing that I would want to ask in addition is this: the important theme is national collaboration, so, could you expand on how you see this working at a consortia and local authority level?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:39	<b>Huw Lewis</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Well, I see this developing, this whole project —. We are talking about the nuts and bolts at the moment of the setting up of a system here. Keith Davies, the Member for Llanelli, is quite right that what matters very much at this stage is collaboration at a local authority and consortium level in order that everyone brings to the table what is necessary to get the content ready, to get the nuts and bolts of access to the material ready, and so on.  However, in terms of what then transpires, it is the system itself that is the medium of collaboration, in my view, which transcends local authority consortia and even national boundaries over time. This is about enabling a profession to speak to itself, by electronic means, to an extent and to a degree of professionalism that has been hitherto unthought of. At that point, I think, when the teaching profession, as well as our pupils, of course, take true ownership of, for instance, Hwb and Hwb+, and this becomes the primary medium of collaboration within the profession, then we will begin to see a self-improving profession beginning to become a reality.	Wel, rwyf yn gweld hyn yn datblygu, yr holl brosiect hwn —. Rydym yn sôn yma am fanylion sefydlu'r system ar hyn o bryd. Mae Keith Davies, yr Aelod dros Lanelli, yn llygad ei le mai'r hyn sy'n bwysig iawn ar hyn o bryd yw cydweithio ar lefel awdurdod a chonsortium lleol er mwyn i bawb ddod â'r hyn sy'n angenrheidiol at y bwrdd i gael y cynnwys yn barod, er mwyn cael manylion mynediad i'r deunydd yn barod, ac yn y blaen.  Fodd bynnag, o ran yr hyn sy'n digwydd wedyn, y system ei hun yw cyfrwng y cydweithio, yn fy marn i, sydd y tu hwnt i gonsortia awdurdodau lleol a ffiniau cenedlaethol hyd yn oed dros gyfnod o amser. Mae hyn yn ymwneud â galluogi proffesiwn i siarad â'i hunan, drwy ddulliau electronig, i raddau ac â phroffesiynoldeb na syniwyd amdanynt hyd yma. Bryd hynny, rwyf yn meddwl, pan fydd y proffesiwn dysgu, yn ogystal â'n disgyblion, wrth gwrs, yn cymryd gwir berchnogaeth, er enghraifft, ar Hwb a Hwb+, a phan fydd hyn yn dod yn gyfrwng cydweithio sylfaenol yn y proffesiwn, yna byddwn yn dechrau gweld proffesiwn sy'n ei wella'i hun yn dechrau dod yn realiti.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:41	<b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I call Aled Roberts, the Liberal Democrat spokesperson.	Galwaf ar Aled Roberts, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Gadeirydd. Os nad oedd Keith Davies yn siŵr a oedd cwestiynau ar ôl, rwy'n meddwl fy mod I mewn sefyllfa waeth fyth, ond dyna fo.

Weinidog, rydym i gyd, mae'n debyg, yn cefnogi'r symudiad hwn tuag at system sy'n cael ei dosbarthu ar draws Cymru ac rydym yn bendant eisiau gweld pob ysgol, pa bynnag ei maint, yn elwa o'r dechnoleg newydd hon. Fodd bynnag, roedd y datganiad yn Rhagfyr 2012 yn dweud bod pob ysgol gynradd a phob ysgol arbennig yn mynd i gael 10 Mb yr eiliad erbyn mis Gorffennaf 2014, a hefyd bod pob ysgol uwchradd yn mynd i gael 100 Mb yr eiliad. Felly, deallaf o'r hyn a ddywedoch yn gynharach mai ond 84% o'r ysgolion hynny sydd yn y sefyllfa honno a bod 267 o ysgolion ar ei hôl hi, er eich bod chi'n dweud bod yr holl ysgolion i fod mewn sefyllfa i gyrraedd y targed erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Ym mha ffordd, felly, y gallwch sicrhau bod yr hyn sy'n y datganiad a wnaethpwyd ym mis Rhagfyr 2012, pan ddywedoch fod pob plentyn rhwng tair a 19 oed yn mynd i gael mynediad at yr Hwb erbyn 2015, yn cael ei gyflawni?

Hoffwn hefyd gefnogi rhywbeth a ddywedodd Keith Davies, oherwydd nid wyf yn deall yn union le mae'r cyfrifoldeb o ran monitro a sicrhau bod y gyfundrefn hon ar waith. Rwyf wedi derbyn ymateb gan gonsortia—. Mae'r Llywodraeth yn dweud yn glir bod yr holl bethau hyn i fod yn eu lle ar gyfer hyn a hyn, ac eto, pan gewch ymateb yn ôl gan y consortia, maent yn cyfaddef bod rhai ysgolion hyd yn oed heb wefan ar hyn o bryd. Felly, nid wyf yn deall sut mae'r Llywodraeth yn gallu dweud ein bod mewn sefyllfa lle bydd pob ysgol yn gweithredu'r gyfundrefn newydd hon erbyn 2015, pan fod rhai ysgolion heb wefan hyd yn oed. Felly, a gaf ofyn i chi, wrth ddweud ein bod i gyd yn cefnogi eich ymdrechion, sut yn union y mae'r Llywodraeth yn monitro'r sefyllfa ar lawr gwlad?

Thank you, Chair. If Keith Davies was not sure whether there were any questions left, I think that I am in an even worse position, but there we are.

Minister, we all, it seems, support this move towards a system that is consistent across Wales and we certainly want to see every school, whatever its size, benefitting from this new technology. However, the statement in December 2012 did say that every primary school and every special school would have 10 Mbps by July 2014, and also that every secondary school would have 100 Mbps. So, from what you said earlier, I understand that only 84% of those schools are in that position and that 267 schools have fallen behind, although you say that all schools should be in a position to achieve the target by the end of this financial year. In what way, therefore, can you ensure that what was in the statement of December 2012, in which you said that every pupil aged between three and 19 would have access to Hwb by 2015, will be delivered?

I would also like to support something that Keith Davies said, because I do not understand exactly where the responsibility lies in terms of monitoring and ensuring that this regime is implemented. I have received a response from consortia—. The Government states clearly that all of these things should be in place by such and such a date, but, when you receive a response from the consortia, they admit that some schools do not even have a website at present. So, I do not understand how the Government can say that we are in a situation where every school will be implementing this new regime by 2015, when some schools do not even have a website. So, may I ask you, having said that we all support your efforts, how exactly the Government is monitoring the situation at grass-roots level?

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Aled Davies—. I thank Aled Roberts, I beg your pardon, for those points. The figures I announced were quite clear; they have not changed. We have precisely, as of 1 September, 267 schools that are not quite there yet. The vast majority of those will be connected and ready to go by the turn of the financial year. That will leave a very small number of schools that have exceptional issues that need to be faced, which may involve some alternative technology solutions, frankly, in order to get that very small number of schools kitted out with what we expect them to have. I would be very happy, actually, to write to the Member with details of where we are looking at, in terms of that very small number, some alternative solutions that will need to be considered.

Diolch i Aled Davies—. Diolch i Aled Roberts, mae'n ddrwg gennyf, am y pwyntiau hynny. Mae'r ffigurau a gyhoeddais yn eithaf clir; nid ydynt wedi newid. Mae gennyf, o 1 Medi, union 267 o ysgolion nad ydynt wedi cyrraedd yn llwyr eto. Bydd y mwyafrif helaeth o'r rheini wedi'u cysylltu ac yn barod i fynd erbyn troad y flwyddyn ariannol. Bydd hynny'n gadael nifer fach iawn o ysgolion sydd â materion eithriadol y mae angen eu hwynebu, a allai gynnwys rhai atebion technoleg amgen, a dweud y gwir, er mwyn sicrhau bod gan y nifer fach iawn o ysgolion hynny yr offer yr ydym yn disgwyl iddynt eu cael. Byddwn yn hapus iawn, mewn gwirionedd, i ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion ynghylch lle'r ydym yn edrych, o ran y nifer fach iawn honno, ar rai atebion eraill y bydd angen eu hystyried.

Yes, every pupil will be covered by this system. That is the aim, and that is where we are heading. By the turn of the financial year, we will very nearly be there. We may be talking about very small numbers indeed that still need that extra thought in terms of the challenges that their particular school has presented in terms of connectivity. This is about connectivity, primarily. This is about connectivity and opening the door for the profession, for schools, and for consortia to get on with the job of work of using the vast potential of Hwb, for instance, to its best advantage. Therefore, there is a responsibility there for schools and the professionals who run them, supported by local authorities and consortia, to make best use of Hwb and the online connectivity that the Welsh Government will provide. However, in terms of ultimate responsibility, that lies with me.

Bydd, bydd y system hon yn cynnwys pob disgybl. Dyna yw'r nod, ac at hynny yr ydym yn anelu. Erbyn troad y flwyddyn ariannol, byddwn bron iawn yno. Efallai y byddwn yn sôn am niferoedd bach iawn yn wir y mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth iddynt o ran yr heriau y mae eu hysgol arbennig wedi eu cyflwyno o ran cysylltedd. Mae hyn yn ymwneud â chysylltedd, yn bennaf. Mae'n ymwneud â chysylltedd ac agor y drws i'r proffesiwn, i ysgolion, ac i gonsortia i fynd ymlaen â'r dasg o ddefnyddio potensial aruthrol Hwb, er enghraifft, yn y ffordd orau bosibl. Felly, mae cyfrifoldeb yno i ysgolion a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu rhedeg, gyda chymorth awdurdodau lleol a chonsortia, i wneud y defnydd gorau o Hwb a'r cysylltedd ar-lein y bydd Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu. Fodd bynnag, o ran y cyfrifoldeb yn y pen draw, gyda mi y mae hwnnw.

15:46 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The last speaker is Jeff Cuthbert. Can I ask the Member to give the questions only, please, as we are now over time?

Y siaradwr olaf yw Jeff Cuthbert. A gaf fi ofyn i'r Aelod roi'r cwestiynau yn unig, os gwelwch yn dda, gan ein bod yn awr dros ein hamser?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:46 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will. Minister, having the necessary skills to navigate oneself through the world of digital learning is critical to being well equipped for tomorrow's labour market. Will you therefore agree with me that our policy to embed and extend digital learning has to go hand in hand with our policy to tackle digital exclusion, and needs to work with programmes such as Communities 2.0 in order to ensure that those people living in our more deprived communities do not fall behind when it comes to reaping the potential life-changing benefits of digital learning?

Gwnaf, fe wnaif hynny. Weinidog, mae bod â'r sgiliau angenrheidiol i lywio drwy'r byd dysgu digidol yn hanfodol o ran bod wedi'ch paratoi'n dda ar gyfer marchnad lafur yfory. A wnewch chi, felly, gytuno â mi fod yn rhaid i'n polisi i ymgorffori ac estyn dysgu digidol fynd law yn llaw â'n polisi i fynd i'r afael ag allgáu digidol, a bod yn rhaid iddo weithio gyda rhaglenni fel Cymunedau 2.0 er mwyn sicrhau nad yw'r bobl hynny sy'n byw yn ein cymunedau mwy difreintiedig ar ei hôl hi o ran elwa ar fanteision posibl dysgu digidol a all newid bywydau?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:46 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is quite correct to point to this as a concern. We will turn to all partners and remind them that, simply because we are using new media here, it does not mean that those issues around exclusion and around the affordability of connectivity within a child's home, for instance, should be set aside as if somehow they do not matter. Communities 2.0 is certainly something that has done tremendous work up and down the country. I would encourage school leaders, in particular, to always have a mind to how the digital connectedness of young people pertains not just to the school, but also to their home environment. I will point to the good work of Communities First and the match fund there as a potential area where schools need to be considering what young people are able to access at home as well as at school.

Mae'r Aelod yn gwbl gywir i dynnu sylw at hyn fel pryder. Byddwn yn troi at yr holl bartneriaid yn eu hatgoffa nad yw'r ffaith ein bod yn defnyddio cyfryngau newydd yma'n golygu y dylem roi o'r neilltu y materion hynny ynghylch allgáu ac ynghylch fforddiadwyedd cysylltedd yng nghartref y plentyn, er enghraifft, fel pe na baent yn bwysig rywsut. Mae Cymunedau 2.0 yn sicr yn rhywbeth sydd wedi gwneud gwaith aruthrol ledled y wlad. Byddwn yn annog arweinwyr ysgolion, yn arbennig, i ystyried bob amser sut y mae cysylltedd digidol pobl ifanc yn ymwneud nid yn unig â'r ysgol, ond hefyd â'r cartref. Cyfeiriaf at waith da Cymunedau yn Gyntaf a'r gronfa gyfatebol yno fel maes posibl lle mae angen i ysgolion fod yn ystyried yr hyn y mae pobl ifanc yn gallu cael mynediad ato yn y cartref yn ogystal ag yn yr ysgol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:47 **Datganiad: Swyddogion Cymorth Cymunedol—Flwyddyn yn Ddiweddarach**

I call on the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

**Statement: Community Support Officers—One Year On**

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. One year ago, my predecessor announced that we had met our programme for Government commitment to recruit an additional 500 community support officers for Wales. I would like to take this opportunity to update Members on the activities that these officers are engaged in after one year on the beat, and on how their work is being appraised. We have always been clear about the importance of police operational independence when deciding where to allocate their community support officers. Nonetheless, we have always been keen for areas such as Communities First clusters to be targeted wherever possible, to ensure that the additional funding assisted those who we felt needed it most. We very much welcome the contribution of CSOs in making some of our most deprived communities safer, stronger and more resilient.

CSOs are undertaking a wide range of activities. These can be as varied as dealing with parking problems outside schools or tackling low-level anti-social behaviour, as well as taking part in searches, in seizures of alcohol and tobacco, and in house-to-house inquiries for criminal investigations. Clearly, these problems can blight lives and it can benefit communities enormously to have them dealt with swiftly. We have always been clear that CSOs are not a replacement for warranted officers. However, they have a range of powers that they can use to tackle anti-social behaviour and other instances of low-level nuisance. They are also essential sources of community intelligence, which the police can then use to detect and tackle criminality in these communities.

Our investment demonstrated this Government's determination to make Welsh communities safer, and our ability to deliver on our promises to the people of Wales. It also represents a significant investment in community safety at a time when police forces have faced significant reductions in their funding. We know, through the regular meetings between Ministers, chief constables and police and crime commissioners, that they are convinced of the good work of CSOs and are fully supportive of the Welsh Government commitment. Their continued commitment and support have been the key to the successful delivery of this project.

Of course, we cannot simply rely on anecdotal evidence. The introduction of an additional 500 CSOs is one of this Government's key programme for Government commitments and represents a significant investment of public funds, so it is vital that we have a robust, independent system of assessment in place to ensure value for money on behalf of the people of Wales.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro. Flwyddyn yn ôl, cyhoeddodd fy rhagflaenydd ein bod wedi cyflawni ymrwymiad y rhaglen lywodraethu i recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol i Gymru. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau'r swyddogion hyn ar ôl blwyddyn ar eu rhawd, ac ynghylch sut y mae eu gwaith yn cael ei werthuso. Rydym bob amser wedi nodi'n glir bwysigrwydd annibyniaeth weithredol yr heddlu wrth benderfynu ble i neilltuo'r swyddogion cymorth cymunedol. Serch hynny, rydym bob amser wedi bod yn awyddus i ardaloedd megis clystyrau Cymunedau yn Gyntaf gael eu targedu lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau bod y cyllid ychwanegol yn cynorthwyo'r rhai yr ydym o'r farn bod ei angen fwyaf arnynt. Rydym yn croesawu'n fawr gyfraniad swyddogion cymorth cymunedol i wneud rhai o'n cymunedau mwyaf diffeintiedig yn fwy diogel, yn gryfach ac yn fwy cydnerth.

Mae swyddogion cymorth cymunedol yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau. Gall y rhain fod mor amrywiol ag ymdrin â phroblemau parcio y tu allan i ysgolion neu fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel, yn ogystal â chymryd rhan mewn chwiliadau, atafaelu alcohol a thybaco, ac mewn ymholiadau o dŷ i dŷ mewn ymchwiliadau troseddol. Wrth gwrs, gall y problemau hyn amharu ar fywydau a gall ymdrin â hwy'n gyflym fod o fudd aruthrol i gymunedau. Rydym bob amser wedi dweud yn glir na fwriedir i swyddogion cymorth cymunedol gymryd lle swyddogion â gwarant. Fodd bynnag, mae ganddynt ystod o bwerau y gallant eu defnyddio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac achosion eraill o niwsans lefel isel. Maent hefyd yn ffynonellau hanfodol o wybodaeth am y gymuned, y gall yr heddlu ei defnyddio i ganfod a mynd i'r afael â throseddoldeb yn y cymunedau hyn.

Roedd ein buddsoddiad yn tystio i'r ffaith bod y Llywodraeth hon yn benderfynol o wneud cymunedau Cymru'n fwy diogel, ac yn dangos y gallwn gadw ein haddewidion i bobl Cymru. Mae hefyd yn fuddsoddiad sylweddol mewn diogelwch yn y gymuned ar adeg pan fo heddluoedd yn wynebu gostyngiadau sylweddol yn eu cyllid. Rydym yn gwybod, drwy'r cyfarfodydd rheolaidd rhwng Gweinidogion, prif gwnstabiliaid a chomisïynwyr heddlu a throseddu, eu bod hwy wedi'u hargyhoeddi bod y swyddogion cymorth cymunedol yn gwneud gwaith da ac maent yn gwbl gefnogol i ymrwymiad Llywodraeth Cymru. Mae eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus wedi bod yn allweddol i lwyddiant y prosiect hwn.

Wrth gwrs, ni allwn ddibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd yn unig. Mae cyflwyno 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol yn un o ymrwymadau allweddol rhaglen lywodraethu'r Llywodraeth hon ac mae'n fuddsoddiad sylweddol o arian cyhoeddus, felly mae'n hanfodol bod gennym system asesu gadarn, annibynnol ar waith i sicrhau gwerth am arian ar ran bobl Cymru.

In March last year, we commissioned the Universities Police Sciences Institute, or UPSI, to undertake research into the outcomes of our investment. The work involved the collection of primary data from selected communities within Wales, as well as bringing together a range of survey and administrative data from police forces and the national Crime Survey for England and Wales. They interviewed Welsh Government and Home Office-funded CSOs, as well as senior police officers within each of the four Welsh forces and the British Transport Police. We expect the final report to be available at the end of the year, and I will make a further statement to Members once the report is published. It is important for Members to understand that the appraisal of the work of the Welsh Government-funded CSOs aims to test key assumptions associated with their deployment and activities: that they have the potential positively to influence what people think about levels of neighbourhood security. The research will test the wider effect on communities, how people feel about living in their areas, whether they feel safer in their homes and going about their daily lives than they did before, and how accessible and identifiable they feel their local neighbourhood policing teams now are compared with prior to our investment.

I would like to finish by reminding Members again that the funding for these additional CSOs represents a substantial investment in community safety at a time of unprecedented pressure on budgets. Achieving this commitment has almost doubled the number of CSOs on our streets. We have always been clear that we are not backfilling for UK Government and Home Office cuts with this investment, but we also have to recognise the difficult financial position in which the police find themselves. We will continue to work closely with the police to make sure that our funding provides additional resources and value for money, and makes our communities feel safer. I look forward to the publication of the research report with great interest, and I will issue a written statement to Members when it is published.

Ym mis Mawrth y llynedd, comisiynwyd Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu, neu UPSI, i wneud ymchwil i ganlyniadau ein buddsoddiad. Roedd y gwaith yn golygu casglu data sylfaenol o gymunedau dethol yng Nghymru, yn ogystal â dwyn ynghyd amrywiaeth o ddata arolygon a data gweinyddol oddi wrth heddluoedd ac Arolwg Troseddu cenedlaethol Cymru a Lloegr. Cynhaliwyd cyfweiliadau â swyddogion cymorth cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, yn ogystal ag uwch swyddogion yr heddlu ymmhob un o bedwar heddlu Cymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain. Disgwylwn y bydd yr adroddiad terfynol ar gael ddiwedd y flwyddyn, a byddaf yn gwneud datganiad arall i'r Aelodau ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Mae'n bwysig bod yr Aelodau'n deall mai bwriad gwerthuso gwaith y swyddogion cymorth cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw profi rhagdybiaethau allweddol sy'n gysylltiedig â'u defnydd a'u gweithgareddau: bod ganddynt botensial i ddylanwadu'n gadarnhaol ar farn pobl am lefelau diogelwch cymdogaethau. Bydd yr ymchwil yn profi'r effaith ehangach ar gymunedau, sut y mae pobl yn teimlo am fyw yn eu hardaloedd, a ydynt yn teimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi ac yn eu bywydau bob dydd nag yr oeddent o'r blaen, a pha mor hygyrch a hawdd eu hadnabod y maent yn credu y mae eu timau plismona lleol yn y gymdogaeth yn awr o gymharu â chyn ein buddsoddiad.

Hoffwn ddirwyn i ben drwy atgoffa'r Aelodau unwaith eto fod y cyllid ar gyfer y swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol hyn yn fuddsoddiad sylweddol mewn diogelwch yn y gymuned ar adeg pan fo pwysau na welwyd mo'i debyg o'r blaen ar gyllidebau. Mae cyflawni'r ymrwymiad hwn wedi bron â dyblu nifer y swyddogion cymorth cymunedol ar ein strydoedd. Rydym bob amser wedi dweud yn glir nad ydym yn ôl-lenwi toriadau Llywodraeth y DU a'r Swyddfa Gartref gyda'r buddsoddiad hwn, ond rhaid inni hefyd gydnabod y sefyllfa ariannol anodd sydd ohoni i'r heddlu. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r heddlu i sicrhau bod ein cyllid yn darparu adnoddau ychwanegol a gwerth am arian, ac yn gwneud i'n cymunedau deimlo'n fwy diogel. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r adroddiad ymchwil â diddordeb mawr, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau pan gaiff ei gyhoeddi.

15:52 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call opposition spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Diolch ichi, Weinidog. Galwaf lefarydd yr wrthblaid, Janet Finch-Saunders.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:52 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I just applaud the Welsh Government for this initiative? I actually believe that CSOs are a very valued presence in our communities. Clearly, while you have provided funding previously, it would be good to have some assurances that these CSOs will be with us for quite some time, and that you can almost guarantee the funding, likewise.

A gaf fi ganmol Llywodraeth Cymru ar y fenter hon? Credaf fod swyddogion cymorth cymunedol yn bresenoldeb gwerthfawr iawn yn ein cymunedau. Wrth gwrs, er eich bod wedi darparu cyllid o'r blaen, byddai'n dda cael rhywfaint o sicrwydd y bydd y swyddogion cymorth cymunedol hyn gyda ni am beth amser, ac y gallwch bron warantu'r cyllid, yn yr un modd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

While I agree on the importance of police operational independence, there does appear to be some inconsistency in the powers of the various CSOs across Wales. I know that previous Ministers have felt the same. While we accept that this is at the discretion of the chief constable, it does become a source of great confusion for members of the public, not knowing in which part of Wales they are at as to what powers those particular CSOs have. What plans do you have in place to actually look at making this more consistent in its approach and, possibly, to have some kind of educational support out there, so that people actually do know, if a CSO is in their community, exactly what those powers are that are available to them?

Er fy mod yn cytuno ynghylch pwysigrwydd annibyniaeth weithredol yr heddlu, mae'n ymddangos bod rhywfaint o anghysondeb ym mhwerau'r gwahanol swyddogion cymorth cymunedol ledled Cymru. Gwn fod Gweinidogion blaenorol wedi teimlo'r un fath. Er ein bod yn derbyn bod hyn yn dibynnu ar ddisgresiwn y prif gwnstabl, mae'n peri dryswch mawr i aelodau'r cyhoedd, heb wybod ym mha ran o Gymru y maent o ran pa bwerau sydd gan y swyddogion cymorth cymunedol penodol hynny. Pa gynlluniau sydd gennych ar waith i edrych mewn gwirionedd ar wneud hyn yn fwy cyson o ran yr ymagwedd ac, o bosibl, i gael rhyw fath o gefnogaeth addysgol, fel bod pobl mewn gwirionedd yn gwybod, os oes swyddogion cymorth cymunedol yn eu cymuned, yn union pa bwerau sydd ar gael iddynt?

15:53

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I start by thanking the opposition spokesperson for her support for this policy? I am very pleased to say that we have the £15.76 million in our budgets, and, of course, this is a manifesto commitment and we are taking it forward for the lifetime of this Assembly.

A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i lefarydd yr wrthblaid am ei chefnogaeth i'r polisi hwn? Rwyf yn falch iawn o ddweud bod gennym y £15.76 miliwn yn ein cyllidebau, ac, wrth gwrs, mae hyn yn ymrwymiad yn ein manifesto ac rydym yn bwrw ymlaen ag ef am oes y Cynulliad hwn.

In respect of the questions that she asked on the issue of whether there is inconsistency in the deployment of CSOs across Wales, I repeat what I said in the statement: we recognise the operational independence of the police, but I would be happy to discuss the matter with the chief constables when I next meet them.

O ran y cwestiynau a ofynnodd ynghylch a oes anghysondeb o ran defnyddio swyddogion cymorth cymunedol ledled Cymru, ailadroddaf yr hyn a ddywedais yn y datganiad: rydym yn cydnabod annibyniaeth weithredol yr heddlu, ond byddwn yn hapus i drafod y mater â'r prif gwnstablaid pan fyddaf yn cwrdd â hwy nesaf.

15:54

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, may I thank you for the statement today, and may I pay tribute to both your predecessors, Lesley Griffiths and Carl Sargeant, for the way in which they took this key pledge of ours through? Of the 20 additional CSOs that have been provided in my constituency by Welsh Labour funding, I know that in many of the communities and streets through which they walk, the people feel that there is now somebody on the streets whom they can turn to. There is no confusion about what they do. People know that they turn to them in the first instance.

Weinidog, hoffwn ddiolch ichi am y datganiad heddiw, ac a gaf fi dalu teyrnged i'ch dau ragflaenydd, Lesley Griffiths a Carl Sargeant, am y modd y cyflawnasant yr addewid hwn, sy'n un o'n haddewidion allweddol? O blith yr 20 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol a ddarparwyd yn fy etholaeth i drwy gyllid Llafur Cymru, gwn fod pobl mewn nifer o'r cymunedau a'r strydoedd lle maent yn cerdded yn teimlo bellach fod rhywrai ar y strydoedd y gallant droi atynt. Nid oes dryswch ynghylch yr hyn y maent yn ei wneud. Mae pobl yn gwybod mai atynt hwy y dylent droi yn y lle cyntaf.

I was interested to see the piece of research that you have commissioned and are going to look at. Most of the things that you have looked at are soft options, but I say to you that we should look at the soft options available, in terms of the perception of people who talk to their CSOs on a regular basis, who give them the intelligence without knowing that they are doing so. It makes our communities feel a lot more secure, but there is also an effect on the wellbeing of those living in those communities.

Roedd yn ddiddorol gweld y darn o ymchwil yr ydych wedi ei gomisiynu ac yn mynd i edrych arno. Mae'r rhan fwyaf o'r pethau yr ydych wedi edrych arnynt yn opsiynau meddal, ond dywedaf wrthyh y dylem edrych ar yr opsiynau meddal sydd ar gael, o ran canfyddiad pobl sy'n siarad â'u swyddogion cymorth cymunedol yn rheolaidd, sy'n rhoi iddynt y wybodaeth heb wybod eu bod yn gwneud hynny. Mae'n gwneud i'n cymunedau deimlo'n fwy diogel o lawer, ond mae hefyd yn effeithio ar les y bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny.

When you next meet with the police and crime commissioners, will you ask them not to start tinkering with the budgets so that the money that we have put in for community support officers is not diminished because of the amount of money that would be cut back as a consequence? These should be seen as additional and, as you said, not backfill.

Pan fyddwch yn cwrdd nesaf â'r comisiynwyr heddlu a throsedd, a ofynnwch iddynt beidio â dechrau potsian â'r cyllidebau fel nad yw'r arian yr ydym wedi'i roi ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yn cael ei leihau oherwydd y swm o arian a fyddai'n cael ei dorri yn ôl o ganlyniad? Dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol ac, fel y dywedaso, nid yn rhywbeth i lenwi'r bylchau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank my colleague, the Member for the Vale of Clwyd. I am always happy to pay tribute to the work of my predecessors, the Members for Alyn and Deeside and for Wrexham. I know that, indeed, my immediate predecessor spent time out on the beat with community support officers over the course of the summer recess.

Diolch i'm cydweithiwr, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd. Rwyf bob amser yn hapus i dalu teyrnged i waith fy rhagflaenwyr, yr Aelodau dros Alun a Glannau Dyfrdwy a thros Wrecsam. Gwn, yn wir, fod fy rhagflaenydd uniongyrchol wedi treulio amser allan ar y rhawd gyda swyddogion cymorth cymunedol yn ystod toriad yr haf.

On the question of meeting with the police and crime commissioners, I certainly will take up the issue that has been raised by my colleague, the Member for the Vale of Clwyd, but I am certain that this money has been accepted as additional money, and it is intended to provide additional services. I think that I indicated that in my initial statement.

O ran cwrrd â'r comisiynwyr heddlu a throseddu, byddaf yn sicr yn trafod y mater a godwyd gan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, ond rwyf yn sicr bod yr arian hwn wedi ei dderbyn fel arian ychwanegol, a'i fod wedi ei fwriadu i ddarparu gwasanaethau ychwanegol. Credaf imi ddweud hynny yn fy natganiad cychwynol.

We will bring forward the research. I do not think that it is a question of looking at soft options here, but of looking at the experiences of people and what they feel about the safety of their communities, both before we put this investment in and subsequently.

Byddwn yn cyflwyno'r ymchwil. Nid wyf yn credu ei bod yn fater o edrych ar opsiynau meddal yma, ond o edrych ar brofiadau pobl a'r hyn y maent yn ei deimlo am ddiogelwch eu cymunedau, cyn inni roi'r buddsoddiad hwn i mewn ac ar ôl hynny.

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, ar ran Plaid Cymru, hoffwn groesawu'n fawr iawn y datganiad hwn a chroesawu'r ymchwil yr ydych wedi ei gomisiynu, oherwydd credaf fod hynny'n eithriadol o bwysig. Tra ydym i gyd yn cydnabod y gwaith da sydd wedi'i wneud gan y swyddogion cymunedol hyn, mae nifer o gwestiynau yn codi ac mae angen ymchwil manwl a thystiolaeth bendant. Rydych wedi dweud yn eich datganiad nad ydych am weld y swyddogion cymunedol hyn yn cymryd lle heddwision, ond mae angen tystiolaeth glir nad ydy hynny'n digwydd, oherwydd mae cyllidebau'r heddluoedd dan bwysau mawr, ac mae'n rhwydd iawn yn y sefyllfa honno i ddefnyddio presenoldeb swyddogion cymunedol fel rheswm i beidio â phenodi heddwision.

Minister, on behalf of the Party of Wales, I would like to warmly welcome this statement and also welcome the research that you have commissioned, because I think that that is extremely important. While we all acknowledge the good work that has been done by these community support officers, a great many questions arise for which detailed research and decisive evidence is needed. You have said in your statement that you do not want to see community support officers replacing police officers, but we need clear evidence that this is not happening, because the budgets of police forces are under a great deal of pressure, and it is very easy in that situation to use the presence of CSOs as a reason not to appoint police officers.

Gofynnaf ichi hefyd ystyried ceisio gwerthuso—er fy mod yn derbyn nad yw cyllideb yr heddlu wedi'i datganoli—werth buddsoddiad mewn swyddogion cymunedol yn erbyn buddsoddiad mewn heddwision, oherwydd rwy'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod yn gweld y dystiolaeth ar hynny'n glir er mwyn inni fod yn berffaith glir ynglŷn â gwerth y rôl sy'n cael ei chyflawni gan y swyddogion cymunedol hyn. Gofynnaf ichi hefyd, fel rhan o'r ymchwil, edrych ar y posibilrwydd o weld rôl y swyddogion cymunedol yn ehangach na dim ond cefnogi gwaith yr heddlu. Hynny yw, dylai gwaith gael ei wneud i ystyried y posibilrwydd o ymestyn eu rôl i weithio gyda rhai o'r gwasanaethau brys ac argyfwng eraill, yn enwedig y gwasanaeth tân, lle mae'r gyllideb eto dan bwysau mawr. Mae llawer iawn o waith addysgiadol a chymunedol yn cael ei wneud gan y gwasanaeth tân, felly a oes posibilrwydd y gallai rôl y swyddogion cymunedol hyn gael ei hymestyn i edrych ar hynny?

I also ask you to consider trying to evaluate—although I accept that the police budget is not devolved—the value of investment in CSOs as against investment in police officers, because I believe that it is very important that we see the evidence on that very clearly, so that we can be absolutely clear about the value of the role being fulfilled by these CSOs. I also ask you, as part of the research, to look at the possibility of seeing the role of CSOs as being broader than just supporting the work of the police. That is, work should be done to examine the possibility of extending their role to work with some of the other emergency services, particularly the fire service, where the budget again is under a great deal of pressure. There is a great deal of educational and community work is carried out by the fire service, so is there a possibility that the role of CSOs could be expanded to look at that and include that?

Rwy'n croesawu'r datganiad yn fawr iawn, Weinidog, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld canlyniadau'r ymchwil yr ydych wedi'i gomisiynu. Bydd hynny yn ein galluogi i weld yn glir pa mor werthfawr yw'r buddsoddiad hwn. Er ein bod yn teimlo, ar sail y dystiolaeth lafar sydd gennym, fod gwerth iddo, bydd yn dda gweld tystiolaeth i gadarnhau hynny.

I welcome the statement very much, Minister, and I look forward to seeing the results of the research that you have commissioned. That will enable us to see clearly how valuable this investment is. Although we have a feeling that, on the basis of the oral evidence that we have had, there is already value in it, it will be good to see the evidence to confirm that.



16:00

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Plaid Cymru spokesperson for what he said, and he is absolutely right to talk about the pressure that there has been on police forces. Since the 2010 spending review, UK Government plans have cut spending on policing by 5.1% in 2010-11, 6.7% in 2012-13, 1.6% in 2013-14 and 4.8% in this financial year. So, he is right to draw attention to the pressure on budgets. We will want to look at the research, and I have already said that I want to share that with Members. We will publish a written statement at the time that that is published.

Diolch i lefarydd Plaid Cymru am yr hyn a ddywedodd, ac mae'n hollol iawn i sôn am y pwysau sydd wedi bod ar heddluoedd. Ers adolygiad 2010 o wariant, mae cynlluniau Llywodraeth y DU wedi torri gwariant ar blismona 5.1% yn 2010-11, 6.7% yn 2012-13, 1.6% yn 2013-14 a 4.8% yn y flwyddyn ariannol hon. Felly, mae'n iawn i dynnu sylw at y pwysau ar gyllidebau. Byddwn yn awyddus i edrych ar y gwaith ymchwil, ac rwyf eisoes wedi dweud bod arnaf eisiau rhannu hynny â'r Aelodau. Byddwn yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig adeg cyhoeddi'r gwaith ymchwil hwnnw.

He raises some interesting questions about CSOs working perhaps alongside other branches of the emergency services. I will reflect on that, although I think at this stage it would certainly not be our intention to change significantly in any way what our funding is intended for. I think that it is important that, a year on, we see the work of those CSOs being embedded within their communities.

Roedd yn codi rhai cwestiynau diddorol am swyddogion cymorth cymunedol yn gweithio ochr yn ochr efallai â changhennau eraill o'r gwasanaethau brys. Byddaf yn ystyried hynny, er fy mod yn meddwl ar hyn o bryd na fyddai yn sicr yn fwriad gennym i newid yn sylweddol mewn unrhyw ffordd yr hyn y bwriedir ein cyllid ar ei gyfer. Credaf ei bod yn bwysig, flwyddyn yn ddiweddarach, ein bod yn gweld gwaith y swyddogion cymorth cymunedol hynny'n cael ei ymgorffori yn eu cymunedau.

He also raises an interesting question about the overall value for money in the context perhaps, should policing in due course be devolved, where would the investment best lie in terms of other warranted police officers or CSOs. It is an interested prospect and no doubt one to which we will return.

Mae hefyd yn codi cwestiwn diddorol ynghylch gwerth am arian yn gyffredinol, efallai yng nghyd-destun ymhle y gellid buddsoddi orau o ran swyddogion heddlu eraill â gwarant neu swyddogion cymorth cymunedol, pe câi plismona ei ddatganoli maes o law. Mae'n syniad diddorol ac yn ddiau yn un y byddwn yn dychwelyd ato.

16:01

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I also welcome this statement and the investment in PCSOs, which is quite evidently having an impact on communities. In my community, the PCSOs are working very effectively with the local community and local community groups, and making a huge difference in people's confidence and in the level of crime in their area. I also note that there has been a 14% fall in crime as the 2014 crime survey found, but I am not quite sure that that is down to PCSOs, as it may be more down to a number of other factors as part of that.

Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r datganiad hwn a'r buddsoddiad mewn swyddogion cymorth cymunedol, sy'n amlwg yn cael effaith ar gymunedau. Yn fy nghymuned i, mae'r swyddogion cymorth cymunedol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r gymuned leol a grwpiau cymunedol lleol, ac yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i hyder pobl ac i lefel y troseddu yn eu hardaloedd. Sylwaf hefyd y bu 14% o ostyngiad mewn troseddau fel y canfu arolwg troseddau 2014, ond nid wyf yn gwbl sicr bod hynny wedi digwydd yn sgil y swyddogion cymorth cymunedol; gallai fod oherwydd nifer o ffactorau eraill fel rhan o hynny.

I note that the Minister says in his statement that the research commissioned is to test key assumptions associated with the deployment and activities of PCSOs. As a result, there is little scope to influence the content of that research, seeing that it is already under way. However, I notice that one of the side effects of the deployment of PCSOs is that many communities now rely almost exclusively on PCSOs for day-to-day policing in their area, and that the number of warranted officers out and about on the streets seems to be declining. Certainly in my community, it is very rare to see a warranted officer at a Police and Communities Together meeting or out and about on the street—they tend to be deployed in other ways. Minister, does the research analyse the displacement effect that PCSOs are having on conventional police activities in terms of the deployment of warranted officers, and how they are being used as a result of that extra investment? Could the Minister also give an indication as to when exactly this research will be available? I think that it has been almost a year now since it was commissioned, and I think that we were expecting to have it available around about this time.

Sylwaf fod y Gweinidog yn dweud yn ei ddatganiad y bydd yr ymchwil a gomisiynwyd yn profi rhagdybiaethau allweddol sy'n gysylltiedig â defnyddio swyddogion cymorth cymunedol a'u gweithgareddau. O ganlyniad, nid oes llawer o le i ddylanwadu ar gynnwys yr ymchwil hwnnw, o ystyried ei fod eisoes yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, sylwaf mai un o sgil-ffeithiau defnyddio swyddogion cymorth cymunedol yw bod nifer o gymunedau bellach yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar y swyddogion cymorth cymunedol i blismona o ddydd i ddydd yn eu hardaloedd, a bod nifer y swyddogion â gwarant allan ar y strydoedd fel petai'n gostwng. Yn sicr yn fy nghymuned i, mae'n beth prin iawn gweld swyddog â gwarant mewn cyfarfod Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd neu allan ar y stryd—maent yn tueddu i gael eu defnyddio mewn ffyrdd eraill. Weinidog, a yw'r ymchwil yn dadansoddi'r effaith dadleoli y mae swyddogion cymorth cymunedol yn ei chael ar weithgareddau confensiynol yr heddlu o ran defnyddio swyddogion â gwarant, a sut y maent yn cael eu defnyddio yn sgil y buddsoddiad ychwanegol? A wnaiff y Gweinidog hefyd ddweud pryd yn union y bydd yr ymchwil hwn ar gael? Credaf fod bron i flwyddyn bellach ers iddo gael ei gomisiynu, a chredaf ein bod yn disgwyl iddo fod ar gael tua'r adeg hon.

16:03

### **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I am pleased to hear the welcome for the work of CSOs across Wales and the investment by the Welsh Government. In answer to his question on the research, we expect the final report to be with us towards the end of the year, and I will make a further statement to Members once the report is published.

Unwaith eto, rwyf yn falch o glywed y croeso i waith swyddogion cymorth cymunedol ar draws Cymru a'r buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. O ran ei gwestiwn am yr ymchwil, rydym yn disgwyl i'r adroddiad terfynol gyda ni tua diwedd y flwyddyn, a byddaf yn gwneud datganiad arall i'r Aelodau ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

I would certainly want to identify any evidence that CSOs were replacing the work of warranted police officers on our streets. That would certainly need to be pointed out to me if that was the case, because, as I have said, our investment has been additional and we are confident from the conversations that we have had with chief constables, police and crime commissioners and others that that work is additional. I would remind him that when the UK Government began the process of cutting the funding to the police service from 2010 onwards, it claimed that it would still be able to ensure adequate coverage by warranted police officers, and indeed that it would be able to move more officers to the front line and to the streets. If issues are now arising, I think that people in Wales know where the buck stops.

Byddwn yn sicr yn awyddus i nodi unrhyw dystiolaeth bod swyddogion cymorth cymunedol yn disodli gwaith swyddogion yr heddlu â gwarant ar ein strydoedd. Byddai angen tynnu fy sylw at hynny'n sicr pe bai'n wir, oherwydd, fel y dywedais, mae ein buddsoddiad wedi bod yn un ychwanegol ac rydym yn ffyddiog o'r sgysiau yr ydym wedi'u cael â phrif gwnstablaiad, comisiynwyr heddlu a throseddu ac eraill fod y gwaith hwnnw'n ychwanegol. Byddwn yn ei atgoffa bod Llywodraeth y DU, pan ddechreuodd y broses o dorri cyllid i'r gwasanaeth heddlu o 2010 ymlaen, yn honni y byddai'n dal i allu sicrhau bod digon o swyddogion yr heddlu â gwarant ar gael, ac yn wir y byddai'n gallu symud mwy o swyddogion i'r rheng flaen ac i'r strydoedd. Os oes problemau'n codi yn awr, rwyf yn meddwl bod pobl yng Nghymru'n gwybod ble mae'r cyfrifoldeb.

16:04

### **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:05

**Memorandwm Cydsyniad  
Deddfwriaethol Atodol  
(Memorandwm Rhif 2) ar y Bil  
Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd  
mewn perthynas â Darpariaethau  
sy'n Ymwneud â'r Drosedd o Gam-  
drin neu Esgeulustod Bwriadol gan  
Weithwyr Gofal**

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford, to move the motion.

Cynnig NDM5540 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd sy'n ymwneud â throsedd esgeulustod bwriadol neu gamdriniaeth gan ofalwyr, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Supplementary Legislative  
Consent Memorandum  
(Memorandum No 2) on the  
Criminal Justice and Courts Bill in  
respect of Provisions relating to  
Offence of Ill-treatment or Wilful  
Neglect by Care Workers**

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, i gynnig y cynnig.

Motion NDM5540 Mark Drakeford

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Criminal Justice and Courts Bill, relating to a criminal offence of wilful neglect or ill-treatment on the part of carers in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:05

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move the motion.

The UK Government's Criminal Justice and Courts Bill includes provisions that act upon advice received from Professor Don Berwick and the national group set up in England to provide advice to the Department of Health on the implementation of the Francis report recommendations. The relevant clauses for our consideration establish a new statutory offence of wilful neglect or ill-treatment on the part of healthcare workers and social care workers and the organisations in which they work. The offence is aimed at those who act in a culpably neglectful manner or mistreat those in their care. I have concluded that it makes best sense for these clauses to apply here in Wales, and hence this supplementary legislative consent motion. I am very grateful to the Health and Social Care Committee for its careful scrutiny of the legislative consent memorandum and for its subsequent report. The report concluded that the provisions in the Criminal Justice and Courts Bill accord with Welsh Government policy objectives in this field and raised no objections to the use of the LCM in the manner that the Welsh Government proposes. I move the motion on that basis.

Cynigiau y cynnig.

Mae Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd Llywodraeth y DU yn cynnwys darpariaethau sy'n gweithredu ar gyngor a dderbyniwyd gan yr Athro Don Berwick a'r grŵp cenedlaethol a sefydlwyd yn Lloegr i ddarparu cyngor i'r Adran Iechyd ar weithredu argymhellion adroddiad Francis. Mae'r cymalau perthnasol inni eu hystyried yn sefydlu trosedd statudol newydd o esgeulustod bwriadol neu gamdriniaeth gan weithwyr gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol a'r sefydliadau lle maent yn gweithio. Mae'r drosedd wedi ei hanelu at y rhai sy'n gweithredu mewn ffordd feius esgeulus neu'n cam-drin y rhai sydd yn eu gofal. Rwyf wedi dod i'r casgliad mai'r peth gorau yw i'r cymalau hyn fod yn berthnasol yma yng Nghymru, ac felly'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ei waith craffu gofalus ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ac am ei adroddiad dilynol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y darpariaethau yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ac ni chododd unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y modd y mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnig. Cynigiau y cynnig ar y sail honno.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:06

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:06

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Chair. I am pleased to contribute to this debate in my capacity as the Chair of the Health and Social Care Committee. I do not intend to repeat the information about the supplementary LCM already provided by the Minister and I will try to concentrate on the work of the committee. The supplementary LCM was referred to us at the end of the summer term because this important subject matter of making wilful neglect or ill-treatment on the part of carers an offence falls within our remit. Due to the committee's workload at the end of term, time for considering the supplementary LCM was limited. Nevertheless, we wrote to the Welsh Government to seek clarification on some points.

First, we asked how the supplementary LCM related to the Government's objectives in this area. We were content with the Minister's response, which noted that making wilful neglect and ill-treatment on the part of carers an offence complements the Government's overarching aim of ensuring that unacceptable care is not tolerated here in Wales. Secondly, we asked for clarification of how wilful neglect and ill-treatment committed by those who are excluded from provision in the UK Bill will be addressed. We are satisfied with the Minister's assurances that these individuals and organisations are covered by existing legislation. Finally, we queried whether it was considered appropriate to proceed by way of UK legislation rather than by means of forthcoming legislation on the regulation and inspection of care and support in Wales. The committee accepts the Minister's explanation that, as the scope of the forthcoming social services regulation and inspection Bill will be restricted to social care alone and there is no opportunity within the Government's legislative programme to legislate for healthcare workers, it is sensible to take the opportunity to legislate simultaneously for both professions at this time. As the Minister has highlighted, the committee concluded that it had no objection to the use of the LCM in the manner proposed.

Diolch, Gadeirydd. Rwyf yn falch o gyfrannu at y ddatl hon yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Nid wyf yn bwriadu ailadrodd y wybodaeth am y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol a ddarparwyd eisoes gan y Gweinidog ac rwyf am geisio canolbwyntio ar waith y pwyllgor. Cafodd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ei gyfeirio atom ar ddiwedd tymor yr haf gan fod mater pwysig gwneud esgeulustod bwriadol neu gamdriniaeth gan ofalwyr yn drosedd yn rhan o'n cylch gwaith. Oherwydd llwyth gwaith y pwyllgor ar ddiwedd y tymor, roedd yr amser a oedd ar gael i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn gyfyngedig. Serch hynny, ysgrifenasom at Llywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ar rai pwyntiau.

Yn gyntaf, gofynnwyd sut yr oedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cydbletu ag amcanion y Llywodraeth yn y maes hwn. Roeddem yn fodlon ag ymateb y Gweinidog, a oedd yn nodi bod gwneud esgeuluso bwriadol a chamdriniaeth gan ofalwyr yn drosedd yn cyd-fynd â nod cyffredinol y Llywodraeth o sicrhau nad yw gofal annerbyniol yn cael ei oddef yma yng Nghymru. Yn ail, gofynasom am eglurhad ynghylch sut y bydd esgeulustod bwriadol a chamdriniaeth gan y rhai sydd wedi eu heithrio o'r ddarpariaeth ym Mil y DU yn cael sylw. Rydym yn fodlon â sicrwydd y Gweinidog fod deddfwriaeth bresennol yn ymdrin â'r unigolion a'r sefydliadau hyn. Yn olaf, gofynasom a oedd yn cael ei ystyried yn briodol symud ymlaen drwy ddeddfwriaeth y DU yn hytrach na thrwy gyfrwng deddfwriaeth arfaethedig ar reoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r pwyllgor yn derbyn eglurhad y Gweinidog, gan y bydd cwmpas y Bil arfaethedig ar reoleiddio ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol wedi'i gyfyngu i ofal cymdeithasol yn unig ac nad oes cyfle o fewn rhaglen deddfwriaethol y Llywodraeth i ddeddfu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd, ei bod yn synhwyrol manteisio ar y cyfle i ddeddfu ar yr un pryd ar gyfer y ddau broffesiwn. Fel y mae'r Gweinidog wedi'i nodi, casgliad y pwyllgor oedd nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y modd a gynigiwyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:08

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I call on the Minister for Health and Social Services to reply to the debate.

Diolch. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:08

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Chair of the committee for finding time to carry out this work at a point when I know the programme of the committee's work was exceptionally busy. All the points raised by the committee were ones that I was glad to have the opportunity to respond to. I am grateful for the indication that those explanations were accepted. Therefore, I ask Members to support the motion this afternoon.

Diolch i Gadeirydd y pwyllgor am ddod o hyd i amser i wneud y gwaith hwn ar adeg pan wyf yn gwybod bod rhaglen waith y pwyllgor yn eithriadol o brysur. Mae pob un o'r pwyntiau a godwyd gan y pwyllgor yn rhai yr oeddwn yn falch o gael cyfle i ymateb iddynt. Rwyf yn ddiolchgar iddo am ddweud bod yr esboniadau wedi eu derbyn. Felly, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynnig hwn y prynhawn yma.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:08

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The proposal is that the motion be agreed to. Does any Member object? There are no objections. In that case, the motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Darledu Gwasanaeth Cyhoeddus

*Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 4, 5, 6 a 7 yn enw Paul Davies, a gwelliant 8 yn enw Elin Jones.*

## Public Service Broadcasting

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts, amendments 4, 5, 6 and 7 in the name of Paul Davies, and amendment 8 in the name of Elin Jones.*

16:09 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to move the motion—Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i gynnal y cynnig—Ken Skates.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5581 Jane Hutt

Motion NDM5581 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn cydnabod pwysigrwydd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

Recognises the importance of the Public Service Broadcasters in Wales.

16:09 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*  
Thank you. I move the motion.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I very much welcome the opportunity to debate this important issue today because, of course, public service broadcasters in Wales have a crucial role to play in civic life and contribute greatly to cultural, social and political landscapes. Indeed, their role of course is even more important in Wales in the context of a weak print media. We therefore support amendment 5 in the name of Paul Davies. Public service broadcasters are also a vital part of the thriving creative industries sector in Wales, a sector that is now central to the lives of people across the country. This is now a sector where Wales has no commercial or technological disadvantage. We are constrained only by our talent, our ambition and our determination.

Rwyf yn croesawu'n fawr y cyfle i drafod y mater pwysig hwn heddiw oherwydd, wrth gwrs, mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ran hanfodol i'w chwarae mewn bywyd dinesig ac maent yn cyfrannu'n fawr at dirweddau diwyllianol, cymdeithasol a gwleidyddol. Yn wir, mae eu rôl, wrth gwrs, hyd yn oed yn fwy pwysig yng Nghymru yng nghyd-destun ein cyfryngau print gwan. Felly, rydym yn cefnogi gwelliant 5 yn enw Paul Davies. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn rhan hanfodol o sector y diwydiannau creadigol sy'n ffynnu yng Nghymru, sector sydd bellach yn ganolog i fywydau pobl ledled y wlad. Mae hwn bellach yn sector lle nad oes gan Gymru anfantais fasnachol na thechnolegol. Ein talent, ein huchelgais a'n penderfyniad yw'r unig bethau sy'n cyfyngu arnom.

The Welsh Government's priority is therefore to provide the support and guidance to ensure that no talent is unfulfilled and no viable creative idea is wasted. The public service broadcasters are and will remain key partners in that ambition. They are among those leading the way in innovative use of new models for delivering content, but linear broadcasting is remarkably resilient, and it is likely to remain the most popular method of consuming broadcast content for some time to come. Although the Welsh Government does not have direct responsibility for broadcasters in Wales, this does not mean that we do not have any influence on broadcasting issues.

Felly, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw rhoi cymorth ac arweiniad i sicrhau nad oes dim talent heb ei wireddu ac nad oes yr un syniad creadigol dichonadwy'n cael ei wastraffu. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn bartneriaid allweddol yn yr uchelgais hwnnw, a bydd hynny'n parhau. Maent ymhlith y rhai sy'n arwain y ffordd o ran defnyddio modelau newydd i ddarparu cynnwys mewn modd arloesol, ond mae darlledu llinol yn hynod wydn, ac mae'n debygol mai dyma fydd y dull mwyaf poblogaidd o ddefnyddio cynnwys a ddarlledir am beth amser i ddod. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol dros ddarlledwyr yng Nghymru, nid yw hyn yn golygu nad oes gennym ddim dylanwad ar faterion darlledu.

Acting Deputy Presiding Officer, this is a vital period for the broadcasting sector in Wales and I will now take this opportunity to raise some of the issues relating to constitutional arrangements. There is little doubt that the broadcasting structures currently in place will change in the future. Given the clear outcome of the recent referendum in Scotland, the debate about how they should change can now move forward, and it will undoubtedly gather momentum after the next general election.

As a Government, we will of course continue to monitor developments within the media sector and we will be proactive in this debate, to ensure that any changes protect and serve the best interests of people and businesses in Wales. We are, of course, still waiting for the UK Government's response to our submission to the Silk commission; we have submitted ours, but we are still awaiting the UK Government's response.

The Welsh Government welcomes the fact that Ofcom is conducting a further review of public service broadcasting this year, despite the UK Government's failed attempt to remove this requirement. There has been no evaluation or assessment of whether current public service obligations remain fit for purpose since powers were devolved to the nations. Over the same period, those obligations have been allowed to erode, largely for commercial reasons.

Broadcasting directed specifically at Welsh listeners and viewers has been under considerable pressure in recent years. There has been a 23% reduction since 2008 in the amount of first-run programming produced for Welsh audiences. The amount of first-run programmes produced in Welsh has remained fairly stable, so this decline is largely in English-language programming for Wales. Clearly, a fresh evaluation of Wales's PSB requirements is needed urgently and, naturally, we will respond to Ofcom's consultation.

We welcome amendment 4 in the name of Aled Roberts. Ofcom's review will deal with all aspects of public service broadcasting, including community radio. Devolving community radio licensing will of course require changes to legislation, but this is a matter we will consider in going forward in the context of the review. We therefore also support amendment 3 in the name of Aled Roberts.

We welcomed the Silk commission's recommendations on broadcasting appointments and on scrutiny of the BBC in Wales, which were consistent with the Welsh Government's written evidence to the commission. We therefore support amendment 2 in the name of Aled Roberts.

Ddirprwy Lywydd Dros Dro, mae hwn yn gyfnod allweddol i'r sector darlledu yng Nghymru ac rwyf yn awr am gymryd y cyfle hwn i godi rhai o'r materion sy'n ymwneud â threfniadau cyfansoddiadol. Nid oes fawr o amheuaeth na fydd y strwythurau darlledu sydd ar waith ar hyn o bryd yn newid yn y dyfodol. O ystyried canlyniad diir y refferendwm diweddar yn yr Alban, gall y ddadl ynghylch sut y dylent newid yn awr symud ymlaen, a bydd y momentwm yn sicr yn cynyddu ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf.

Fel Llywodraeth, byddwn wrth gwrs yn parhau i fonitro datblygiadau o fewn sector y cyfryngau a byddwn yn rhagweithiol yn y ddadl hon, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn diogelu ac yn gwasanaethu buddiannau pobl a busnesau yng Nghymru. Rydym, wrth gwrs, yn dal i aros am ymateb Llywodraeth y DU i'n cyflwyniad i gomisiwn Silk; rydym wedi cyflwyno ein un ni, ond rydym yn dal i aros am ymateb Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r ffaith bod Ofcom yn cynnal adolygiad pellach o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus eleni, er gwaethaf ymgais aflwyddiannus Llywodraeth y DU i gael gwared ar y gofyniad hwn. Ni fu dim gwerthuso nac asesu ar p'un a yw rhwymedigaethau presennol gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn addas i'r diben ers i bwerau gael eu datganoli i'r cenhedloedd. Dros yr un cyfnod, gadawyd i'r rhwymedigaethau hynny erydu, yn bennaf am resymau masnachol.

Mae darlledu sydd wedi'i gyfeirio'n benodol at wrandawyr a gwylwyr yng Nghymru wedi bod o dan bwysau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bu 23% o ostyngiad ers 2008 yn nifer y rhaglenni rhediad cyntaf a gynhyrwyd ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae nifer y rhaglenni rhediad cyntaf a gynhyrwyd yn y Gymraeg wedi aros yn weddol sefydlog, felly mae'r gostyngiad hwn yn bennaf mewn rhaglenni Saesneg i Gymru. Yn amlwg, mae angen gwerthusiad o'r newydd o ofynion darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymru ar fyrder ac, wrth gwrs, byddwn yn ymateb i ymgynghoriad Ofcom.

Rydym yn croesawu gwelliant 4 yn enw Aled Roberts. Bydd adolygiad Ofcom yn ymdrin â phob agwedd ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys radio cymunedol. Bydd yn rhaid newid y ddeddfwriaeth, wrth gwrs, er mwyn datganoli trwyddedu radio cymunedol, ond mae hwn yn fater y byddwn yn ei ystyried wrth symud ymlaen yng nghyd-destun yr adolygiad. Felly, rydym hefyd yn cefnogi gwelliant 3 yn enw Aled Roberts.

Roeddem yn croesawu argymhellion comisiwn Silk ar benodiadau darlledu ac ar graffu ar y BBC yng Nghymru, a oedd yn gyson â thystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r comisiwn. Felly, rydym yn cefnogi gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.

The Welsh Government is fully aware of the need to improve the accountability of broadcasters in Wales and this was reflected in our evidence to the Silk commission as well as our programme for government. We therefore support amendments 6 and 7 in the name of Paul Davies. Since its formation in 2012, the First Minister's broadcasting advisory panel has provided effective policy advice on this and many other aspects of broadcasting policy, strengthening our engagement with Ofcom and the Department for Culture, Media and Sport on broadcasting issues.

Turning to S4C, it is vital that S4C has sufficient funding as well as editorial and managerial independence, and we therefore support amendment 1 in the name of Aled Roberts. S4C is now, of course, in a different position from where it was before the decisions taken by the UK Government in 2010 as part of its comprehensive spending review. Ninety per cent of S4C's funding now comes from the licence fee. We welcome the fact that this funding has been guaranteed until the end of the current licence fee settlement in 2017. However, S4C has not yet received confirmation of the DCMS contribution for 2016-17, and it is vital that this is agreed as soon as possible. The Welsh Government remains very concerned about S4C's position and has consistently expressed these concerns to the UK Government. In these difficult economic times, working in partnership is vital. We are encouraged by the greater collaboration between the BBC and S4C and that the operating agreement is much wider than the funding and accountability arrangements, extending to a creative partnership at all levels within the BBC and S4C.

Turning to BBC funding, the Welsh Government has naturally been concerned about the need for BBC Cymru Wales to deal with a significant reduction in its budget as part of the Delivering Quality First proposals, including the loss of a number of jobs. The Welsh Government has taken, and will continue to take, every opportunity to inform the BBC executive in Cardiff and in London that we do not see the development of Cardiff as an increasingly important centre for network productions as any sort of quid pro quo for reducing the BBC's investment in local services. We have also emphasised that there should be a clear commitment to safeguarding and strengthening the core services that are aimed at Welsh viewers and listeners in both languages, but especially in English, where I have already described a notable reduction over the last few years. This, of course, includes news and non-news.

The Welsh Government is fully aware of the importance of the renewal of the BBC's royal charter and the potential implications for BBC Cymru Wales, S4C and the independent production companies across Wales that provide content for both. We expect to be fully involved. Wales must have a voice in these deliberations. Otherwise, the UK Government may instigate changes at the BBC that do not meet our needs. It is vital that the new charter should fully reflect the interests of the people of Wales and the current and changing devolved settlement. Our priorities for the next charter will include ensuring that there is sufficient funding for BBC Cymru Wales, for news and non-news programming in the Welsh and English languages.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymwybodol o'r angen i wella atebolrwydd darlledwyr yng Nghymru ac adlewyrchwyd hyn yn ein tystiolaeth i gomisiwn Silk yn ogystal â'n rhaglen lywodraethu. Felly, rydym yn cefnogi gwelliannau 6 a 7 yn enw Paul Davies. Ers ei ffurfio yn 2012, mae panel cyngori'r Prif Weinidog ar ddarlledu wedi darparu cyngor polisi effeithiol ar hyn ac ar lawer o agweddau eraill ar bolisi darlledu, gan gryfhau ein hymgysylltiad ag Ofcom a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar faterion darlledu.

Athroi at S4C, mae'n hanfodol bod gan S4C gyllid digonol yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol, ac felly rydym yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Aled Roberts. Mae S4C yn awr, wrth gwrs, mewn sefyllfa wahanol i ble'r oedd cyn y penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU yn 2010 fel rhan o'i hadolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae naw deg y cant o gyllid S4C yn awr yn dod o ffi'r drwydded. Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr arian hwn wedi'i warantu tan ddiwedd setliad cyfredol ffi'r drwydded yn 2017. Fodd bynnag, nid yw S4C wedi cael cadarnhad eto o gyfraniad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer 2016-17, ac mae'n hanfodol cytuno ar hyn cyn gynted â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn bryderus iawn am sefyllfa S4C ac mae wedi mynegi'r pryderon hyn wrth Lywodraeth y DU yn gyson. Yn y cyfnod economaidd anodd hwn, mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol. Mae'n galonogol gweld y cydweithredu gwell rhwng y BBC ac S4C, a bod y cytundeb gweithredu'n ehangach o lawer na'r trefniadau ariannu ac atebolrwydd, sy'n creu partneriaeth greadigol ar bob lefel o fewn y BBC ac S4C.

A throi at gyllid y BBC, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn pryderu, wrth gwrs, am yr angen i BBC Cymru ddygydd â gostyngiad sylweddol yn ei chyllideb fel rhan o gynigion Darparu Ansawdd yn Gyntaf, gan gynnwys colli nifer o swyddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd, a bydd yn parhau i gymryd, pob cyfle i roi gwybod i weithrediaeth y BBC yng Nghaerdydd ac yn Llundain nad ydym yn gweld datblygu Caerdydd fel canolfan gynyddol bwysig ar gyfer cynrychiadau rhwydwaith fel quid pro quo o fath yn y byd ar gyfer lleihau buddsoddiad y BBC mewn gwasanaethau lleol. Rydym wedi pwysleisio hefyd y dylai fod ymrwymiad clir i ddiogelu a chryfhau'r gwasanaethau craidd sydd wedi'u hanelu at wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru yn y ddwy iaith, ond yn enwedig yn y Saesneg, lle'r wyf eisoes wedi disgrifio gostyngiad sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn, wrth gwrs, yn cynnwys rhaglenni newyddion a darpariaeth arall.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymwybodol o bwysigrwydd adnewyddu siarter frenhinol y BBC a'r goblygiadau posibl i BBC Cymru, S4C a'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol ledled Cymru sy'n darparu cynnwys ar gyfer y ddau. Rydym yn disgwyl bod yn rhan lawn o hyn. Rhaid i Gymru gael llais yn y trafodaethau hyn. Fel arall, efallai y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi ar waith newidiadau yn y BBC nad ydynt yn bodloni ein hanghenion. Mae'n hanfodol bod y siarter newydd yn adlewyrchu'n llwyr fuddiannau pobl Cymru ynghyd â'r setliad datganoledig presennol a'r setliad sy'n newid. Bydd ein blaenoriaethau ar gyfer y siarter nesaf yn cynnwys sicrhau bod digon o arian i BBC Cymru, ar gyfer rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill yn y Gymraeg a'r Saesneg.

BBC Cymru Wales's budget, of course, has to cater for Welsh and English programming, which is different to the position in Scotland. Among other priorities, we will also be seeking an ongoing commitment to an increase in both out-of-London productions and the BBC's investment and economic impact in the nations and regions of the UK, including Wales.

The Welsh Government has made clear the importance it attaches to appropriate coverage of Wales on the main television networks. We expect the BBC Trust and Audience Council for Wales to continue to implement the recommendations of the King report. These recommendations are also relevant to other public service broadcasters, including ITV news and Channel 4 news. It is vital that these channels also appropriately reflect the devolved nations in their news and non-news provision.

The Welsh Government is fully aware of the importance of ensuring plurality of English-language television in Wales, in news and also general programming aimed at Welsh viewers. ITV Wales continues to have a role to play as an alternative to the BBC for news and non-news programming. The Welsh Government has regularly stated that protecting the existing coverage provision should have been the minimum condition for renewal of the channel three licence. Indeed, we would like to see an increase in provision. We welcomed the creation of a separate channel three licence for Wales, which we believe should reflect Welsh identity in name and output, as is the case with the equivalent channel three licences in Scotland and Northern Ireland. We are disappointed that the opportunity was not taken to strengthen the terms of the licence, both to guarantee a higher level of service provision for Wales and to protect that service in the event of any change of ownership, but we remain committed to a constructive dialogue with Ofcom and ITV to maximise the impact of the licence in Wales.

It is also important that the commercial radio sector in Wales provides appropriate news and non-news programming. We are naturally concerned that this has declined in recent years, and we therefore support amendment 8 in the name of Elin Jones.

In conclusion, the Welsh Government is fully aware of the economic impact of broadcasting. For example, independent research has shown that every £1 that broadcasters invest in content produces almost £2 of added value to the Welsh economy. In addition, it has been reported that, over the course of the production of 'Hinterland', the combined effect of the direct, indirect and induced spending equated to an estimated £1,040,000 spent in Aberystwyth. A vibrant media sector is an essential component of a modern democratic society. As a nation with its own language, culture and political institutions, strong media are essential to provide a comprehensive service that informs, educates and inspires the people of Wales.

Mae cyllideb BBC Cymru, wrth gwrs, yn gorfod darparu ar gyfer rhaglenni Cymraeg a Saesneg, sy'n wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban. Ymhlith y blaenoriaethau eraill, byddwn hefyd yn gofyn am ymrwymiad parhaus i gynydd mewn cynrychiadau y tu allan i Lundain a buddsoddiad y BBC a'i effaith economaidd yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, gan gynnwys Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei bod yn rhoi pwys ar sylw priodol i Gymru ar y prif rwydweithiau teledu. Rydym yn disgwyl i Ymddiriedolaeth y BBC a Chyngor Cynulleidfda Cymru barhau i weithredu argymhellion adroddiad King. Mae'r argymhellion hyn hefyd yn berthnasol i ddarleddwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gan gynnwys newyddion ITV a newyddion Channel 4. Mae'n hanfodol bod y sianeli hyn hefyd yn adlewyrchu'r cenhedloedd datganoledig yn briodol yn eu darpariaeth newyddion a'u darpariaeth arall.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau lluosogrwydd teledu Saesneg yng Nghymru, yn y newyddion a hefyd o ran rhaglenni cyffredinol wedi'u hanelu at wylwyr yng Nghymru. Mae ITV Cymru yn parhau i fod â rhan i'w chwarae fel dewis amgen i'r BBC o ran rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn gyson y dylai gwarchod y ddarpariaeth bresennol fod wedi bod yn amod sylfaenol i adnewyddu trwydded sianel tri. Yn wir, byddem yn hoffi gweld cynnydd yn y ddarpariaeth. Rydym yn croesawu sefydlu trwydded sianel tri ar wahân i Gymru, a chredwn y dylai adlewyrchu hunaniaeth Cymru mewn enw a chynnyrch, fel sy'n digwydd gyda'r drwydded sianel tri gyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn siomedig na fanteisiwyd ar y cyfle i gryfhau amodau'r drwydded, er mwyn sicrhau lefel uwch o ddarpariaeth gwasanaeth i Gymru ac i amddiffyn y gwasanaeth pe bai newid perchnogaeth, ond rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddeialog adeiladol ag Ofcom ac ITV er mwyn sicrhau bod y drwydded yn cael yr effaith fwyaf bosibl yng Nghymru.

Mae hefyd yn bwysig bod y sector radio masnachol yng Nghymru'n darparu rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill priodol. Rydym yn bryderus, wrth gwrs, fod hyn wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf, ac felly rydym yn cefnogi gwelliant 8 yn enw Elin Jones.

I gloi, mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymwybodol o effaith economaidd darlledu. Er enghraifft, mae ymchwil annibynnol wedi dangos bod pob £1 y mae darlledwyr yn ei buddsoddi mewn cynnwys yn creu bron i £2 o werth ychwanegol i economi Cymru. Yn ogystal, adroddwyd bod effaith gyfunol y gwariant uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig yn ystod gwaith cynhyrchu 'Y Gwyll' yn cyfateb i oddeutu £1,040,000 wedi'i wario yn Aberystwyth. Mae sector cyfryngau bywiog yn elfen hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd fodern. Fel cenedl â'i hiaith, ei diwylliant a'i sefydliadau gwleidyddol ei hun, mae cyfryngau cryf yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn ysbrydoli pobl Cymru.



16:20

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Presiding Officer has selected the eight amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendments 1, 2 and 3 tabled in the name of Aled Roberts.

Mae'r Llywydd wedi dethol yr wyth gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylid diogelu cyllid ac annibyniaeth golygyddol darlledwyr iaith Gymraeg.*

*Believes that the funding and editorial independence of Welsh language broadcasters should be protected.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu:*

*Believes that:*

*a) y dylid creu corff llywodraethu datganoledig o fewn Ymddiriedolaeth y BBC yn y DU;*

*a) a devolved governance body within the BBC UK Trust should be created;*

*b) y dylid penodi cynrychiolydd Cymru ar Ymddiriedolaeth y BBC drwy gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; ac*

*b) the representative of Wales to the BBC Trust should be appointed by formal agreement between the Welsh and UK Governments; and*

*c) y dylai bwrdd Ofcom gynnwys aelod sydd â chyfrifoldeb penodol dros gynrychioli Cymru.*

*c) the Ofcom board should include a member with specific responsibility for representing Wales.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylid datganoli trwyddedu radio cymunedol i'r Cynulliad Cenedlaethol.*

*Believes that community radio licensing should be devolved to the National Assembly.*

16:20

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I move amendments 1, 2 and 3.

Cynigiau welliannau 1, 2 a 3.

I very much welcome the opportunity to have this debate and certainly welcome the Deputy Minister accepting, I think, all eight amendments in his speech. We were ticking them off as he went along; it was like a game of bingo over here. I think that if those amendments are accepted, we will have a comprehensive motion that is a statement of where we stand as an Assembly on public service broadcasting.

Rwyf yn croesawu'n fawr y cyfle i gael y ddatl hon ac yn sicr yn croesawu'r ffaith i'r Dirprwy Weinidog dderbyn, rwyf yn meddwl, pob un o'r wyth gwelliant yn ei araith. Roeddem yn eu ticio oddi ar y rhestr wrth iddo fynd yn ei flaen; roedd fel gêm o bingo draw yma. Os caiff y gwelliannau hynny eu derbyn, bydd gennym gynnig cynhwysfawr sy'n ddatganiad o'n safbwynt fel Cynulliad ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

As a Welsh Liberal Democrat, I am part of a party that is a firm supporter of public service broadcasting. As our amendments show, we believe that it should be protected and developed in a devolved Wales and as part of a devolved settlement that is enhanced from where we currently stand. However, given the traditional UK-wide remit of broadcasting in the United Kingdom, the current financial arrangements of BBC Wales and S4C, and issues around broadcasting signals et cetera, we accept that you cannot have the complete devolution of broadcasting to Wales, but, certainly, we can go quite significantly forward in terms of what we can do to give Wales a greater influence and say in terms of how public service broadcasting is delivered to people in our country.

The current governance arrangements for S4C demonstrate that it is possible to increase Welsh Government involvement in broadcasting policy without necessitating the full devolution of broadcasting, but we need to see that strengthened. Touching on amendment 1 in terms of the funding and editorial independence of Welsh-language broadcasters, which, hopefully, Aled Roberts will be able to expand on later, we think that it is essential that S4C and BBC, as the Welsh-language broadcasters in Wales, have the funding that they need to continue producing Welsh-language content. Editorial independence ensures that the content produced by Welsh-language broadcasters meets the needs of the people of Wales, rather than the needs of Westminster. I think that we have a duty of care to all viewers in Wales to ensure that we meet all the audience's needs and that that funding and editorial independence are protected.

In terms of our amendment 2, this very much reflects the committee report from the Communities, Equality and Local Government Committee task and finish group, which, of course, the Deputy Minister was very much involved with at the time. It looked at the future outlook for the media in Wales; that was in April 2012. The current charter requires the BBC to represent the UK, its nations, regions and communities. I would question how the BBC is monitored to ensure that it does represent the UK's nations, regions and communities fairly. The charter renewal in 2017 seems to be an ideal time to challenge that and to put in place more robust measures to ensure that the Welsh Government and the National Assembly have greater influence in terms of the way that the UK BBC Trust is made up, how Wales is represented on that trust and also how Ofcom represents the needs of Wales in the work that it does. I would hope that we can make some strides in doing that. I note that the Deputy Minister has said that the Welsh Government is in constant engagement with the UK Government in terms of these matters and I very much welcome that fact.

Fel un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwyf yn rhan o blaid sy'n gryf o blaid darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fel y mae ein gwelliannau'n ei ddangos, rydym yn credu y dylid ei ddiogelu a'i ddatblygu yn y Gymru ddatganoledig ac fel rhan o setliad datganoledig sy'n well na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o ystyried cylch gwaith traddodiadol ledled y DU darlledu yn y Deyrnas Unedig, trefniadau ariannol presennol BBC Cymru ac S4C, a materion yn ymwneud â signalau darlledu ac ati, rydym yn derbyn na ellir datganoli darlledu'n llwyr i Gymru, ond, yn sicr, gallwn symud ymlaen yn eithaf sylweddol o ran yr hyn y gallwn ei wneud i roi mwy o ddylanwad a llais i Gymru o ran sut y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu i bobl yn ein gwlad.

Mae trefniadau llywodraethu presennol S4C yn dangos ei bod yn bosibl cynyddu cyfranogiad Llywodraeth Cymru mewn polisi darlledu heb fod angen datganoli darlledu'n llawn, ond mae angen inni weld hynny'n cael ei gryfhau. O ran gwelliant 1 o safbwynt cyllid ac annibyniaeth olygyddol darlledwyr Cymraeg, y bydd Aled Roberts, rwyf yn gobeithio yn gallu ymhelaethu arnynt yn nes ymlaen, rydym o'r farn ei bod yn hollbwysig bod S4C a'r BBC, sef y darlledwyr Cymraeg yng Nghymru, yn cael y cyllid y mae ei angen arnynt i barhau i gynhyrchu cynnwys Cymraeg. Mae annibyniaeth olygyddol yn sicrhau bod y cynnwys a gynhyrchir gan ddarlledwyr Cymraeg yn bodloni anghenion pobl Cymru, yn hytrach nag anghenion San Steffan. Credaf fod gennym ddyletswydd o ofal i'r holl wylwyr yng Nghymru i sicrhau ein bod yn bodloni holl anghenion y gynulleidfa a bod cyllid ac annibyniaeth olygyddol yn cael eu diogelu.

O ran gwelliant 2, mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu adroddiad pwyllgor y grŵp gorchwyl a gorffen Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, yr oedd y Dirprwy Weinidog, wrth gwrs, yn ymwneud llawer iawn ag ef ar y pryd. Edrychodd ar ragolygon y cyfryngau yng Nghymru yn y dyfodol; roedd hynny ym mis Ebrill 2012. Mae'r siarter bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gynrychioli'r DU, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau. Byddwn yn cwestiynu sut y mae'r BBC yn cael ei monitro i sicrhau ei bod yn cynrychioli cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau'r DU yn deg. Ymddengys y bydd adnewyddu'r siarter yn 2017 yn adeg ddelfrydol i herio hynny ac i sefydlu mesurau mwy cadarn i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael mwy o ddylanwad o ran y ffordd y mae Ymddiriedolaeth y BBC yn y DU yn cael ei llunio, sut y mae Cymru'n cael ei chynrychioli ar yr ymddiriedolaeth a hefyd sut y mae Ofcom yn cynrychioli anghenion Cymru yn ei waith. Byddwn yn gobeithio y gallwn gymryd rhai camau breision wrthwneud hynny. Sylwaf fod y Dirprwy Weinidog wedi dweud bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu'n barhaus â Llywodraeth y DU o ran y materion hyn ac rwyf yn croesawu'r ffaith honno'n fawr iawn.

In terms of amendment 3, the communities committee task and finish group report noted the importance of community radio, and I think that a previous report highlighted this better. When you look at the way that community radio licences are issued, currently, the criteria are fairly uniform across the UK, so a community radio station based in the Welsh Valleys would have the same sort of criteria applied to it as a community radio station in the centre of Birmingham—the difference being, of course, that we have mountains in the way, so you cannot apply the same signal strength to a radio station that, for example, serves Neath Port Talbot as you would one serving the centre of Birmingham, because it just would not reach enough people. Those sorts of differences need to be reflected in a Welsh approach to community radio station licensing. I think that it is absolutely vital that we get control of that, because that is very much about community. Although I think that the Welsh Government's funding for community radio has effectively ended, I know that the Welsh Government has a huge commitment to community radio, and I think that we should be able to take that forward as part of changes to the licensing regime.

With regard to other amendments, like amendment 5, I would like the media in Wales to play a bigger role in increasing participation in the political process. Wales's political system is crying out for more coverage. Back in February, my colleague Eluned Parrott and I tabled a statement of opinion asking BBC Wales to commission a Welsh 'Newsnight', and I am pleased to report that we had cross-party subscription to that statement.

In terms of amendment 7, the April 2012 task and finish group found that very little scrutiny is taking place at Westminster through the Department for Culture, Media and Sport. This is a gap that we should fill as a National Assembly. Certainly, I know that the broadcasters are happy to be questioned by us, and I think that we need to do a lot more of that in terms of the committees of the Assembly scrutinising the Welsh media.

O ran gwelliant 3, nododd adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y pwyllgor cymunedau bwysigrwydd radio cymunedol, a chredaf i adroddiad blaenorol amlygu hyn yn well. Pan edrychwch ar y ffordd y mae trwyddedau radio cymunedol yn cael eu cyhoeddi, ar hyn o bryd, mae'r meini prawf yn weddol unfurf ar draws y Deyrnas Unedig, felly byddai'r un math o feini prawf ar gyfer gorsaf radio gymunedol yn y Cymoedd â gorsaf radio gymunedol yng nghanol Birmingham—y gwahaniaeth, wrth gwrs, yw bod gennym fynyddoedd yn y ffordd, felly ni ellir defnyddio'r un cryfder signal i orsaf radio sydd, er enghraifft, yn gwasanaethu Castell-nedd Port Talbot ag y byddech i un sy'n gwasanaethu canol Birmingham, gan na fyddai'n cyrraedd digon o bobl. Mae angen adlewyrchu'r mathau hyn o wahaniaethau drwy ymagwedd Gymreig at drwyddedu gorsafoedd radio cymunedol. Credaf ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn cymryd rheolaeth dros hynny, gan fod hynny'n ymwneud yn fawr iawn â'r gymuned. Er fy mod yn credu bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer radio cymunedol wedi dod i ben i bob pwrpas, gwn fod gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad tra sylweddol i radio cymunedol, a chredaf y dylem fod yn gallu bwrw ymlaen â hynny fel rhan o'r newidiadau i'r gyfundrefn drwyddedu.

O ran gwelliannau eraill, megis gwelliant 5, hoffwn i'r cyfryngau yng Nghymru chwarae mwy o ran mewn cynyddu cyfranogiad yn y broses wleidyddol. Mae system wleidyddol Cymru'n gweiddi am fwy o sylw. Yn ôl ym mis Chwefror, cyflwynodd fy nghydweithiwr Eluned Parrott a minnau ddatganiad barn yn gofyn i BBC Cymru gomisiynu 'Newsnight' Cymreig, ac rwyf yn falch o ddweud ein bod wedi cael cefnogaeth ar draws y pleidiau i'r datganiad hwnnw.

O ran gwelliant 7, canfu grŵp gorchwyl a gorffen mis Ebrill 2012 mai ychydig iawn o waith craffu sy'n cael ei wneud yn San Steffan drwy'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dyma fwch y dylem ni yn y Cynulliad Cenedlaethol ei lenwi. Gwn fod y darlledwyr yn hapus i gael eu holi gennym, a chredaf fod angen inni wneud mwy o lawer o hynny o ran craffu gan bwyllgorau'r Cynulliad ar y cyfryngau Cymreig.

16:25

## **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Paul Davies to move amendments 4, 5, 6 and 7, tabled in his name.

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi trydydd Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom y bwriedir ei gyhoeddi yr haf nesaf.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod y rôl y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae o ran cynyddu cyfranogiad yn y broses wleidyddol a'r dylanwad y maent yn ei gael ar fywyd diwylliannol ac economaidd yng Nghymru.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Paul Davies i gynnig gwelliannau 4, 5, 6 a 7, a gyflwynwyd yn ei enw.

*Amendment 4—Paul Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes Ofcom's third Public Service Broadcast Review which is due to be published next summer.*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Recognises the role public service broadcasters play in increasing participation in the political process and the influence they have on cultural and economic life in Wales.*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu ystyriaeth o fecanweithiau i sicrhau dyfodol yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.*

*Welcomes consideration of mechanisms to secure the future of all public service broadcasters in Wales.*

Gwelliant 7—Paul Davies

Amendment 7—Paul Davies

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu ystyriaeth o fecanweithiau i sicrhau atebolrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r Cynulliad hwn yn ogystal ag i Senedd y DU.*

*Welcomes consideration of mechanisms to secure accountability of public service broadcasters to this Assembly as well as to the UK Parliament.*

16:25

## Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiad welliannau 4, 5, 6 a 7.

I move amendments 4, 5, 6 and 7.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhan hanfodol o gyfathrebu gwybodaeth am faterion datganoledig i bobl Cymru. Mae'n fwy na rhesymol, felly, i ofyn i sefydliadau darlledu ar draws y Deyrnas Unedig i wario eu harian a neilltuo amser darlledu mewn ffordd sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol, gymdeithasol a gwleidyddol unigryw Cymru. Mae hefyd yn rhesymol iawn fod pobl Cymru yn gallu sicrhau bod y darlledwyr hyn yn atebol ac yn cael eu craffu a'u scrwtineiddio yn lle hwn.

Public service broadcasters are a key part in communicating information on devolved issues to the people of Wales. It is more than reasonable, therefore, to ask broadcasting institutions across the UK to spend their money and to allocate broadcasting time in a way that reflects the cultural, social and political identity that is unique to Wales. It is also reasonable that the people of Wales should be able to ensure that these broadcasters are accountable and are properly scrutinised in this place.

Mae'n hanfodol bod anghenion Cymru yn cael eu cynrychioli yn fwy cryf ac yn fwy uniongyrchol o ran y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Dyma pam yr ydym wedi cyflwyno gwelliannau 5 a 7, wrth gwrs. Yr ydym i gyd am weld ein prif ddarlledwyr yn comisiynu ac yn cynhyrchu mwy o raglenni yng Nghymru, felly mae'n rhaid inni sicrhau bod trafodaeth effeithiol yn cymryd lle rhyngom ni, fel Cymry, a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn marchnata Cymru fel lleoliad ar gyfer cynhyrchu rhaglenni o ansawdd uchel.

It is crucial that Wales's needs are more strongly represented and more directly represented in terms of the decisions taken by public service broadcasters. That is why we have tabled amendments 5 and 7, of course. We all want to see our main broadcasters commissioning and producing more output here in Wales, and we therefore must ensure that there is effective negotiation between us, the people of Wales, and the public service broadcasters. It is crucial, therefore, that the Welsh Government markets Wales as a location for the production of high-quality programming.

Yr ydym i gyd yn gwerthfawrogi datblygiad y BBC ym Mhorth y Rhath, ac yr wyf yn croesawu'r newyddion y bydd Channel 4 yn cynyddu canran ei gwariant yn y gwledydd datganoledig. Mae'n hollbwysig bod Cymru yn dylanwadu ar y ffordd y mae arian ychwanegol yn cael ei wario. Felly, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed a bod Llywodraeth Cymru yn cael trafodaethau llawn gyda darlledwyr fel Channel 4. Mae cytundeb newydd Channel 4, a gafodd ei gytuno yn gynharach eleni, yn dangos y gellir gwneud newidiadau er mwyn sicrhau bod modelau busnes cwmni preifat yn decach i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae angen inni weld y chwarae teg hwn ar draws yr holl ddarlledu yng Nghymru. Dyna pam y byddwn yn cefnogi gwelliant 8 oherwydd, yn anffodus, yr ydym, er enghraifft, wedi gweld dirywiad mewn rhaglenni lleol ar radio masnachol yn ddiweddar.

We all appreciate the Roath Lock development by the BBC in Cardiff, and I welcome the news that Channel 4 will increase its percentage of expenditure in the devolved nations. It is crucially important that Wales can influence the way that additional funding is spent. I therefore hope that the Welsh Government will do everything within its power to ensure that the Welsh voice is heard and that the Welsh Government has full negotiations and discussions with broadcasters such as Channel 4. The new Channel 4 contract, which was agreed earlier this year, demonstrates that changes can be made in order to ensure that the business models of a private company can be fairer to all parts of the UK. We need to ensure that equity across broadcasting as a whole in Wales. That is why we will be supporting amendment 8, because, unfortunately, we have seen a decline in local programming on commercial radio recently.

Heb ariannu uniongyrchol cyhoeddus, ceir cyfyngiadau ar y liferi y gellir eu defnyddio o fewn y sector preifat. Yn naturiol, felly, yr ydym yn dibynnu ar Ofcom i drafod amodau trwyddedu. Yr ydym wedi gweld yr amodau hynny wedi eu defnyddio i gefnogi ITV Cymru drwy gydbwysu gwaith ITV gyda gofynion rhannau eraill y Deyrnas Unedig. Gall presenoldeb Cymreig cryfach o fewn Ofcom fynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ddelio â nifer o'r heriau sydd yn ein wynebu, gan gynnwys y ffordd orau, er enghraifft, i gefnogi radio cymunedol.

Ar hyn o bryd, byddwn ni, ar yr ochr hon i'r Siambur, yn ymatal ar welliant 3, nid oherwydd ein bod yn ei wrthwynebu mewn egwyddor, ond gan ei fod yn codi cwestiynau ynglŷn â chostau sefydlu awdurdod trwyddedu ar wahân a strwythur llywodraethu ac atebolrwydd newydd. Mae perygl y gall cyflwyno a sefydlu strwythurau fel hyn ddigwydd heb unrhyw welliant yn y gwasanaeth. Serch hynny, byddwn ni, ar yr ochr hon o'r Siambur, yn cadw meddwl agored ynglŷn â'r awgrymiadau hyn.

Byddwn hefyd yn ymatal ar welliant 2, oherwydd credwn fod y gwelliant, yn ei ffurf bresennol, yn gofyn am waith esboniadol pellach. Er bod gwelliant 2 yn edrych ar wella atebolrwydd y lle hwn ar ran pobl Cymru, efallai y dylem ystyried a'r Cynulliad a Senedd y Deyrnas Unedig, yn hytrach na Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n cymryd rhan wrth benodi ymddiriedolwr y BBC. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gwarchod annibyniaeth y rôl hon ac yn gwahardd unrhyw awgrym o wleidyddiaeth plaid yn ymyrryd â'r swydd.

Er nad wyf yn gwrthwynebu'r syniad o'r corff y cyfeirir ato yng ngwelliant 2(a), mae'n rhaid inni fod yn ofalus nad yw hyn yn arwain at fwy o fiwrocraiaeth. Rhaid i gorff o'r fath fod yn effeithiol ac o fudd i bobl Cymru.

Yn achos S4C, mae'r gwariant ar gyfer ei chyfrifoldebau darlledu wedi'i osod yn statudol, wrth gwrs. Efallai y gallem ddadlau am y ffigurau sydd ar gael, ond, os caiff y cyfrifoldebau hyn eu datganoli, byddem yn dweud bod yn rhaid sicrhau bod y Cynulliad hwn yn cael ymrwymiad deddfwriaethol tebyg.

Ni fydd yn gyfrinach i Aelodau fy mod yn bersonol wedi galw am ddatganoli darlledu yn yr iaith Gymraeg i'r sefydliad hwn flynyddoedd lawer yn ôl, ond rwy'n sylweddoli bod Aelodau eraill yn nerfus o'r cynnig hwnnw. Rwy'n credu ei bod yn amlwg bod mynediad S4C at ffi'r drwydded wedi profi'n hanfodol i'w goroesiad ac i'w moderneiddio. Credaf fod S4C ei hun yn cydnabod hynny.

Fel yr ydym yn gwybod, y BBC sydd â'r gyfran fwyaf o'r cyfrifoldeb am gynhyrchu newyddion, materion cyfoes a sylwebaeth yng Nghymru, ac mae adroddiad Ofcom eleni yn dweud mai ond 12% ohonom sy'n cael ein newyddion o'r cyfryngau print a taw BBC Cymru sy'n dominyddu ar y teledu, y radio ac ar-lein. Felly, rwyf yn cefnogi'r syniad o gael adroddiad blynyddol a fyddai'n cael ei gyflwyno gan y BBC.

Without direct public funding, there are limitations and restrictions on the levers that can be used within the private sector. Naturally, therefore, we are dependent upon Ofcom to discuss licensing conditions. We have seen those conditions used to support ITV Wales by balancing the work of ITV with the requirements of other parts of the UK. A stronger Welsh presence within Ofcom could go part of the way in dealing with many of the challenges facing us, including the best way, for example, to support community radio.

Currently, we, on this side of the Chamber, will be abstaining on amendment 3, not because we oppose it in principle, but because it raises questions in terms of the cost of establishing a separate licensing authority and a new governance system and accountability regime. There are concerns that the establishment of these structures could happen without there being any improvement in the service. However, on this side of the Chamber, we will keep an open mind on these suggestions.

We will also abstain on amendment 2, because we believe that the amendment, as currently worded, requires further explanation. Although amendment 2 seeks to improve the accountability of this place for the people of Wales, perhaps we should consider whether the Assembly and the UK Parliament, rather than the Welsh Government and the UK Government, should participate in the appointment of the BBC trustee. It is crucially important that we secure the independence of this role and actually banish any suggestion of party politics having an influence on the post.

While I do not object to the body that is referred to in 2(a), we must be careful that that would not lead to more bureaucracy. Such a body must work effectively and for the benefit of the people of Wales.

In the case of S4C, expenditure for its broadcasting responsibilities is set on a statutory basis, of course. We could perhaps argue about the figures, but, if these responsibilities are devolved, then I would say that we would need to ensure that this Assembly has a similar legislative commitment.

It will come as no surprise to Members that I have personally called for the devolution of Welsh-language broadcasting to this institution many years ago, but I do realise that other Members are nervous about that particular proposal. I think that it is clear that S4C's access to the licence fee has proved crucial to its survival and to its modernisation. I think that S4C itself would recognise that.

As we know, the BBC has the majority of the responsibility for news, current affairs and commentary in Wales, and this year's Ofcom report says that only 12% of us actually get our news from print media and that BBC Wales dominates on television, radio and online. Therefore, I do support the ideal of an annual report that would be brought forward by the BBC.

16:31 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Bethan Jenkins to move amendment 8 tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 8—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu at y dirywiad mewn rhaglennu lleol ar radio masnachol.*

Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig gwelliant 8 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Amendment 8—Elin Jones*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets the decline in local programming on commercial radio.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:31 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 8.

I obviously welcome this debate as someone who has put great emphasis on trying to make sure that Wales is seen on the world stage in relation to public broadcasting, but, while I welcome you to your new role, Deputy Minister, I am very disappointed that the portfolio of broadcasting, culture and sport has been demoted to a deputy ministerial position within the Welsh Government. I believe that it should have been retained as a full Government portfolio, given the importance of this matter to the people of Wales.

We strongly believe as a party that powers over broadcasting need to be devolved to this Assembly. We have already heard from others here today how powers over broadcasting are reserved currently to the UK Government's Department for Culture, Media and Sport, but we all know that Silk part 2 made proposals to devolve some powers over broadcasting to Wales. While it said that the regulation of broadcasting should remain the responsibility of the UK Government, it also recommended a devolved governance body within the UK BBC Trust framework, with Welsh representation, most funding for S4C continuing through the licence fee, but with the public expenditure element coming from the Welsh Government, Welsh representation on the Ofcom board, and more effective monitoring of progress in public service broadcasting in Wales.

We believe strongly that Wales does not have a strong media and that the England-based media often provides little information on devolved issues—with the exception of 'The Guardian' today, where Simon Jenkins has delivered us a three-page special on Wales. This has led to a democratic deficit in which there is insufficient outside scrutiny of the National Assembly and the Welsh Government, and we should all be worried about that.

We also believe that the Welsh Government and the National Assembly are better placed than the UK Government to understand the significance of broadcasting to Wales and are therefore better placed to make the right decisions. We are not calling for devolution for the sake of more powers, but for powers with a purpose. What we are asking for has a practical purpose, because the future of broadcasting in Wales is currently being threatened by a number of factors.

Cynigaf welliant 8.

Yn amlwg rwy'n croesawu'r ddatl hon fel rhywun sydd wedi rhoi pwyslais mawr ar geisio sicrhau bod Cymru'n cael ei gweld ar lwyfan y byd o ran darlledu cyhoeddus, ond, er fy mod yn eich croesawu i'ch swydd newydd, Ddirprwy Weinidog, rwy'n siomedig iawn bod y portffolio darlledu, diwylliant a chwaraeon wedi cael ei israddio i swydd ddirprwy weinidogol o fewn Llywodraeth Cymru. Credaf y dylai fod wedi cael ei gadw fel portffolio llawn y Llywodraeth, o ystyried pwysigrwydd y mater hwn i bobl Cymru.

Credwn yn gryf fel plaid bod angen datganoli pwerau dros ddarlledu i'r Cynulliad hwn. Rydym eisoes wedi clywed gan bobl eraill yma heddiw sut mae pwerau dros ddarlledu yn cael eu cadw ar hyn o bryd i Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU, ond rydym i gyd yn gwybod bod Silk rhan 2 yn gwneud cynigion i ddatganoli rhai pwerau dros ddarlledu i Gymru. Er ei fod yn dweud y dylai rheoleiddio darlledu barhau i fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU, mae hefyd yn argymhell corff llywodraethu datganoledig o fewn fframwaith Ymddiriedolaeth y BBC yn y DU, gyda chynrychiolaeth yng Nghymru, y rhan fwyaf o arian ar gyfer S4C yn parhau drwy ffi'r drwydded, ond gyda'r elfen gwariant cyhoeddus yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru, cynrychiolaeth o Gymru ar fwrdd Ofcom, a monitro mwy effeithiol o gynydd mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Credwn yn gryf nad oes gan Gymru gyfryngau cryf a bod y cyfryngau sy'n seiliedig yn Lloegr yn aml yn rhoi ychydig o wybodaeth am faterion datganoledig—ac eithrio 'The Guardian' heddiw, lle mae Simon Jenkins wedi cyflwyno erthygl arbennig tair tudalen ar Gymru i ni. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg democrataidd lle nad oes digon o graffu y tu allan i'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru, a dylem i gyd fod yn bryderus am hynny.

Rydym hefyd yn credu bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol mewn sefyllfa well na Llywodraeth y DU i ddeall arwyddocâd darlledu i Gymru ac felly mewn sefyllfa well i wneud y penderfyniadau cywir. Nid ydym yn galw am ddatganoli er mwyn cael mwy o bwerau, ond am bwerau gyda phwrpas. Mae gan yr hyn yr ydym yn gofyn amdano bwrrpas ymarferol, oherwydd bod dyfodol darlledu yng Nghymru yn cael ei fygwth ar hyn o bryd gan nifer o ffactorau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi torri cyllid S4C yn sylweddol ac mae hyn yn cael effaith ar swyddi ac ar yr economi, yn ogystal ag ar ddyfodol darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cwmnïau darlledu mawr hefyd yn torri gwasanaethau yng Nghymru, a gall hyn ddwysáu'r diffyg democrataidd, gyda hyd yn oed llai o wybodaeth yn cael ei darparu i bobl Cymru ar faterion pwysig sy'n effeithio arnynt. Byddai Plaid Cymru yn rhoi cyllid cynaliadwy ar waith ar gyfer S4C. Byddem hefyd yn sicrhau ei hannibyniaeth olygyddol yn y dyfodol.

In Plaid's evidence to Silk part 2, we called for a federalised BBC within the UK, with a BBC trust for Wales. The trustees should be appointed by the Welsh Government. Responsibility for S4C should transfer to the National Assembly for Wales and the Welsh Government should appoint S4C board members. A separate ITV Wales licence should be created and responsibility for its allocation should be transferred to Ofcom's office in Wales, as should such responsibility for local radio. These transfers should be accompanied by the proper allocation of resources.

Plaid regrets the decline in local programming, especially for radio. Hence we put in our amendment, and I welcome the Government's support for that. It is really quite tragic to read that 40% of jobs at Welsh radio stations were cut in five years by UK radio groups as they chose syndicated programming from London over local programming. These are stations such as Capital and Heart. Real Radio employed 60 people in Wales before being taken over by Global. Now, there are 20 employed at Heart. Sadly, I think that Ofcom needed to play a stronger role in ensuring that this downgrading of services, effectively, did not happen. Had this happened in other industries, such as the steel industry, we would not be having the debate now; we would have had a debate earlier about how these job losses are affecting the people of Wales and the type of news representation that they get. It has already been mentioned by many people in this room how having a strong base for a digital and broadcasting economy helps the people of Wales. It helps communities such as Aberystwyth when we have strong and representative programmes like 'Hinterland' being filmed there. We do not want that to be a one-off. We want other programmes to be made across Wales, so that we can celebrate the culture that we have and make Wales a place for different companies to want to come to and make new programmes.

The UK Government has cut the funding for S4C significantly and this is having an effect on jobs and on the economy, as well as on the future of broadcasting through the medium of Welsh. Large broadcasting companies are cutting services in Wales, and this can intensify the democratic deficit, with even less information provided for the people of Wales on important matters that affect them. Plaid Cymru would implement sustainable funding for S4C. We would also ensure its editorial independence in future.

Yn nhystiolaeth y Blaid i Silk rhan 2, rydym yn galw am BBC ffederal o fewn y DU, gydag ymddiriedolaeth y BBC i Gymru. Dylai'r ymddiriedolwyr gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r cyfrifoldeb am S4C gael ei drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru ddylai benodi aelodau bwrdd S4C. Dylai trwydded ITV Cymru ar wahân gael ei greu a dylai'r cyfrifoldeb dros ei ddyraniad gael ei drosglwyddo i swyddfa Ofcom yng Nghymru, fel y dylai cyfrifoldeb o'r fath ar gyfer radio lleol. Dylai'r trosglwyddiadau hyn ddod gyda dyraniad priodol o adnoddau.

Mae Plaid Cymru yn gresynu'r dirywiad mewn rhaglennu lleol, yn enwedig ar gyfer y radio. Felly rydym yn cyflwyno ein gwelliant, ac rwy'n croesawu cefnogaeth y Llywodraeth ar gyfer hynny. Mae'n eithaf trist yn wir i ddarllen bod 40% o swyddi mewn gorsafoedd radio yng Nghymru wedi cael eu torri mewn pum mlynedd gan grwpiau radio yn y DU gan eu bod wedi dewis rhaglennu syndicatediedig o Lundain dros y rhaglenni lleol. Gorsafoedd fel Capital a Heart yw'r rhain. Roedd Real Radio yn cyflogi 60 o bobl yng Nghymru cyn cael ei gymryd drosodd gan Global. Erbyn hyn, 20 sy'n gweithio yn Heart. Yn anffodus, rwy'n meddwl bod angen i Ofcom chwarae rhan gryfach i sicrhau nad oedd yr israddio hwn o wasanaethau, mewn gwirionedd, yn digwydd. Pe byddai hyn wedi digwydd mewn diwydiannau eraill, megis y diwydiant dur, ni fyddem yn cael y ddatl hon yn awr; byddem wedi cael dadl gynharach am sut mae colli'r swyddi hyn yn effeithio ar bobl Cymru a'r math o gynrychiolaeth newyddion a gânt. Mae eisoes wedi cael ei grybwyll gan lawer o bobl yn yr ystafell hon sut mae cael sylfaen gadarn ar gyfer economi ddigidol a darlledu yn helpu pobl Cymru. Mae'n helpu cymunedau megis Aberystwyth, pan fydd gennym raglenni cryf a chynrychioliadol fel 'Y Gwyll' yn cael eu fflmio yno. Nid ydym am i hynny fod yn rhywbeth nad yw ond yn digwydd unwaith. Rydym am i raglenni eraill gael eu gwneud ledled Cymru, fel y gallwn ddathlu'r diwylliant sydd gennym a gwneud Cymru yn lle y bydd gwahanol gwmnïau eisiau dod iddo a gwneud rhaglenni newydd.

Since the last time that we had a debate on public service broadcasting, and since Ofcom's second review of public service broadcasting, we have seen fundamental changes in both the medium and the media. We have seen the digital switchover take place, which has created an entirely new viewing experience for people across the whole of the United Kingdom. We have seen an extraordinarily destructive response and approach by the United Kingdom Government to S4C—probably the most ruthless bullying of a broadcaster that I have witnessed in western Europe in my life. That is something that should not be forgotten when we talk about the accountability of broadcasters and the place of accountability for broadcasting. We have also seen the continuing development of new media, of new devices, and the availability of mobile and portable broadband. This means that people's viewing experiences, and the platforms available for broadcasting and the creation of public content, have changed fundamentally in the last few years. That change is leading to social and cultural change in how we consume our programming.

However, as the Deputy Minister pointed out in his introduction, we also know that linear programming remains remarkably resilient. Many of us remember the debates of the last decade, which have been punctuated by increasingly gruesome predictions about the fate that awaits public service broadcasting. However, 90% of us continue to watch programming as it is broadcast on our televisions. We also know that public service broadcasting is of fundamental importance to us in Wales; it is possibly of more importance to us in Wales than it is to any of the other United Kingdom countries. We know that we have a very weak print media in Wales. We know that communication between the different communities of Wales is difficult. We know that, as cultures in Wales, we need more opportunities to speak of each other and to speak to, and with, each other, across the whole diversity of Welsh life. That means that public service broadcasting is more important to us than it is elsewhere, and it means that we need to ensure that Wales has a place in the new environment.

While public service broadcasting and linear television have been resilient, we also know that changes will come in the future. We know that services such as Netflix and YouTube will become more popular, and that this will erode audiences. We also know that continuing technological change will ensure that we see different services in the future. We also know that many young people watch and consume little, if any, public service broadcasting in their daily lives. We also know that there has been very little appetite for the creation of the hyperlocal services that were predicted over the last few years, but that there will continue to be the opportunity to create such services in the future.

Ers y tro diwethaf y cawsom ddadl ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac ers ail adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, rydym wedi gweld newidiadau sylfaenol yn y cyfrwng a'r cyfryngau. Rydym wedi gweld y newid i ddigidol yn digwydd, sydd wedi creu profiad gwyllo hollol newydd i bobl ledled yr holl Deyrnas Unedig. Rydym wedi gweld ymateb a dull gweithredu hynod ddinistriol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i S4C—yn ôl pob tebyg y bwlio mwyaf didostur ar ddarlledwr yr wyf wedi bod yn dyst iddo yng ngorllewin Ewrop yn fy mywyd. Mae hynny'n rhywbeth na ddylid ei anghofio pan fyddwn yn sôn am atebolrwydd darlledwyr a lle atebolrwydd ar gyfer darlledu. Rydym hefyd wedi gweld datblygiad parhaus cyfryngau newydd, dyfeisiau newydd, a'r ffaith fod band eang symudol a chludadwy ar gael. Mae hyn yn golygu bod profiadau gwyllo pobl, a'r llwyfannau sydd ar gael ar gyfer darlledu a chreu cynnwys cyhoeddus, wedi newid yn sylfaenol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r newid hwnnw'n arwain at newid cymdeithasol a diwylliannol yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ein rhaglenni.

Fodd bynnag, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei gyflwyniad, rydym hefyd yn gwybod bod rhaglenni llinellol yn dal yn hynod o gryf. Mae llawer ohonom yn cofio dadleuon y degawd diwethaf, sydd wedi cael eu hatalnodi gan ragfynegiadau fwyfwy erchyll am y dynged sy'n disgwyl darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, mae 90% ohonom yn parhau i wyllo rhaglenni wrth iddynt gael eu darlledu ar ein setiau teledu. Rydym hefyd yn gwybod bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hanfodol bwysig i ni yng Nghymru; ei fod o bosibl o fwy o bwys i ni yng Nghymru nag mewn unrhyw un o wledydd eraill y Deyrnas Unedig. Rydym yn gwybod bod gennym gyfryngau print gwan iawn yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod cyfathrebu rhwng y gwahanol gymunedau yng Nghymru yn anodd. Gwyddom, fel diwylliannau yng Nghymru, bod angen mwy o gyfleoedd i siarad am ein gilydd ac i siarad â, a gyda, ein gilydd, ar draws yr amrywiaeth cyfan o fywyd Cymru. Mae hynny'n golygu bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fwy pwysig i ni nag y mae mewn mannau eraill, ac mae'n golygu bod angen i ni sicrhau bod gan Gymru le yn yr amgylchedd newydd.

Er bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus a theledu llinellol wedi bod yn gryf, rydym hefyd yn gwybod y bydd newidiadau yn dod yn y dyfodol. Rydym yn gwybod y bydd gwasanaethau fel Netflix a YouTube yn dod yn fwy poblogaidd, ac y bydd hyn yn erydu cynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn gwybod y bydd newid technolegol parhaus yn sicrhau ein bod yn gweld gwahanol wasanaethau yn y dyfodol. Rydym hefyd yn gwybod mai prin y mae llawer o bobl ifanc yn gwyllo ac yn defnyddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus, os o gwbl, yn eu bywydau bob dydd. Rydym hefyd yn gwybod y bu ychydig iawn o awydd ar gyfer creu'r gwasanaethau hyperleol a ragwelwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond y bydd y cyfle yn parhau i greu gwasanaethau o'r fath yn y dyfodol.



So, what do we want out of this review, and what do we need out of this review? I believe that we need visibility of Wales and for Wales. Our daily lives need to be reflected by our public service broadcasters. Like others, I pay tribute to the work of the BBC in creating programming from Wales, although Wales is not often seen on the screen. 'Doctor Who', 'Sherlock', and 'Casualty' mean that there is a far greater amount of programming created in Wales, and that is important for us in terms of our production base, but we also need visibility of Wales, as a part of the United Kingdom, and for Wales to be on our screens on a regular basis.

We need effective news coverage from Wales. Anthony King, in his report, said that the BBC had made progress in ensuring that Wales is reflected more often and that the experience of devolved nations is reflected in news output. However, I would say this to the BBC: you do not meet the needs of the United Kingdom by simply adding the words 'in England' to reports on the 'Today' programme or elsewhere. We need reporting by the United Kingdom BBC of the real political situation in the cultures and nations of the United Kingdom, but we also need that from ITV, from Channel 4, and from other broadcasters. We need a plurality of news voices. That is particularly true in the Welsh language, where the BBC is almost the only serious voice providing news in the Welsh language.

We need to see greater production of programming in Wales and about Wales. We also need to see greater programming on Welsh screens that talks of our culture, our people, our experiences and our lives. We need to have that reflected back to us, and we also need to ensure that it is done in such a way as to be futureproof, so that, when new services appear—new platforms and new ways of consuming public service broadcasting—Wales will be a part of it in the future. To do that, we need the accountability that we have foreseen in different reports at different times in this place.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 16:41.*

Felly, beth ydym ni'n dymuno ei gael o'r adolygiad hwn, a beth sydd ei angen arnom allan o'r adolygiad hwn? Credaf fod arnom angen gweledigrwydd o Gymru ac ar gyfer Cymru. Mae angen i'n bywydau bob dydd gael eu hadlewyrchu gan ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Fel eraill, hoffwn dalu teyrnged i waith y BBC o ran creu rhaglenni o Gymru, er nad yw Cymru'n cael ei gweld yn aml ar y sgrin. Mae 'Doctor Who', 'Sherlock', a 'Casualty' yn golygu bod llawer mwy o raglenni a grëwyd yng Nghymru, ac mae hynny'n bwysig i ni o ran ein sylfaen gynhyrchu, ond hefyd mae angen gweledigrwydd o Gymru, fel rhan o'r Deyrnas Unedig, ac i Gymru fod ar ein sgriniau yn rheolaidd.

Mae angen rhaglenni newyddion effeithiol o Gymru. Yn ei adroddiad, dywedodd Anthony King fod y BBC wedi gwneud cynnydd o ran sicrhau bod Cymru yn cael ei hadlewyrchu yn fwy aml, a bod profiad y gwledydd datganoledig yn cael ei adlewyrchu mewn cynnyrch newyddion. Fodd bynnag, byddwn yn dweud hyn wrth y BBC: nid ydych yn bodloni anghenion y Deyrnas Unedig drwy ddim ond ychwanegu'r geiriau 'yn Lloegr' at adroddiadau ar y rhaglen 'Today' neu yn rhywle arall. Rydym ni angen i BBC y Deyrnas Unedig adrodd y sefyllfa wleidyddol wirioneddol yn niwyllynnau a chenhedloedd y Deyrnas Unedig, ond mae hefyd angen i ni gael hynny gan ITV, gan Sianel 4, a gan ddarlledwyr eraill. Mae arnom angen lluosogrwydd o leisiau newyddion. Mae hynny'n arbennig o wir yn yr iaith Gymraeg, lle mai'r BBC yw bron yr unig lais o bwys sy'n darparu newyddion yn yr iaith Gymraeg.

Mae angen inni weld mwy o gynhyrchu rhaglenni yng Nghymru ac am Gymru. Mae angen hefyd inni weld mwy o raglenni ar sgriniau yng Nghymru sy'n sôn am ein diwylliant, ein pobl, ein profiadau a'n bywydau. Mae angen i ni gael hynny wedi'i adlewyrchu yn ôl i ni, ac mae angen inni hefyd sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn y fath fodd ag i gael ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau, pan fydd gwasanaethau newydd yn ymddangos—llwyfannau newydd a ffyrdd newydd o ddefnyddio darlledu gwasanaethau cyhoeddus—y bydd Cymru yn rhan o hynny yn y dyfodol. Er mwyn gwneud hynny, rydym angen yr atebolrwydd yr ydym wedi'i ragweld mewn gwahanol adroddiadau ar wahanol adegau yn y lle hwn.

*The Presiding Officer took the Chair at 16:41.*

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i hefyd groesawu'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog ar ddechrau'r ddadl hon? Rwy'n meddwl bod y ffaith ei fod wedi derbyn pob un o'r gwelliannau gan y pleidiau yn destun clod iddo. Hoffwn hefyd ddweud fy mod yn cytuno â lot o'r hyn a ddywedodd Alun Davies ynglŷn â'r ffaith bod rhaid inni godi ymwybyddiaeth o faterion Cymreig, a bod hynny'n gyfrifoldeb arnom ni i gyd. Felly, mae nifer o weithgareddau sy'n ein hwynebu fel Cynulliad. Mae angen inni gael y gweithredu cyfansoddiadol yn y BBC ac yn Ofcom ac ati i adlewyrchu ein sefyllfa ni yma yng Nghymru. Ond hefyd, mae problem yn codi, achos roedd Alun Davies yn sôn am y ffaith bod y trosglwyddo i wasanaeth digidol wedi gweld gwella o ran ansawdd y rhaglenni ac ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael, ond, mewn rhai rhannau o Gymru, mae hynny wedi creu sefyllfa sy'n waeth. Mi fydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod, o achos yr ardal y mae'n ei chynrychioli, lle cafodd y sefyllfa cyn 2011 ei newid er gwell, ond, erbyn hyn, mae rhannau o Dde Clwyd yn arbennig, a Wrecsam, lle mai rhaglenni Saesneg yn unig y mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn eu derbyn. Er i nifer ohonom o bob plaid gysylltu ag Ofcom, S4C a'r BBC er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa, nid ydym wedi gweld y ddarpariaeth yn gwella. Felly, hyd yn oed os bydd mwy o raglenni gan y BBC a darlledwyr eraill yn gwella ymwybyddiaeth o faterion Cymreig ac am newyddion yma yng Nghymru, ni fydd gan y boblogaeth honno yng Nghymru sy'n dibynnu ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ddewis, achos bydd yn rhaid iddi dderbyn rhaglenni o Fanceinion a Birmingham.

Roedd y cyfnod yr oedd Llywodraeth Prydain yn edrych ar ailstrwythuro'r arian i S4C yn destun pryder i nifer ohonom. Rwy'n meddwl bod cyfaddawd wedi cael ei wneud—mae rhan o ffrîr drwydded yn cael ei thalu i S4C erbyn hyn—ac rwy'n meddwl ei bod yn werth cydnabod y ffaith bod S4C ei hunan yn dweud nad yw annibyniaeth olygyddol yn rhywbeth y mae'n pryderu amdano, a'i bod yn gweld y berthynas rhyngddynt a'r BBC yn eithaf da erbyn hyn. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, mae ansicrwydd—nid yw DCMS wedi cadarnhau'r sefyllfa ariannol o 2016 ymlaen. Wrth gwrs, wrth inni fynd ymlaen at 2017, mae'n anodd i S4C ei hunan gomisiynu rhaglenni ac ati heb wybod beth yn union yw'r sefyllfa ar ôl 2017, ond hefyd y sefyllfa yn 2016. Oni bai ei bod yn gwybod yn union faint o arian y bydd yn ei dderbyn, ni fydd hynny'n cael ei adlewyrchu.

Croesawaf y ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn pob un o'r gwelliannau. Mae nifer ohonom yn cytuno y dylem symud tuag at gyfundrefn ffederal o ran y BBC yn y pen draw. Hwyrach fod rhai o'r materion sydd wedi codi yn yr Alban yn ystod yr wythnosau diwethaf yn dangos bod yn rhaid iddynt ystyried hynny. Fodd bynnag, cyn inni wneud hynny, mae ffyrdd o wella a chryfhau llais Cymru o fewn y BBC yn y cyfamser. Nid wyf am wyntyllu mwy na hynny. Rydych wedi derbyn ein gwelliannau i gyd ac felly rwy'n croesawu safbwynt y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma.

May I also welcome the comments made by the Deputy Minister at the beginning of this debate? I think the fact that he has accepted each and every one of the amendments from the various parties deserves to be recognised. I would also like to say that I agree with much of what Alun Davies had to say about the fact that we must raise awareness of Welsh issues, and that that is a responsibility for all of us. Therefore, there are a number of actions that we need to take as an Assembly. We need constitutional change within the BBC and Ofcom and so on to reflect our situation here in Wales. However, a problem also arises, because Alun Davies mentioned that the digital switchover had led to improvements in the quality of programmes and the provision available, but, in some parts of Wales, that has created a situation that is worse. The Deputy Minister will be well aware of this, given the area that he represents, where the situation prior to 2011 had changed for the better, but, now, there are parts of Clwyd South in particular, and Wrexham, where the majority of the population can receive only English programming. Although many of us from all parties have been in touch with Ofcom, S4C and the BBC in order to try to improve the situation, we have not seen an improvement in provision. So, even if more programming from the BBC and other broadcasters improves awareness of Welsh issues and news here in Wales, the population in Wales that depends upon public service broadcasting will not have that option, because they will have to receive programming from Manchester and Birmingham.

The period when the UK Government was looking at restructuring S4C's funding was a cause of concern for many of us. I think that a compromise has been reached—part of the licence fee is now paid to S4C—and I do believe that it is worth recognising that S4C itself has said that editorial independence is not an issue of concern for it, and that it sees its relationship with the BBC as quite positive now. However, as the Deputy Minister said, there is uncertainty—DCMS has not confirmed the financial position post 2016. Of course, as we move towards 2017, it is difficult for S4C to commission programming and so on without having that information about what the situation will be post 2017, but also what the situation will be in 2016. Unless it knows exactly the scale of funding available to it, that cannot be properly reflected.

I welcome the fact that the Deputy Minister has accepted all of our amendments. Many of us agree that we should, ultimately, move towards a federal system for the BBC. I think that some of the issues that have been raised in Scotland over these past few weeks demonstrate that they need to consider such an approach. However, before we do that, there are ways of improving and strengthening the Welsh voice within the BBC. I do not want to dwell on that any more. You have accepted all our amendments and therefore I welcome the stance taken by the Deputy Minister this afternoon.

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddadl.

**Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

I take this opportunity to thank Members for their contributions during the debate. I do hope that this institution can, as Peter Black suggested, speak with one voice and with unity and strength in this crucially important area.

Linear broadcasting is here to stay for many years to come. However, as Alun Davies stated, there is undoubtedly a generation gap emerging with regard to the way in which content is consumed. Whether it is live or on demand, on a TV or on a computer, on a tablet or on a smart phone, the public service broadcasters are leading innovation in the diversification of content delivery, and we are very keen to ensure that this brings new opportunities for jobs and growth in Wales.

As I have already noted, the majority of the Silk commission's recommendations were in line with the Welsh Government's initial evidence to the commission. However, the recommendation on the devolution of the Department for Culture, Media and Sport element of funding for S4C carries risks, potentially, as a result of the changes to the way in which the BBC is funded after 2017, following charter renewal. Any change on this would have to be conditional on very strong safeguards about the continued overall funding of S4C, as Aled Roberts said.

The commission supported our view that the regulation of broadcasting should remain the responsibility of the UK Government. In a rapidly evolving digital environment, we do not believe that it would be sensible to devolve responsibility for broadcasting. The vital role that broadcasting institutions play in creating a common cultural citizenship for people across the UK would not be strengthened by dividing responsibility for broadcasting institutions among its constituent parts. However this does not mean that public service broadcasters and the regulator should be accountable only to the UK Government. We have been saying for some time—and, today, Members from across the Chamber have agreed—that the governance of broadcasting should reflect the reality of devolved government in the UK, and that this is a service that should be supporting the delivery of policy objectives set in Wales, for Wales and not just those set in Westminster for the whole of the UK.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Aelodau am eu cyfraniadau yn ystod y ddadl. Rwy'n gobeithio y gall y sefydliad hwn, fel yr awgrymodd Peter Black, siarad ag un llais a chydag undod a chryfder yn y maes hanfodol bwysig hwn.

Mae darlledu llinellol yma i aros am flynyddoedd lawer i ddod. Fodd bynnag, fel y dywedodd Alun Davies, mae bwlch rhwng y cenedlaethau sy'n dod i'r amlwg o ran y ffordd y caiff y cynnwys ei ddefnyddio yn ddiâu. Pa un a yw'n fyw neu ar gais, ar y teledu neu ar gyfrifiadur, ar ffurf tabled neu ar ffôn clyfar, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn arwain arloesedd mewn arallgyfeirio darparu cynnwys, ac rydym ni'n awyddus iawn i sicrhau bod hyn yn dod â chyfleoedd newydd ar gyfer swyddi a thwf yng Nghymru.

Fel yr wyf wedi nodi eisoes, roedd y rhan fwyaf o argymhellion comisiwn Silk yn unol â thystiolaeth gychwynnol Llywodraeth Cymru i'r comisiwn. Fodd bynnag, mae risg ynghlwm wrth yr argymhelliad ar ddatganioli elfen o gyllid yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar gyfer S4C, o bosibl, o ganlyniad i'r newidiadau yn y ffordd bydd BBC yn cael ei ariannu ar ôl 2017, yn dilyn adnewyddu ei siarter. Byddai'n rhaid i unrhyw newid ar hyn fod yn amodol ar fesurau diogelu cryf iawn ynghylch y cyllid cyffredinol parhaus i S4C, fel y dywedodd Aled Roberts.

Cefnogodd y comisiwn ein barn y dylai rheoleiddio darlledu barhau i fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Mewn amgylchedd digidol sy'n datblygu'n gyflym, nid ydym yn credu y byddai'n synhwyrol i ddatganioli cyfrifoldeb dros ddarlledu. Ni fyddai'r swyddogaeth hanfodol y mae sefydliadau darlledu yn ei chwarae wrth greu dinasyddiaeth ddiwylliannol gyffredin i bobl ledled y DU yn cael ei chryfhau drwy rannu cyfrifoldeb dros sefydliadau darlledu ymhlith ei rhannau cyfansoddol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a rheoleiddiwr fod yn atebol i Lywodraeth y DU yn unig. Rydym wedi bod yn ei ddweud ers peth amser—a heddiw mae Aelodau o bob rhan o'r Siambr wedi cytuno—y dylai llywodraethu darlledu adlewyrchu gwirionedd llywodraeth ddatganoledig yn y DU, a bod hwn yn wasanaeth a ddylai fod yn cefnogi cyflwyno amcanion polisi a osodwyd yng Nghymru, ar gyfer Cymru ac nid yn unig y rhai a osodwyd yn San Steffan ar gyfer y DU gyfan.

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is no objection. Therefore, amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Amendment agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is that we—[Interruption.] I beg your pardon. There is amendment 2, I am sorry. I am in front of myself. The proposal is to agree amendment 2. [Interruption.] I beg your pardon. We have not yet moved to voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

Y cynnig yw ein bod— [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf. Mae gennym welliant 2, mae'n ddrwg gennyf. Rwyf yn achub blaen ar fy hun. Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf. Nid ydym wedi symud at y cyfnod pleidleisio eto.

*Votes deferred until voting time.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I propose that we move to voting time unless any Member objects? Are there any objections? Right, we will move to voting time.

Rwy'n cynnig ein bod yn symud at y cyfnod pleidleisio oni bai bod unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? A oes unrhyw wrthwynebiad? Iawn, symudwn at y cyfnod pleidleisio.

## Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5581](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 33, Yn erbyn 0, Ymatal 7.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5581](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 33, Yn erbyn 0, Ymatal 7.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5581](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5581](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5581](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5581](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnis NDM5581](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Cynnig NDM5581 fel y'i diwygiwyd

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

2. Yn credu y dylid diogelu cyllid ac annibyniaeth golygyddol darlledwyr iaith Gymraeg.

3. Yn credu:

## Voting Time

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5581](#)

*Amendment agreed: For 33, Against 0, Abstain 7.*

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5581](#)

*Amendment agreed: For 33, Against 0, Abstain 7.*

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5581](#)

*Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5581](#)

*Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5581](#)

*Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5581](#)

*Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5581](#)

*Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 0.*

Motion NDM5581 as amended

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises the importance of the Public Service Broadcasters in Wales.

2. Believes that the funding and editorial independence of Welsh language broadcasters should be protected.

3. Believes that:

a) y dylid creu corff llywodraethu datganoledig o fewn Ymddiriedolaeth y BBC yn y DU;

a) a devolved governance body within the BBC UK Trust should be created;

b) y dylid penodi cynrychiolydd Cymru ar Ymddiriedolaeth y BBC drwy gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; ac

b) the representative of Wales to the BBC Trust should be appointed by formal agreement between the Welsh and UK Governments; and

c) y dylai bwrdd Ofcom gynnwys aelod sydd â chyfrifoldeb penodol dros gynrychioli Cymru.

c) the Ofcom board should include a member with specific responsibility for representing Wales.

4. Yn credu y dylid datganoli trwyddedu radio cymunedol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4. Believes that community radio licensing should be devolved to the National Assembly.

5. Yn nodi trydydd Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom y bwriedir ei gyhoeddi yr haf nesaf.

5. Notes Ofcom's third Public Service Broadcast Review which is due to be published next summer.

6. Yn cydnabod y rôl y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae o ran cynyddu cyfranogiad yn y broses wleidyddol a'r dylanwad y maent yn ei gael ar fywyd diwylliannol ac economaidd yng Nghymru.

6. Recognises the role public service broadcasters play in increasing participation in the political process and the influence they have on cultural and economic life in Wales.

7. Yn croesawu ystyriaeth o fecanweithiau i sicrhau dyfodol yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

7. Welcomes consideration of mechanisms to secure the future of all public service broadcasters in Wales.

8. Yn croesawu ystyriaeth o fecanweithiau i sicrhau atebolrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r Cynulliad hwn yn ogystal ag i Senedd y DU.

8. Welcomes consideration of mechanisms to secure accountability of public service broadcasters to this Assembly as well as to the UK Parliament.

9. Yn gresynu at y dirywiad mewn rhaglennu lleol ar radio masnachol.

9. Regrets the decline in local programming on commercial radio.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5581 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5581 as amended](#)

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 33, Yn erbyn 0, Ymatal 7.*

*Motion agreed: For 33, Against 0, Abstain 7.*

16:51

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

That brings us to the end of today's formal business. However, I just remind Members that we will be having the annual general meeting of the Commonwealth Parliamentary Association immediately afterwards.

Mae hynny'n dod â ni at ddiwedd busnes ffurfiol heddiw. Fodd bynnag, rwyf am atgoffa Aelodau y byddwn yn cael y cyfarfod cyffredinol blyneddol o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn syth wedyn.

*Daeth y cyfarfod i ben am 16:52.*

*The meeting ended at 16:52.*